

Rhan C - Gweinyddu'r etholiad

Etholiadau ar gyfer Cynulliad
Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr
yr Heddlu a Throseddu ar 5 Mai 2016:
canllawiau i Swyddogion Canlyniadau

Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 (diweddarwyd ddiwethaf ym mis Chwefror
2016 i gynnwys penodau 4 a 5, ac ym mis Mawrth 2016 i gynnwys penodau
2 a 3)

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Cyfieithiadau a fformatau eraill

Mae ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer yr etholiadau hyn hefyd ar gael yn Gymraeg.

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid	Rhif paragraff
Chwefror 2016	Ychwanegwyd penodau 4 a 5	DD/G
Mawrth 2016	Ychwanegwyd penodau 2 a 3	DD/G
Mawrth 2016	Wedi ei ailgyhoeddi i gynnwys cyfeiriadau cyfreithiol	DD/G

Cynnwys

1	Ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid	1
	Sesiynau briffio.....	2
	Rhoi gwybodaeth am brosesau etholiadol.....	3
	Pecynnau enwebu.....	4
	Etholiad etholaethol y Cynulliad.....	4
	Etholiad rhanbarthol y Cynulliad	5
	Etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.....	7
	Canllawiau ar derfynau gwario	7
	Rhoi gwybodaeth am gael gafael ar y gofrestr etholiadol.....	8
	Anghenion mynediad i ymgeiswyr	9
2	Y broses enwebu	10
	Ffurflenni enwebu.....	10
	Ymgeiswyr etholaethol.....	11
	Ymgeiswyr rhanbarthol unigol.....	11
	Rhestrau plaid rhanbarthol.....	11
	Gwiriadau anffurfiol	12
	Cyflwyno papurau enwebu	12
	Adeg cyflwyno.....	12
	Man cyflwyno	13
	Pwy all gyflwyno papurau enwebu?	13
	Ymgeisydd etholaethol.....	13
	Ymgeisydd rhanbarthol unigol.....	14
	Rhestr plaid.....	14
	Sut y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno?	14
	Beth i'w wneud os caiff papurau enwebu eu hanfon drwy'r post.....	15
	Cyflwyno ffurflenni enwebu lluosog.....	16
	Archwilio a gwrthwynebu papurau enwebu	16
	Papurau enwebu etholaethol	16
	Papurau enwebu ymgeiswyr rhanbarthol unigol	17
	Papurau enwebu rhestrau plaid rhanbarthol.....	17
	Gofynion enwebu	17
	Ffurflen enwebu	18
	Enwau ymgeiswyr	18
	Enwau a ddefnyddir yn gyffredin	18

Cyfeiriad cartref.....	20
Llofnodwyr.....	21
Defnyddio enwau pleidiau, disgrifiadau pleidiau ac arwyddluniau pleidiau	21
Ychwanegiadau, addasiadau, dileadau a newidiadau mewn perthynas ag enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau plaid ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol	21
Pa ddisgrifiadau y gellir eu defnyddio yn etholiad y Cynulliad?	23
Ymgeiswyr etholaethol	23
Ymgeiswyr rhanbarthol unigol sy'n sefyll etholiad fel aelodau rhanbarthol.....	24
Rhestr plaid ranbarthol.....	24
Ceisiadau am arwyddlun plaid	25
Cydsyniad ymgeisydd i enwebu.....	25
Ernes	27
Ymgeiswyr etholaethol	27
Ymgeiswyr rhanbarthol unigol	27
Enwebiadau plaid / rhestr plaid ranbarthol	28
Penderfynu ar ffurflenni enwebu.....	28
Ymgeiswyr etholaethol	28
Ymgeiswyr rhanbarthol unigol yn yr etholiad rhanbarthol.....	29
Ffurflenni enwebu pleidiau / rhestrau plaid.....	29
Beth i'w wneud ar ôl gwneud penderfyniad ffurfiol.....	30
Ymgeiswyr etholaethol	30
Ymgeiswyr rhanbarthol unigol	31
Ffurflenni enwebu pleidiau	31
Cywiro mân wallau	31
Gwallau sillafu ym manylion ymgeiswyr.....	31
Gwallau mewn cyfeiriad cartref.....	31
Gwrthwynebiadau i ffurflenni enwebu.....	32
Amserlen ar gyfer gwrthwynebiadau.....	32
Enwebiadau a gyflwynir hyd at ac yn cynnwys 4pm ar 6 Ebrill 2016...	32
Enwebiadau a gyflwynir ar ôl 4pm ar 6 Ebrill 2016.....	32
Gwrthwynebu ar sail y ffaith bod ymgeisydd yn y carchar am flwyddyn neu fwy	32
Penderfyniadau ynglŷn â gwrthwynebiadau	33
Tynnu enwau yn ôl	33
Ymgeiswyr	33

Rhestr plaid.....	34
Ar ôl i'r enwebiadau gau.....	35
Enwebiad mewn mwy nag un etholiad.....	35
Dychwelyd ernes	35
Ymgeiswyr etholaethol	35
Ymgeiswyr rhanbarthol unigol.....	35
Enwebiadau plaid.....	35
Etholiad diwrthwynebiad	36
Etholiad etholaethol.....	36
Etholiad rhanbarthol	36
Marwolaeth ymgeisydd.....	36
Marwolaeth ymgeisydd etholaethol annibynnol	37
Marwolaeth ymgeisydd etholaethol sy'n sefyll dros blaid.....	37
Effaith marwolaeth ymgeisydd etholaethol sy'n sefyll ar ran plaid ar yr etholiad rhanbarthol	38
Etholiad etholaethol newydd.....	38
Marwolaeth ymgeisydd rhanbarthol	38
Marwolaeth ymgeisydd yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.....	39
Prawf o farwolaeth a geir cyn i'r bleidlais agor.....	39
Prawf o farwolaeth a geir ar ôl i'r bleidlais agor a chyn i'r canlyniad gael ei ddatgan.....	39
Etholiad newydd	40
3 Asiantiaid yn yr etholiadau.....	41
Asiantiaid yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru	41
Yr asiant etholiad	41
Is-asiantiaid.....	43
Asiantiaid eraill.....	44
Agor pleidleisiau post	44
Y bleidlais.....	44
Y cyfrif	45
Cyfrifo'r canlyniad rhanbarthol a dyrannu seddau	46
Asiantiaid yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.....	46
Yr asiant etholiad	46
Is-asiantiaid.....	46
Asiantiaid eraill.....	47
Agor pleidleisiau post.....	47
Y bleidlais	48

Y cyfrif.....	48
4 Paratoi hysbysiadau, cardiau pleidleisio a phapurau pleidleisio.....	50
Paratoi a chyhoeddi hysbysiadau.....	50
Cyfieithu a fformatau hysbysiadau.....	50
Etholiad etholaethol y Cynulliad.....	51
Etholiad rhanbarthol y Cynulliad	52
Etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.....	52
Datganiadau ynghylch y personau a'r pleidiau a enwebwyd	52
Etholiad etholaethol y Cynulliad.....	53
Etholiad rhanbarthol y Cynulliad	54
Etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.....	55
Hysbysiad etholiad	55
Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru	55
Etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.....	55
Hysbysiad ynghylch lleoliad gorsafoedd pleidleisio.....	56
Paratoi cardiau pleidleisio	57
Dosbarthu cardiau pleidleisio.....	59
Dosbarthu â llaw	60
Dosbarthu drwy'r post	60
Paratoi papurau pleidleisio	60
Lliw'r papur pleidleisio.....	61
Y 'marc swyddogol'	61
Rhifau papurau pleidleisio a'r marc adnabod unigryw	62
Manylion ymgeiswyr a phleidiau	62
Y ffurf ar gyfer cefn y papur pleidleisio.....	63
Argraffu papurau pleidleisio	63
Diogelwch papurau pleidleisio	65
5 Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio	66
Diwedd y cyfnod pleidleisio	66
Trefnu gorsafoedd pleidleisio	67
Cyfarpar a deunyddiau gorsafoedd pleidleisio	68
Dyrannu papurau pleidleisio	70
Cofrestrau gorsafoedd pleidleisio a rhestrau pleidleiswyr absennol.....	71
Rhestrau rhifau cyfatebol	72
Pecynnau ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post a ddsberthir i orsafoedd pleidleisio	73
Cofnodlyfr gorsafoedd pleidleisio	74
Hysbysiadau gorsafoedd pleidleisio	74

1 Ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid

1.1 Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, chi sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y broses enwebu ar gyfer etholiadau etholaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymruⁱ ac am drefn cynnal y bleidlais ar gyfer etholiad etholaethol y Cynulliad a'r rhan honno o etholiad rhanbarthol y Cynulliad a'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau sy'n berthnasol i'ch etholaeth.

1.2 Y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol sy'n gyfrifol am y broses enwebu yn etholiad rhanbarthol y Cynulliad.

1.3 Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu sy'n gyfrifol am y broses enwebu yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau



Mae gwybodaeth fanylach am rolau a chyfrifoldebau'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol, y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, y Swyddog Canlyniadau Lleol a Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ar gael yn [Rhan A – Rolau a chyfrifoldebau.](#)

1.4 Dylai eich cynllun prosiect gynnwys manylion am sut y byddwch yn ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid a sut y byddwch yn rheoli'r broses/prosesau enwebu yr ydych yn gyfrifol amdani/amdanynt.

1.5 Efallai y bydd nifer sylweddol o bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid newydd neu lai profiadol, sy'n llai cyfarwydd ag arferion a phrosesau sefyll etholiad ac y bydd angen eich cymorth arnynt i allu cymryd rhan yn effeithiol. Mae'n bwysig eich bod yn ymgysylltu â phleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid cymaint â phosibl fel eu bod yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i sefyll etholiad a'u bod yn hyderus y caiff y prosesau eu rheoli'n dda.

1.6 Er enghraifft, mae'n hanfodol bod pob plaid ac ymgeisydd yn gwybod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sefyll etholiad, beth yw'r terfynau gwario, sut y gallant gael gafael ar y gofrestr etholiadol a beth yw'r cyfyngiadau o ran defnyddio'r gofrestr. Un anhawster sy'n wynebu Swyddogion Canlyniadau yw nad yw'r sawl sy'n bwriadu sefyll etholiad bob amser yn cysylltu â staff etholiadau cyn cyflwyno eu papurau enwebu. Felly, bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo

ⁱ Fe'i gelwir yn 'Cynulliad' o hyn ymlaen.

argaeledd gwybodaeth a sesiynau briffio i bob plaid, ymgeisydd ac asiant cyn iddynt gwblhau a chyflwyno eu papurau enwebu.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 2](#), dylech sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys drwy sicrhau y rhoddir canllawiau ysgrifenedig iddynt.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi sicrhau bod canllawiau ysgrifenedig ar waith i'w rhoi i ymgeiswyr.

1.7 Dylech hefyd gysylltu â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, a'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol os nad chi sy'n cyflawni'r rôl honno hefyd, er mwyn pennu pa wybodaeth am brosesau lleol y bydd ei hangen arnynt i'w rhannu â phleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid, a chytuno ar sut y dylai'r wybodaeth hon gael ei rhannu.

Sesiynau briffio

1.8 Dylech sicrhau y cynigir sesiwn friffio ar y prosesau penodol sy'n berthnasol i'r etholiad y maent yn ei sefyll, gan gynnwys trefniadau lleol, i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad. Dylai'r sesiynau briffio ddarparu ar gyfer y ffaith nad yw rhai pobl o bosibl yn gwybod fawr ddim am reolau na gweithdrefnau etholiad neu nad ydynt wedi ymwneud ag etholiadau ers peth amser.

1.9 Dylai pob sesiwn friffio amlygu pwysigrwydd dilyn rheolau'r etholiad.

1.10 Mewn perthynas â'r etholiad etholaethol, dylech roi sesiwn friffio ar y broses enwebu gan gynnwys terfynau amser, rheolau cyflwyno, defnyddio enwau cyffredin, cwblhau papurau enwebu, defnyddio enwau pleidiau, disgrifiadau ac arwyddluniau, a'r dulliau o dalu'r ernes.

1.11 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, dylech roi sesiwn friffio ar y broses enwebu ar gyfer etholiad rhanbarthol y Cynulliad, gan gynnwys terfynau amser, rheolau cyflwyno, defnyddio enwau cyffredin, defnyddio enwau pleidiau, disgrifiadau ac arwyddluniau, a'r dulliau o dalu'r ernes. Dylech gysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn eich rhanbarth ynghylch sut y caiff gwybodaeth am drefniadau lleol ei darparu i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys eu manylion cyswllt a gwybodaeth am y dyddiadau, amseroedd a lleoliadau sy'n berthnasol i'r prosesau etholiadol allweddol, megis anfon ac agor pleidleisiau post, yr etholiad, a dilysu a chyfrif pleidleisiau.

1.12 Er y dylech wahodd pob darpar ymgeisydd a phlaidd i sesiwn friffio cyn y cyfnod enwebu neu ar ddechrau'r cyfnod enwebu, gallech ddewis cynnal sesiwn friffio ychwanegol ar ôl i'r pleidiau neu'r ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad gael eu cadarnhau ar ôl i'r broses enwebu gau.

1.13 Ar gyfer etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac etholiad rhanbarthol y Cynulliad, dylech gysylltu â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, a'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol os nad chi sy'n cyflawni'r rôl honno, er mwyn cytuno ar ba sesiynau briffio lleol y dylid eu cynnal, os o gwbl.

1.14 Dylai eich sesiwn neu sesiynau briffio hefyd amlygu unrhyw drefniadau diogelwch sydd wedi cael eu rhoi ar waith mewn ymgynghoriad â'r heddlu. Efallai y byddwch am wahodd eich pwynt cyswllt unigol yn yr heddlu i fod yn bresennol mewn unrhyw sesiynau briffio, neu i ddarparu deunydd ysgrifenedig y gallwch ei roi i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid.

1.15 Mae [cyflwyniad templed ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiad etholaethol y Cynulliad](#) a [chyflwyniad templed ar gyfer pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiad rhanbarthol y Cynulliad](#) y gallech eu defnyddio, ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn. Rydym hefyd wedi llunio cyflwyniad templed ar gyfer [ymgeiswyr ac asiantiaid yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu](#) i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ei ddefnyddio.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 2](#), bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant etholiadol ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi drefnu sesiynau briffio a pharatoi adnoddau briffio.

Rhoi gwybodaeth am brosesau etholiadol

1.16 Dylech sicrhau y caiff pob ymgeisydd ac asiant etholiad yn etholiadau etholaethol y Cynulliad ganllawiau ysgrifenedig ar y broses etholiadol, gan gynnwys trefniadau lleol. Dylai'r wybodaeth gael ei rhoi mewn da bryd er mwyn galluogi ymgeiswyr ac asiantiaid i weithredu arni.

1.17 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, dylech sicrhau bod pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad yn etholiad rhanbarthol y Cynulliad yn cael canllawiau ysgrifenedig ar y prosesau etholiadol perthnasol, gan gynnwys trefniadau lleol. Dylech gysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn eich rhanbarth ynghylch sut y caiff gwybodaeth am drefniadau lleol ei darparu.

1.18 O ran yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac etholiad rhanbarthol y Cynulliad, dylech gysylltu â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, a'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol os nad chi sy'n cyflawni'r rôl honno, er mwyn sicrhau bod pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid yn gallu cael gafael ar wybodaeth am brosesau y byddwch yn eu cyflawni'n lleol, megis agor pleidleisiau post a chyfrif pleidleisiau.

1.19 Diben darparu canllawiau ysgrifenedig yw sicrhau bod pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid yn gallu cael gafael ar ganllawiau awdurdodol a chynhwysfawr er gwybodaeth unrhyw bryd er mwyn sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan mewn etholiad. Nid oes rhaid i ganllawiau ysgrifenedig o'r fath gael eu llunio ar ffurf copi caled bob tro – mewn rhai achosion gall fod yn briodol rhoi dolen i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid lle gallant ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol ar-lein – a mater i'r Swyddog Canlyniadau perthnasol ymhob achos fydd sicrhau y gall pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn hawdd a gwneud beth bynnag sydd ei angen i hwyluso hyn.

1.20 Fel rhan o'ch cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â phleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid a'u helpu i gymryd rhan yn yr etholiadau, bydd angen i chi benderfynu sut y caiff gwybodaeth am drefniadau lleol ei darparu i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid.

1.21 Bydd trefniadau lleol yn cynnwys gwybodaeth am y dyddiadau, yr amseroedd a'r lleoliadau ar gyfer y prosesau etholiadol allweddol, gan gynnwys y canlynol:

- dosbarthu ac agor pleidleisiau post
- y bleidlais
- dilysu a chyfrif pleidleisiau

1.22 Pa ddull bynnag a ddefnyddiwyd ar gyfer rhannu'r wybodaeth, dylech sicrhau y gall pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid gael gafael ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn hawdd er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn yr etholiad.

Pecynnau enwebu

Etholiad etholaethol y Cynulliad

1.23 Dylech baratoi pecyn enwebu ar gyfer unrhyw un sy'n mynegi diddordeb mewn sefyll etholiad etholaethol y Cynulliad.



Rydym wedi llunio set o bapurau enwebu ar gyfer [etholiad etholaethol y Cynulliad](#) sy'n cynnwys yr holl ffurflenni sydd eu hangen ar gyfer enwebiad. Mae'r ffurflenni ar gael ar ein gwefan.

1.24 Dylai'r pecyn enwebu ar gyfer ymgeisydd etholaethol gynnwys y canlynol:

- ffurflen enwebu
- ffurflen cydsynio i'r enwebu
- ffurflen i'r ymgeisydd (neu rywun ar ei ran) roi hysbysiad o benodiad asiant etholiad

- ffurflenni i'r asiant etholiad roi hysbysiad o benodiad is-asiantiaid
- ffurflenni ar gyfer penodi asiantiaid pleidleisio, asiantiaid pleidleisiau post ac asiantiaid cyfrif
- tystysgrif awdurdodi er mwyn caniatáu i ymgeisydd sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestrdig
- ffurflen i ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestrdig ofyn am ddefnyddio arwyddlun
- manylion am sut y dylai'r ernes gael ei thalu, gan gynnwys gwybodaeth am ddulliau o dalu a dderbynnir
- canllawiau ysgrifenedig i ymgeiswyr ac asiantiaid yn cwmpasu agweddau allweddol ar y broses etholiadol, gan gynnwys cymhwyso ac anghymhwyso ar gyfer etholiad, y broses enwebu, beth y dylid ac na ddylid ei wneud wrth ymgyrchu, cael gafael ar drafodion etholiadol a'r hyn sy'n digwydd ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi
- manylion am unrhyw drefniadau lleol, megis y trefniadau ar gyfer agor pleidleisiau post, yr etholiad a'r cyfrif
- manylion am sut i gael copi o'r gofrestr etholiadol a rhestrau'r pleidleiswyr absennol, a ffurflenni i wneud y fath geisiadau ynghyd â gwybodaeth am ble i anfon y ffurflenni cais hyn
- gwybodaeth am derfynau gwariant ymgeiswyr a phleidiau yn yr etholiad a [chanllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid ar wariant a rhoddion](#)
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall



Mae canllawiau'r Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiad i'r Cynulliad ar gael ar ein gwefan yn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/candidate-or-agent/national-assembly-for-wales-elections>

Etholiad rhanbarthol y Cynulliad

1.25 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, dylech baratoi pecyn enwebu ar gyfer unrhyw unigolyn neu blaid wleidyddol gofrestrdig sy'n mynegi diddordeb mewn sefyll etholiad rhanbarthol y Cynulliad.



Rydym wedi llunio set o bapurau enwebu ar gyfer [pleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n cyflwyno rhestr o ymgeiswyr](#) a hefyd i [unigolion sy'n sefyll fel ymgeisydd rhanbarthol unigol](#) sy'n cynnwys yr holl ffurflenni sydd eu hangen ar gyfer enwebiad.

1.26 Dylai'r pecyn enwebu ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n cyflwyno rhestr o ymgeiswyr gynnwys y canlynol:

- ffurflen enwebu y mae'n rhaid ei chyflwyno ynghyd â'r dystysgrif awdurdodi sy'n ymgorffori'r cais am arwyddlun cofrestredig
- ffurflenni cydsynio i'r enwebu (i'w cwblhau gan bob ymgeisydd ar restr plaid ranbarthol)
- ffurflen i'r Swyddog Enwebu, neu rywun ar ei ran, roi hysbysiad o benodiad asiant etholiad
- ffurflenni i'r asiant etholiad roi hysbysiad o benodiad is-asiantiaid

- ffurflenni i'r asiant etholiad roi hysbysiad o benodiad asiantiaid pleidleisio, asiantiaid pleidleisiau post ac asiantiaid cyfrif
- manylion am sut y dylai'r ernes gael ei thalu, gan gynnwys gwybodaeth am ddulliau o dalu a dderbynnir
- canllawiau ysgrifenedig i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid yn cwmpasu agweddau allweddol ar y broses etholiadol, gan gynnwys cymhwyso ac anghymhwyso ar gyfer etholiad, y broses enwebu, beth y dylid ac na ddylid ei wneud wrth ymgyrchu, cael gafael ar drafodion etholiadol a'r hyn sy'n digwydd ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi
- manylion am unrhyw drefniadau lleol ar gyfer pob etholaeth yn y rhanbarth, megis y trefniadau ar gyfer agor pleidleisiau post, yr etholiad a'r cyfrif
- manylion am sut i gael copi o'r gofrestr etholiadol a rhestrau'r pleidleiswyr absennol ar gyfer pob etholaeth yn y rhanbarth, a ffurflenni i wneud y fath geisiadau ynghyd â gwybodaeth am ble i anfon y ffurflenni cais hyn
- gwybodaeth am derfynau gwariant ymgeiswyr a phleidiau yn yr etholiad a [chanllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid ar wariant a rhoddion](#) a [chanllawiau i bleidiau gwleidyddol ar wariant a rhoddion](#)
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall



Mae canllawiau'r Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiad i'r Cynulliad ar gael ar ein gwefan yn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/candidate-or-agent/national-assembly-for-wales-elections>

1.27 Dylai'r pecyn enwebu ar gyfer ymgeiswyr rhanbarthol unigol gynnwys y canlynol:

- ffurflen enwebu
- ffurflen cydsynio i'r enwebu
- ffurflen i'r ymgeisydd (neu rywun ar ei ran) roi hysbysiad o benodiad asiant etholiad
- ffurflenni i'r asiant etholiad roi hysbysiad o benodiad is-asiantiaid
- ffurflenni ar gyfer penodi asiantiaid pleidleisio, asiantiaid pleidleisiau post ac asiantiaid cyfrif
- manylion am sut y dylai'r ernes gael ei thalu, gan gynnwys gwybodaeth am ddulliau o dalu a dderbynnir
- canllawiau ysgrifenedig i ymgeiswyr ac asiantiaid yn cwmpasu agweddau allweddol ar y broses etholiadol, gan gynnwys cymhwyso ac anghymhwyso ar gyfer etholiad, y broses enwebu, beth y dylid ac na ddylid ei wneud wrth ymgyrchu, cael gafael ar drafodion etholiadol a'r hyn sy'n digwydd ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi
- manylion am unrhyw drefniadau lleol ar gyfer pob etholaeth yn y rhanbarth, megis y trefniadau ar gyfer agor pleidleisiau post, yr etholiad a'r cyfrif
- manylion am sut i gael copi o'r gofrestr etholiadol a rhestrau'r pleidleiswyr absennol ar gyfer pob etholaeth yn y rhanbarth, a ffurflenni i

wneud y fath geisiadau ynghyd â gwybodaeth am ble i anfon y ffurflenni cais hyn

- gwybodaeth am derfynau gwariant ymgeiswyr yn yr etholiad a [chanllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid ar wariant a rhoddion](#)
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall




Mae canllawiau'r Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiad i'r Cynulliad ar gael ar ein gwefan yn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/candidate-or-agent/national-assembly-for-wales-elections>

Etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd

1.28 Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu sy'n gyfrifol am weinyddu'r broses enwebu yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, a bydd yn darparu pecynnau enwebu i unrhyw un sy'n mynegi diddordeb mewn sefyll.



Mae canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ar y broses enwebu mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ar gael ar ein [gwefan](#).



Mae canllawiau'r Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ar ein gwefan yn: <http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/candidate-or-agent/police-and-crime-commissioner-elections>

Canllawiau ar derfynau gwario

1.29 Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bleidiau ac ymgeiswyr ddilyn rheolau penodol o ran faint y gallant ei wario, gan bwy y gallant dderbyn rhoddion, a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei gofnodi ar ôl yr etholiad.

1.30 Dylech sicrhau bod pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad yn cael gwybodaeth am gyfrifo'r terfyn gwariant, ffurflenni gwariant a datganiadau er mwyn eu galluogi i fodloni gofynion adrodd. Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrifo terfyn gwario ymgeisydd yn ein canllawiau ar wariant a rhoddion i [ymgeiswyr ac asiantiaid](#).

1.31 Bydd angen i ymgeiswyr yn yr etholiad etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol yn yr etholiad rhanbarthol, wybod cyfanswm yr etholwyr ar y gofrestr llywodraeth leol ar gyfer yr etholaeth neu'r rhanbarth, fel y bo'n briodol, ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad (h.y. 25 diwrnod gwaith cyn yr etholiad, sef 30 Mawrth 2016), ac eithrio unrhyw gyrhaeddwy na fyddant yn 18 oed ar neu cyn y diwrnod pleidleisio. Ar gyfer

etholiad y Cynulliad ar 5 Mai 2016, mae'r niferoedd yn seiliedig ar y gofrestr a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2016.

1.32 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, mae hyn yn golygu y bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn eich rhanbarth er mwyn cael niferoedd perthnasol yr etholwyr a rhannu'r wybodaeth hon â phleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol er mwyn eu galluogi i fodloni eu gofynion adrodd.

1.33 Rydym wedi llunio canllawiau ar wariant a rhoddion i [ymgeiswyr ac asiantiaid](#) ac i [bleidiau gwleidyddol](#) y gallwch eu defnyddio i roi gwybodaeth am ffurflenni gwariant a datganiadau i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid er mwyn eu galluogi i fodloni eu gofynion adrodd.

1.34 Caniateir i ymgeiswyr yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru sefyll fel ymgeiswyr etholaethol a rhanbarthol. Rydym wedi llunio [taflen ffeithiau](#) sy'n amlinellu'r cyfnod a reoleiddir, y terfyn gwariant a'r gofynion adrodd ar gyfer ymgeiswyr deul o'r fath er mwyn eu galluogi i fodloni eu gofynion adrodd.

1.35 Dylai Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu roi gwybodaeth am wariant etholiad i ymgeiswyr ac asiantiaid yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

Rhoi gwybodaeth am gael gafael ar y gofrestr etholiadol

1.36 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol roi'r cyfryw gopïau o'r gofrestr etholiadol i'r Swyddogion Canlyniadau fel sy'n ofynnol ar gyfer y gwahanol agweddau ar yr etholiad(au). Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, neu os yw eich etholaeth yn croesi ffiniau awdurdodau lleol, dylech gysylltu â'r Swyddog(ion) Cofrestru Etholiadol perthnasol er mwyn cytuno ar sut y caiff hyn ei reoli yn ymarferol. Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, bydd angen i chi gysylltu â Swyddogion Cofrestru Etholiadol o bob rhan o'ch rhanbarth.

1.37 Mae gan ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol hawl i gael copi o'r gofrestr lawn am ddim, ar gais ysgrifenedig. Yn achos plaid gofrestredig sy'n cyflwyno rhestr o ymgeiswyr fel aelodau rhanbarthol, bydd gan asiant etholiad rhestr y blaid hawl i gael copi o'r gofrestr lawn.

1.38 Er mai Swyddog Cofrestru Etholiadol pob ardal awdurdod lleol sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol am ddarparu cofrestrau, os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol ar gyfer etholaeth sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol, dylai fod gennych gynlluniau ar waith ar gyfer rheoli neu gydgyssylltu ceisiadau a darparu copïau o'r cofrestrau i ymgeiswyr er mwyn sicrhau y gall pob ymgeisydd gael gafael ar gofrestrau mewn modd amserol a hawdd.

1.39 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, dylai fod gennych gynlluniau ar waith ar gyfer rheoli neu gydgyssylltu ceisiadau a

darparu copïau o'r cofrestrau i'r rhanbarth cyfan er mwyn sicrhau bod pawb sydd â hawl i gael cofrestrau yn gallu cael gafael arnynt mewn modd amserol a hawdd.

1.40 Er enghraifft, gallwch ystyried darparu'r cofrestrau'n ganolog ar ran pob Swyddog Cofrestru Etholiadol yn yr etholaeth neu, yn achos Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, y rhanbarth, a chynnwys ffurflen gais yn y pecyn enwebu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol sy'n rhan o'r ardal etholiadol berthnasol. Mantais y dull gweithredu hwn yw y gallai weithredu fel mai dim ond un ffurflen gais ar gyfer yr holl ardaloedd awdurdod lleol y bydd angen i ymgeiswyr neu asiantiaid etholiad ei chwblhau ac y byddant yn cael eu cofrestrau o un man, yn hytrach na gorfod cysylltu â phob Swyddog Cofrestru Etholiadol ar wahân gyda cheisiadau unigol.

1.41 Fodd bynnag, byddai hefyd angen i chi ystyried y trefniadau ymarferol o ran cyfuno'r cofrestrau, ac yn enwedig y diweddariadau i'r gofrestr, a thrafod â'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol a chytuno ar sut y gellid dwyn ynghyd y gwahanol gofrestrau a'r diweddariadau iddynt i'w darparu'n amserol, gan gynnwys sut y byddai hyn yn gweithio ar gyfer copïau argraffedig a chopïau data. Mae'n rhaid i'r cofrestrau gael eu darparu ar ffurf data oni ofynnir yn benodol am gopi argraffedig.



Ceir gwybodaeth fanwl am fynediad a chyflenwi'r gofrestr etholiadol lawn a rhestrau o bleidleiswyr absennol i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol cofrestredig (a all ofyn am gopi ar unrhyw adeg) ac eraill yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#) o'n canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

1.42 Mae'r Comisiwn wedi llunio ffurflenni cais [templed ar gyfer y gofrestr etholiadol](#) a [rhestr o bleidleiswyr absennol](#) y gellir eu darparu i ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad.

Anghenion mynediad i ymgeiswyr

1.43 Dylech gofio bod gan ymgeiswyr ac asiantiaid o bosibl anghenion mynediad penodol, ac felly efallai y bydd angen unrhyw wybodaeth neu ganllawiau arnynt a luniwyd ar ffurf print bras neu fformat arall, megis Braille neu sain, neu mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg.

2 Y broses enwebu

2.1 Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ar weinyddu'r broses enwebu yn etholiadau etholaethol a rhanbarthol y Cynulliad. Nid yw'n trafod y broses enwebu ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, gan mai Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu sy'n gyfrifol am y broses hon.



Mae canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ar y broses enwebu ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ar gael ym mhennod Pennod 3 o'r [Canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ar gyflawni prosesau allweddol](#).

2.2 Dim ond ar gyfer yr ymgeisydd y mae cwestiynau ynghylch cymhwysedd neu anghymhwysedd ac ni ddylech roi cyngor ar faterion o'r fath. Dylid cyfeirio'r ymgeisydd at [ganllawiau'r Comisiwn i ymgeiswyr ac asiantiaid](#) yn y lle cyntaf. Os oes ganddo unrhyw gwestiynau neu bryderon pellach, dylid ei gynghori i geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun.

Ffurflenni enwebu

2.3 Nid oes rhaid i ymgeiswyr na phleidiau ddefnyddio'r ffurflenni enwebu a luniwyd gennych chi, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, ar yr amod bod eu ffurflen enwebu yn dilyn y ffurf ragnodedig.

2.4 Dim ond yn Gymraeg neu Saesneg y gellir llunio ffurflenni enwebu, ac nid mewn unrhyw ieithoedd neu fformatau amgen.

2.5 Rhaid i chi roi ffurflenni enwebu i ymgeiswyr etholaethol ar gais.¹ Lle bo hynny'n bosibl, dylech roi cymorth i unrhyw ymgeisydd sy'n gofyn amdano i lenwi'r ffurflenni.

2.6 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, rhaid i chi roi ffurflenni enwebu i bleidiau ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol ar gais.² Lle bo hynny'n bosibl, dylech roi cymorth i unrhyw ymgeisydd neu blaid sy'n gofyn amdano i lenwi'r ffurflenni.



Rydym wedi llunio set o bapurau enwebu ar gyfer yr [etholiad etholaethol](#) a'r etholiad rhanbarthol (ar gyfer [ymgeiswyr rhanbarthol unigol](#) a [rhestrau plaid](#)) y gellir eu rhoi i ymgeiswyr a phleidiau.

Ymgeiswyr etholaethol

2.7 Dim ond os byddwch wedi derbyn y ffurflenni canlynol wedi eu llenwi ynghyd â'r ernes o £500 (gweler paragraffau **2.110** i **2.116**) erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 7 Ebrill 2016) y tybir bod ymgeisydd etholaethol wedi ei enwebu'n ddilys:

- y ffurflen enwebu
- cydsyniad i enwebu³

Er mwyn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig, rhaid bod y blaid wedi'i chofrestru ar gofrestr o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn yn <http://search.electoralcommission.org.uk/cymraeg> a bod wedi'i rhestru'n blaid y caniateir iddi gyflwyno ymgeiswyr yng Nghymru, a rhaid i'r ymgeisydd hefyd gyflwyno tystysgrif awdurdodi, sy'n rhoi awdurdod i ddefnyddio enw'r blaid ar y papur pleidleisio (fel y'i rhagnodir), a gall hefyd gynnwys cais i ddefnyddio un o arwyddluniau cofrestredig y blaid.⁴

Ymgeiswyr rhanbarthol unigol

2.8 Dim ond os bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi derbyn y ffurflenni canlynol wedi eu llenwi ynghyd â'r ernes o £500 (gweler paragraffau **2.110** i **2.116**) erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 7 Ebrill 2016) y tybir bod ymgeisydd rhanbarthol unigol wedi ei enwebu'n ddilys:

- y ffurflen enwebu
- cydsyniad i enwebu⁵

Rhestrau plaid rhanbarthol

2.9 Rhaid bod unrhyw blaid sy'n sefyll yn yr etholiad rhanbarthol wedi'i chofrestru ar gofrestr o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn yn <http://search.electoralcommission.org.uk/cymraeg> a bod wedi'i rhestru'n blaid y caniateir iddi gyflwyno ymgeiswyr yng Nghymru⁶.

2.10 Dim ond os bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi derbyn y ffurflenni canlynol wedi eu llenwi ynghyd â'r ernes o £500 (gweler paragraffau **2.110** i **2.116**) erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 7 Ebrill 2016) y tybir bod plaid a phob ymgeisydd ar ei rhestr wedi eu henwebu'n ddilys:

- ffurflen enwebu ar gyfer rhestr rhanbarthol y blaid, ynghyd â thystysgrif awdurdodi sy'n rhoi awdurdod i ddefnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad cofrestredig
- cydsyniad i enwebu ar gyfer pob ymgeisydd ar y rhestr
- cais ysgrifenedig i ddefnyddio un o arwyddluniau cofrestredig y blaid (os dymunir gwneud hynny)

Gwiriadau anffurfiol

2.11 P'un a ydych yn Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu'n Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylech sicrhau bod cyfle'n codi i bapurau enwebu ymgeiswyr a phleidiau (fel sy'n briodol) gael eu gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol.

2.12 Dylid rhoi cyfle cyfartal i bob ymgeisydd, asiant a phlaid (fel sy'n briodol) allu cael gwiriad anffurfiol. Diben gwiriadau anffurfiol yw helpu ymgeiswyr a phleidiau i gymryd rhan effeithiol yn y broses etholiadol fel na fydd unrhyw wallau a wneir ganddynt wrth gwblhau'r gwaith papur yn golygu na chaiff etholwyr gyfle i bleidleisio drostynt, os yw hynny'n bosibl. Dylech ystyried sut rydych yn mynd i reoli'r broses hon, er enghraifft drwy roi system apwyntiadau ar waith.

2.13 Wrth gynnal gwiriad anffurfiol dylid nodi'n glir bod y papurau enwebu yn cael eu hystyried yn anffurfiol. Ar ddiwedd y gwiriad anffurfiol, dylech gynnig dychwelyd y papurau enwebu os oes problem wedi ei nodi. Os na nodwyd unrhyw broblemau, dylech gynnig eu derbyn yn ffurfiol.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 2](#), bydd angen i chi sicrhau bod cyfle'n codi i bapurau enwebu ymgeiswyr gael eu gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi trefniadau ar waith i wirio papurau enwebu ymgeiswyr yn anffurfiol cyn iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol.

Cyflwyno papurau enwebu

Adeg cyflwyno

2.14 Gellir derbyn papurau enwebu rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad etholiad⁷.

2.15 Y terfyn amser ar gyfer enwebiadau yw 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad (h.y. 4pm ar 7 Ebrill 2016). Ni ellir symud nac ymestyn y terfyn amser hwn am unrhyw reswm.

2.16 Pennir bod y papurau enwebu wedi eu cyflwyno pan fyddant wedi eu cyflwyno, â llaw pan fydd hynny'n ofynnol, yn y lle a nodir yn yr hysbysiad etholiad.

2.17 Nid os angen trefnu apwyntiad i gyflwyno papurau enwebu. Fodd bynnag, p'un a ydych yn Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu'n Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylech ystyried sut y byddwch yn rheoli'r nifer bosibl o enwebiadau a ddaw i law. Gallai hyn gynnwys cynnig apwyntiadau ar gyfer gwiriadau anffurfiol a chyflwyno'r papurau enwebu yn ffurfiol.

2.18 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd neu'r Swyddog Enwebu (fel sy'n briodol) yw sicrhau bod y papurau enwebu yn cael eu cyflwyno yn y ffordd gywir ac ar amser. Os na chyflwynwyd set gyflawn o bapurau enwebu a'r ernes erbyn yr amser hwnnw, nid yw'r enwebiad wedi ei wneud sy'n golygu na allwch ddyfarnu bod y papur enwebu yn ddilys nac yn annilys.

Man cyflwyno

2.19 Rhaid i bapurau enwebu gael eu cyflwyno yn y lleoliad a nodwyd gennych, p'un a ydych yn Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu'n Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, ar yr hysbysiad etholiad perthnasol.⁸

2.20 Ar gyfer yr etholiad etholaethol, rhaid i'r lleoliad a ddewiswch fod:

- yn etholaeth y Cynulliad, neu
- yn yr ardal gofrestru sy'n cynnwys unrhyw ran o etholaeth y Cynulliad neu'r etholaeth gyfan⁹

2.21 Ar gyfer yr etholiad rhanbarthol, rhaid i'r lleoliad fod yn rhanbarth etholiadol y Cynulliad.¹⁰

2.22 Dylai'r cyfeiriad a roddir ar gyfer cyflwyno papurau enwebu fod yn fanwl gywir, a dylai gynnwys unrhyw enw neu rif ystafell. Bydd hyn yn osgoi unrhyw amheuaeth os caiff enwebiadau eu cyflwyno'n agos at y terfyn amser.

2.23 Dylech ddarparu arwyddion clir o fynedfa'r adeilad i'r ystafell a neilltuwyd ar gyfer cyflwyno'r papurau. Dylai'r ffordd hon, neu ffordd amgen wedi ei harwyddo'n briodol, fod yn hollol hygyrch.

2.24 Dylech chi neu ddirprwy penodedig fod yn bresennol drwy gydol y cyfnod ar gyfer enwebiadau a dim ond chi a'ch staff ddylai ddelio ag enwebiadau. Dylech roi manylion i staff awdurdod lleol eraill, megis staff derbynfa, am beth i'w wneud os bydd rhywun yn ceisio rhoi papur enwebu iddynt, gan nodi'n glir na ddylent ddelio â phapurau enwebu ac na ddylid cynnig eu derbyn ond yn hytrach eu cyfeirio atoch chi.

Pwy all gyflwyno papurau enwebu?

Ymgeisydd etholaethol

2.25 Dim ond y bobl ganlynol a gaiff gyflwyno ffurflen enwebu etholaethol i chi:

- yr ymgeisydd
- asiant etholiad yr ymgeisydd, ar yr amod eich bod wedi derbyn hysbysiad o'i benodiad. Gellir cyflwyno'r hysbysiad o benodiad asiant etholiad ar yr un pryd â'r ffurflen enwebu
- os yw'r ymgeisydd yn sefyll dros blaid a bod y dystysgrif awdurdodi yn cael ei chyflwyno ar yr un pryd â'r ffurflen enwebu,¹¹ Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu i

weithredu ar ei ran, os ydych wedi cael copi o'r penodiad ysgrifenedig hwnnw)

2.26 Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar bwy all gyflwyno cydsyniad i'r enwebiad neu, yn achos ymgeisydd plaid yn yr etholiad etholaethol, y dystysgrif awdurdodi.

Ymgeisydd rhanbarthol unigol

2.27 Dim ond y bobl ganlynol a gaiff gyflwyno ffurflen enwebu ymgeisydd rhanbarthol unigol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol:

- yr ymgeisydd
- asiant etholiad yr ymgeisydd, ar yr amod eich bod wedi derbyn hysbysiad o'i benodiad. Gellir cyflwyno'r hysbysiad o benodiad asiant etholiad ar yr un pryd â'r ffurflen enwebu¹²

2.28 Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar bwy all gyflwyno cydsyniad ymgeisydd rhanbarthol unigol i'r enwebiad.

Rhestr plaid

2.29 Rhaid i ffurflen enwebu rhestr plaid a'r dystysgrif awdurdodi gael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gan Swyddog Enwebu'r blaid wleidyddol gofrestredig honno (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu i weithredu ar ei ran, os ydych wedi cael copi o'r penodiad ysgrifenedig hwnnw)¹³. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar bwy all gyflwyno ffurflenni cydsynio i'r enwebu.

Sut y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno?

2.30 Rhaid i ffurflenni enwebu a ffurflenni cydsynio i enwebu gael eu cyflwyno â llaw ac ni ellir eu postio, ffacsio, e-bostio na defnyddio unrhyw gyfrwng electronig arall. Yr unig eithriad yw pan fo ymgeisydd dramor ac yn yr achos hwnnw, caiff anfon ei gydsyniad i'r enwebiad drwy gyfrwng electronig.¹⁴ Pan fo'n rhaid i ddogfen gael ei chyflwyno â llaw ac nid gan berson penodol, gall gael ei chyflwyno gan gludwr.

2.31 Mae tystysgrifau awdurdodi ar gyfer ymgeiswyr etholaethol sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol wedi'u rhagnodi ac maent yn cynnwys ceisiadau i ddefnyddio arwyddluniau. Gellir cyflwyno'r tystysgrifau â llaw neu drwy'r post, ond ni ellir eu ffacsio, e-bostio na defnyddio unrhyw gyfrwng electronig arall.

2.32 Rhaid i'r dystysgrif awdurdodi ragnodedig ar gyfer rhestr plaid gael ei chyfuno (gweler paragraff XXError! Reference source not found.) â'r ffurflen enwebu ar gyfer rhestr y blaid honno (sydd hefyd wedi'i rhagnodi) ac felly rhaid iddynt gael eu cyflwyno â llaw. Mae'r dystysgrif awdurdodi ragnodedig hefyd yn cynnwys y cais i ddefnyddio arwyddluniau ac felly rhaid i'r cais i ddefnyddio arwyddluniau ar gyfer rhestrau plaid gael ei gyflwyno â llaw hefyd¹⁵.

2.33 Rhaid cyflwyno **fersiwn wreiddiol** pob dogfen a gwblhawyd. Byddai tystysgrif awdurdodi, er enghraifft, a anfonwyd fel atodiad e-bost i'w hargraffu,

yn 'gopi o ddogfen' ac nid y ddogfen wreiddiol. Mae angen dull o awdurdodi er mwyn gwneud tystysgrif yn dystysgrif. Bydd hyn, yn ymarferol yn y rhan fwyaf o achosion, ar ffurf llofnod er mwyn ardystio bod y ffeithiau a nodwyd yn wir. Fodd bynnag, gallai fod ar ffurf sêl. Pa bynnag ddull awdurdodi a ddefnyddir, rhaid mai'r ddogfen wreiddiol yw'r un a dderbyniwch, yn hytrach na chopi o ddogfen.

2.34 P'un a ydych yn Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu'n Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylech gymryd camau i gyfleu'r gofynion sy'n ymwneud â chyflwyno papurau enwebu i'r holl ddarpar ymgeiswyr, pleidiau ac asiantiaid (fel sy'n briodol) a sicrhau y caiff y gofynion hyn eu hamlygu mewn unrhyw friffiadau neu ganllawiau lleol a gaiff eu llunio gennych.

2.35 Unwaith y bydd papur enwebu wedi'i gyflwyno'n ffurfiol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau iddo (yn dibynnu ar eich pŵer i gywiro mân wallau¹⁶). Ar adeg cyflwyno'r papurau yn ffurfiol dylech felly arnodi'r papur gyda'r dyddiad a'r amser cyflwyno, fel bod gennych gofnod o pryd y cyflwynwyd y papur yn ffurfiol. Os bydd ymgeisydd neu blaid yn penderfynu wedi hynny eu bod am wneud unrhyw newidiadau, er enghraifft i'r disgrifiad, dylent dynnu eu henwebiad yn ôl a chyflwyno papurau enwebu newydd o fewn yr amserlen statudol.

Beth i'w wneud os caiff papurau enwebu eu hanfon drwy'r post

2.36 Os caiff unrhyw bapurau enwebu eu hanfon drwy'r post, nid ystyrir eu bod wedi eu 'cyflwyno' yn unol â'r rheolau. Felly, ni thybir bod yr ymgeisydd neu'r blaid wedi'u henwebu ac ni ellir penderfynu p'un a yw'r papurau yn ddilys ai peidio.

2.37 P'un a ydych yn Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu'n Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylai fod gennych brosesau i fonitro unrhyw bost a anfonir i'r lle dynodedig ar gyfer cyflwyno papurau enwebu, fel y gellir nodi unrhyw bapurau a ddaw i law yn gyflym.

2.38 Dylech geisio cysylltu â'r ymgeisydd, neu'r Swyddog Enwebu os mai enwebiad ar gyfer rhestr plaid ydyw, gan ddefnyddio'r manylion ar y ffurflen enwebu a'u hysbysu na ellir derbyn papurau enwebu drwy'r post a bod angen iddynt gael eu 'cyflwyno' â llaw, gan y person priodol a nodir ym mharagraffau **2.25** i **2.29** yn y lle dan sylw ac o fewn yr amser a nodir ar yr hysbysiad etholiad yn unol â'r rheolau. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd neu'r Swyddog Enwebu yw sicrhau bod hyn yn cael ei wneud o fewn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno enwebiadau. Ni chaniateir i chi, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, gyflwyno'r papurau.

2.39 Nid oes angen i'r ymgeisydd neu'r Swyddog Enwebu (fel sy'n briodol) baratoi papurau enwebu 'newydd' na chael llofnodwyr newydd a dylech gadw unrhyw bapurau enwebu a gewch drwy'r post fel y gall rhywun eu casglu a'u cyflwyno i chi â llaw.

Cyflwyno ffurflenni enwebu lluosog

2.40 Nid oes unrhyw derfyn ar nifer y ffurflenni enwebu y gellir eu cyflwyno. Os caiff ymgeisydd neu blaid eu henwebu'n ddilys drwy fwy nag un ffurflen, dylai'r ymgeisydd neu'r Swyddog Enwebu (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu, os yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi cael copi o'r penodiad ysgrifenedig hwnnw), fel sy'n briodol, ddewis pa un o'r ffurflenni enwebu dilys (y ffurflen enwebu 'ddethol') y dylid ei defnyddio er mwyn i'r manylion gael eu hychwanegu at y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd neu'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd (fel sy'n briodol) a'r papur pleidleisio. Os na allant wneud hyn neu os nad ydynt yn gwneud hyn, yna mae'n rhaid i chi, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, ddewis pa un o'r ffurflenni a gaiff ei defnyddio¹⁷.

2.41 Os cyflwynir mwy nag un ffurflen enwebu a bod un o'r ffurflenni enwebu'n annilys, caiff y papur hwnnw ei eithrio o'r ffurflenni y gellir eu dewis. Cyhyd â bod o leiaf un ffurflen enwebu yn ddilys, gellir enwebu'r ymgeisydd neu'r blaid (fel sy'n briodol) yn ddilys.

Archwilio a gwrthwynebu papurau enwebu

2.42 Dim ond rhai pobl a gaiff archwilio a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu. Gweler paragraff **2.139** i gael rhagor o wybodaeth am ddelio â gwrthwynebiadau.

2.43 Ni chaiff unrhyw un arall archwilio papurau enwebu ar unrhyw adeg.

2.44 Caiff cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac un person arall a ddewisir gan ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys (boed yn ymgeisydd etholaethol, yn ymgeisydd rhanbarthol unigol neu'n ymgeisydd ar restr plaid) fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu hefyd, ond ni chânt archwilio na gwrthwynebu papurau enwebu.¹⁸

2.45 Dylech gadw'r papurau enwebu yn ddiogel a gadael i'r personau y rhoddwyd caniatâd iddynt archwilio'r ffurflenni enwebu wneud hynny hyd at y terfyn amser ar gyfer gwrthwynebu'r papurau enwebu. Ar ddiwedd y terfyn amser ar gyfer gwrthwynebu, dylech storio'r papurau enwebu yn ddiogel am flwyddyn ar ôl yr etholiad.

Papurau enwebu etholaethol

2.46 Ar ôl i ymgeisydd etholaethol gyflwyno ei bapurau enwebu a'i ernes a bod ganddo enwebiad dilys, bydd hawl ganddo fod yn bresennol pan gaiff papurau enwebu ymgeiswyr eraill eu cyflwyno a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflenni enwebu etholaethol. Yn ogystal â'r ymgeisydd, bydd yr unigolion canlynol hefyd yn gallu bod yn bresennol a gwrthwynebu:

- ei asiant etholiad
- yn achos ymgeiswyr sy'n sefyll dros blaid wleidyddol gofrestredig, Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu, os ydych wedi cael copi o'r penodiad ysgrifenedig hwnnw)
- os yw'r ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant etholiad ei hun, gall benodi un person arall i fod yn bresennol pan gaiff papurau enwebu eu cyflwyno a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu¹⁹

Papurau enwebu ymgeiswyr rhanbarthol unigol

2.47 Ar ôl i ymgeisydd rhanbarthol unigol gyflwyno ei bapurau enwebu a'i ernes a bod ganddo enwebiad dilys, bydd hawl ganddo i fod yn bresennol pan gaiff papurau enwebu rhanbarthol eu cyflwyno a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflenni enwebu rhanbarthol. Yn ogystal â'r ymgeisydd rhanbarthol unigol, bydd yr unigolion canlynol hefyd yn gallu bod yn bresennol a gwrthwynebu:

- ei asiant etholiad
- os yw'r ymgeisydd rhanbarthol unigol yn gweithredu fel ei asiant etholiad ei hun, gall benodi un person arall i fod yn bresennol pan gaiff papurau enwebu eu cyflwyno a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu²⁰

Papurau enwebu rhestrau plaid rhanbarthol

2.48 Bydd yr unigolion canlynol yn gallu bod yn bresennol a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflenni enwebu rhanbarthol:

- asiant etholiad ar gyfer rhestr plaid neu Swyddog Enwebu plaid (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu, os yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi cael copi o'r penodiad ysgrifenedig hwnnw) sydd wedi cyflwyno rhestr plaid
- ymgeisydd sydd wedi'i gynnwys ar restr plaid
- os bydd ymgeisydd ar restr plaid yn gweithredu fel asiant etholiad ar gyfer y rhestr honno, gall benodi un person arall i fod yn bresennol pan gaiff papurau enwebu eu cyflwyno a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu.

Gofynion enwebu

2.49 Mae'r adran hon yn cynnwys esboniad o'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys ar y papurau enwebu, er mwyn eich helpu i adolygu ac yn y pen draw benderfynu ar ddilysrwydd papurau enwebu.

2.50 Dylech atgoffa unrhyw un sy'n cyflwyno'r papurau enwebu fod gwneud datganiad anwir ar bapurau enwebu yn drosedd. Os yw'r ffurflen enwebu yn cynnwys enw a ddefnyddir yn gyffredin, dylech gyfeirio at y ffaith bod y drosedd hefyd yn gymwys os yw ymgeisydd wedi rhoi enw a ddefnyddir yn gyffredin nad yw mewn gwirionedd yn ei ddefnyddio'n gyffredin. Cewch rybuddio ymgeiswyr a phleidiau mai'r gosb am ddatganiad anwir yw dirwy

anghyfyngedig a/neu ddedfryd o garchar am chwe mis (hyd at flwyddyn drwy ddiad).

Ffurflen enwebu

Enwau ymgeiswyr

2.51 Mae'n rhaid i enwau llawn ymgeiswyr gael eu rhestru ar y ffurflenni enwebu ar gyfer yr etholiadau etholaethol a'r etholiadau rhanbarthol, gyda'u cyfenw yn gyntaf wedyn eu holl enwau eraill yn llawn.²¹

2.52 Nid yw'r ffurflenni enwebu rhagnodedig yn cynnwys unrhyw le ar gyfer rhagddodiaid nac ôl-ddodiaid.

2.53 Dylid cyngori ymgeiswyr a phleidiau i beidio â defnyddio rhagddodiaid fel Mr, Mrs, Dr neu Cyng, nac ôl-ddodiaid, yn y maes ar y ffurflen enwebu sy'n gofyn am enw llawn yr ymgeisydd. Os caiff rhagddodiad neu ôl-ddodiad ei ddefnyddio fel rhan o'r enw gwirioneddol ni fyddai'r ffurflen enwebu yn annilys o ganlyniad i hynny, ond ni ddylid trosglwyddo'r rhagddodiad neu'r ôl-ddodiad i'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd neu'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd (fel sy'n briodol). Os cyflwynir ffurflen enwebu gyda rhagddodiad neu ôl-ddodiad fel rhan o enw gwirioneddol ymgeisydd, dylech hysbysu'r blaid, yr ymgeisydd a'i asiant na fydd yn ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd neu'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd (fel sy'n briodol) na'r papur pleidleisio, ond nad yw hyn wedi effeithio ar ei enwebiad.

2.54 Fodd bynnag, os oes gan ymgeisydd deitl, gall ddefnyddio hwn fel ei enw llawn. Er enghraifft, os mai enw gwirioneddol yr ymgeisydd yw Joseph Smith, ond mai ei deitl etifeddol yw Joseph Avon, gall ddefnyddio'r enw Joseph Avon fel ei enw llawn.

Enwau a ddefnyddir yn gyffredin

2.55 Pan fydd ymgeisydd yn defnyddio enw gwahanol i'w enw gwirioneddol yn fynych, gall ofyn am gael defnyddio ei enw(au) cyffredin yn lle ei enw gwirioneddol.²²

2.56 Gall ymgeisydd ofyn am gael defnyddio enw cyntaf a/neu gyfenw cyffredin. Er enghraifft, efallai mai 'Andy' yw'r enw cryno a ddefnyddir ar ei gyfer, yn lle ei enw llawn cyntaf sef 'Andrew'. Os felly, gall ysgrifennu 'Andy' yn y blwch enw cyntaf cyffredin ar y ffurflen enwebu os byddai'n well ganddo fod yr enw hwnnw'n ymddangos ar y papur pleidleisio.

2.57 Caiff ymgeisydd hefyd ddefnyddio blaenlythrennau fel rhan o'u henw cyffredin os cânt eu defnyddio'n fynych mewn perthynas â nhw.

2.58 Fodd bynnag, ni chaiff ymgeisydd ddefnyddio ei enw cyntaf fel enw cyffredin fel mai dim ond ei enw cyntaf a'i gyfenw sy'n ymddangos ar bapur pleidleisio, a thrwy hynny ddileu ei enw canol. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir bod enw cyffredin yn un sy'n wahanol i unrhyw enw cyntaf neu gyfenw arall. Mae hyn yn golygu na all enw cyntaf ar ei ffurf wreiddiol gael ei ddefnyddio fel enw cyffredin. Os bydd ymgeisydd yn dymuno defnyddio enw

cyntaf a/neu gyfenw cyffredin yna rhaid iddynt fod yn wahanol i'w enw llawn fel y mae'n ymddangos ar y ffurflen enwebu. Er enghraifft, yn achos Andrew John Smith, ni allai ddefnyddio Andrew Smith fel ei enw cyffredin, er y gallai ddefnyddio Andy Smith (os mai Andy oedd ei enw cyffredin)²³.

2.59 Nid eich cyfrifoldeb chi, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, yw penderfynu a yw'r enw cyffredin a roddwyd yn 'enw' neu p'un a yw'n bodloni'r gofyniad cyfreithiol i fod yn wahanol i unrhyw enw arall a all fod ganddo. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i chi dderbyn beth bynnag y bydd ymgeisydd wedi'i nodi yn y blwch enw cyffredin ar ei olwg a'i dderbyn fel enw cyffredin yr ymgeisydd.

2.60 Yn ôl y gyfraith, yr unig seiliau sydd gennych ar gyfer gwrthod enw a ddefnyddir yn gyffredin yw'r rhai canlynol:²⁴

- mae'n debygol y gall ei ddefnydd gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu
- mae'n aflan neu'n sarhaus

2.61 Yn ystod y cam archwilio anffurfiol, os cewch eich cyflwyno â ffurflen enwebu sydd wedi'i chwblhau mewn modd sy'n ymddangos i chi nad yw'r enw cyffredin yn wahanol i unrhyw enwau cyntaf neu gyfenwau eraill sydd gan yr ymgeisydd, dylech dynnu sylw'r ymgeisydd neu'r blaid at ddiffiniad cyfreithiol enw a ddefnyddir yn gyffredin a nodi ei bod yn drosedd gwneud datganiad anwir yn fwriadol ar ffurflen enwebu. Dylech hefyd nodi os na chaiff ffurflen enwebu ei chwblhau yn unol â'r gyfraith, y bydd yr ymgeisydd neu'r blaid yn wynebu risg o gael eu herio os cânt eu hethol.

2.62 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd neu'r blaid yw sicrhau eu bod wedi cwblhau eu ffurflen enwebu yn unol â'r gyfraith a bod yn fodlon bod yr enw cyffredin a roddwyd yn enw a ddefnyddir yn gyffredin gan yr ymgeisydd mewn gwirionedd.

2.63 Wrth roi cyngor anffurfiol, efallai yr hoffech dynnu sylw at ein [canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid](#) ar enwau a ddefnyddir yn gyffredin. Mae'r tabl isod yn cynnwys nifer o enghreifftiau o gyfuniadau amrywiol o enwau a ddefnyddir yn gyffredin a sut y byddai hyn yn effeithio ar ymddangosiad enw'r ymgeisydd ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd neu'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd (fel sy'n briodol) a'r hysbysiad etholiad:

Cyfenw gwirioneddol yr ymgeisydd	Enwau eraill yr ymgeisydd yn llawn	Enwau cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin	Cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin	Enw i'w nodi ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd neu'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd, a'r hysbysiad etholiad
Etholwr	Ann	Elsie	Pleidleisiwr	Pleidleisiwr, Elsie
Etholwr	Ann	[Gwag]	Pleidleisiwr	Pleidleisiwr, Ann
Etholwr	Ann	Elsie	[Gwag]	Etholwr, Elsie

2.64 Os caiff y blwch ar gyfer enwau cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin ei adael yn wag, yna bydd enwau cyntaf neu gyfenw gwirioneddol yr ymgeisydd, yn dibynnu ar ba flwch ar gyfer enwau a ddefnyddir yn gyffredin a adawyd yn wag, yn mynd ar ddatganiad yr unigolion a enwebwyd, yr hysbysiad etholiad ac ar y papur pleidleisio.

2.65 Dylech gynghori'r ymgeisydd a'r blaid bod y defnydd o enwau cyffredin ond yn gymwys i'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, yr hysbysiad etholiad a'r papur pleidleisio. Dylai enw gwirioneddol yr ymgeisydd ymddangos ar unrhyw ddogfennau y mae'n ofynnol iddynt ddangos enw'r ymgeisydd, fel yr argraffnod a ffurflenni gwariant yr ymgeisydd.

2.66 Os byddwch yn gwrthod defnyddio enw cyffredin, ni fydd hyn yn effeithio ar ddilysrwydd y ffurflen enwebu. Yn hytrach, bydd enw llawn yr ymgeisydd yn ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd neu'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd (fel sy'n briodol), yr hysbysiad etholiad a'r papur pleidleisio. Dylid egluro hyn i ymgeiswyr, pleidiau ac asiantiaid ac mae'n rhaid i chi ysgrifennu at yr ymgeisydd yn nodi'r rhesymau dros beidio â chaniatáu iddo ddefnyddio'r enw cyffredin²⁵.

Cyfeiriad cartref

2.67 Mae'n rhaid i bob ymgeisydd, boed yn ymgeisydd etholaethol, yn ymgeisydd rhanbarthol unigol neu'n ymgeisydd ar restr plaid, roi ei gyfeiriad cartref²⁶ fel a ganlyn:

- rhaid ei gwblhau'n llawn
- ni ddylai gynnwys talfyriadau
- rhaid mai ei gyfeiriad cartref cyfredol ydyw
- ni ddylai fod yn gyfeiriad busnes (oni fydd yr ymgeisydd yn rhedeg busnes o'i gartref)

2.68 Os bydd unrhyw ran o fanylion y cyfeiriad cartref yn anghywir neu wedi'i hepgor, ni fydd yr enwebiad yn annilys yn awtomatig os yw'r disgrifiad o'r lle yn un a ddeallir yn gyffredin.

Llofnodwyr

2.69 Rhaid i ffurflenni enwebu ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol gael eu llofnodi gan yr ymgeisydd neu unigolyn arall (yn yr achos hwn, rhaid i'r unigolyn hwnnw roi ei enw a'i gyfeiriad llawn hefyd).²⁷

2.70 Rhaid i ffurflen enwebu rhestr plaid gael ei llofnodi gan un o'r ymgeiswyr ar y rhestr neu unigolyn arall (yn yr achos hwn, rhaid i'r unigolyn hwnnw roi ei enw a'i gyfeiriad llawn hefyd).²⁸

Defnyddio enwau pleidiau, disgrifiadau pleidiau ac arwyddluniau pleidiau

2.71 Ym mhob achos, er mwyn gallu defnyddio manylion adnabod plaid (h.y. enw, disgrifiad ac arwyddlun) rhaid bod y blaid wedi'i chofrestru ar [gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) a bod wedi'i rhestru'n blaid y caniateir iddi gyflwyno ymgeiswyr yng Nghymru²⁹.

2.72 Gall pleidiau gwleidyddol gofrestru hyd at 12 disgrifiad yn ddwyieithog.

2.73 Rhaid i chi sicrhau bod enw'r blaid neu'r disgrifiad a roddwyd ar y ffurflen enwebu wedi'i gofrestru ar [gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) a'i fod yn cyfateb iddynt yn llwyr. Os nad yw'n cyfateb, rhaid i chi wrthod yr enwebiad hwnnw³⁰. Hyd yn oed os yw plaid gofrestredig yn adnabyddus, mae'n hanfodol edrych ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol i gael union fanylion y blaid fel y'u cofrestrwyd gyda'r Comisiwn.

2.74 At ddibenion cynnal llwybr archwilio clir ac yn achos unrhyw heriau yn y dyfodol, dylech argraffu copi o'r rhan berthnasol o [gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) sy'n dangos y disgrifiadau ac enw'r blaid pan wnaed y penderfyniad.

2.75 Gall pleidiau gwleidyddol gofrestru hyd at dri arwyddlun hefyd.

2.76 Bydd ffeil Zip o ddelweddau arwyddluniau ar gael ar ein gwefan. Fodd bynnag, er bod y ffeil Zip yn adnodd a all gael ei ddefnyddio gan eich argraffydd i baratoi papurau pleidleisio, y wybodaeth ar [gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) a ddylai gael ei defnyddio i gadarnhau pa arwyddlun i'w argraffu ar y papurau pleidleisio.

Ychwanegiadau, addasiadau, dileadau a newidiadau mewn perthynas ag enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau plaid ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol

2.77 Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu y gellir dileu unrhyw ddisgrifiadau cofrestredig neu gyflwyno disgrifiadau newydd yn lle hen rai hyd at a chan gynnwys y diwrnod cyn dyddiad gwirioneddol cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer unrhyw etholiad penodol (noder nad hwn yw'r diwrnod olaf ar gyfer

cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ond yn hytrach y diwrnod cyhoeddi ei hun). Ar ôl hynny, nid yw unrhyw newidiadau i ddisgrifiadau pleidiau neu achosion o ddileu unrhyw ddisgrifiadau pleidiau yn berthnasol ar gyfer yr etholiad hwnnw.

2.78 Er enghraifft, os byddwch yn penderfynu cyhoeddi eich hysbysiad etholiad cyn y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad yn ôl y gyfraith, mae'n bosibl y gellir cyflwyno enwebiad sy'n cynnwys disgrifiad plaid gofrestredig nad yw'n ymddangos mwyach ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol. Os cafodd y disgrifiad ei ddileu ar ôl i chi gyhoeddi eich hysbysiad etholiad ond cyn y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad etholiad, nid yw'r dilead yn berthnasol i'ch etholiad ac mae'r 'hen' disgrifiad yn ddilys o hyd. Mewn unrhyw amgylchiadau o'r fath gallwch holi [swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru](#) a yw'r disgrifiad a gyflwynwyd o'r blaidd yn gymwys ar gyfer eich etholiad.

2.79 Dylech hefyd nodi y gall pleidiau gwleidyddol newid enw ac arwyddluniau cofrestredig eu plaid, ac ychwanegu unrhyw ddisgrifiad newydd os oeddent wedi cofrestru llai na 12 o ddisgrifiadau yn flaenorol, unrhyw bryd cyn i enwebiadau gau.

2.80 Pan fydd ymgeisydd neu blaid yn ceisio cyflwyno ffurflen enwebu sy'n cynnwys disgrifiad nad yw wedi'i gofrestru eto, dylech hysbysu'r ymgeisydd neu'r blaid (fel sy'n briodol) i beidio â chyflwyno'r ffurflen yn ffurfiol, ond i'w thynnu'n ôl a'i chyflwyno unwaith y bydd y disgrifiad wedi'i gofrestru'n llwyddiannus.

2.81 Os bydd ymgeisydd neu blaid (fel sy'n briodol) yn cyflwyno eu ffurflen enwebu gyda disgrifiad nad yw wedi'i gofrestru eto, rhaid i chi nodi bod yr enwebiad yn annilys ar y sail, pan wnaed y penderfyniad, nad oedd y disgrifiad a roddwyd yn cyfateb i unrhyw ddisgrifiad a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn. Efallai y byddwch am gysylltu â'r Comisiwn i gael cadarnhad nad yw disgrifiad wedi'i gofrestru eto cyn gwneud eich penderfyniad. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â [swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru](#).

2.82 Ar gyfer etholiadau mis Mai 2016, rydym yn gosod dyddiad cau gweinyddol o 22 Chwefror 2016 ar gyfer ceisiadau:

- i newid manylion adnabod plaid (enw, disgrifiadau ac arwyddluniau), ac
- i gofrestru pleidiau a manylion adnabod newydd (enw, disgrifiadau ac arwyddluniau).

2.83 Efallai na chaiff unrhyw geisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwnnw eu prosesu mewn da bryd i fod yn weithredol ar gyfer etholiadau mis Mai 2016.

2.84 Er bod y Comisiwn yn anelu at ddiweddarau'r gofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol erbyn 21 Mawrth 2016ⁱⁱ, gallai fod angen diweddarau'r gofrestr ar

ⁱⁱDewiswyd 21 Mawrth 2016 gan mai dyma'r cynharaf o'r 'dyddiadau olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad' sy'n berthnasol i'r etholiadau hynny sydd wedi'u trefnu ar gyfer 5 Mai

ôl y dyddiad hwnnw. Os caiff unrhyw newidiadau eu gwneud i fanylion adnabod plaid ar ôl y dyddiad hwnnw ond mewn da bryd i fod yn weithredol ar gyfer etholiadau mis Mai 2016, bydd y Comisiwn yn hysbysu Swyddogion Canlyniadau a'u staff drwy Fwletin Gweinyddu Etholiadau.



I gael y wybodaeth ddiweddaraf am bleidiau gwleidyddol, disgrifiadau cofrestredig ac arwyddluniau cofrestredig, dylech edrych ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol ar wefan y Comisiwn yn <http://search.electoralcommission.org.uk/Cymraeg>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, dylech gysylltu â [swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru](#).

Pa ddisgrifiadau y gellir eu defnyddio yn etholiad y Cynulliad?

2.85 Mae'r ddeddfwriaeth yn fanwl gywir ynghylch disgrifiadau. Mae rheolau gwahanol yn gymwys i ymgeiswyr etholaethol, ymgeiswyr rhanbarthol unigol a rhestrau plaid fel sydd wedi'u nodi isod:

Ymgeiswyr etholaethol

Caiff ymgeiswyr etholaethol ond ddefnyddio un o'r disgrifiadau canlynol:

- y gair 'Annibynnol' a/neu 'Independent'
- enw cofrestredig y blaid
- un o'r disgrifiadau y mae'r blaid wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn³¹

2.86 Caiff ymgeiswyr ddefnyddio fersiwn Gymraeg, fersiwn Saesneg neu'r ddwy fersiwn o enw'r blaid neu ddisgrifiad, cyhyd â'u bod wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn.

2.87 Os hoffai ymgeisydd ddefnyddio enw plaid neu ddisgrifiad, rhaid iddo gael ei awdurdodi gan Swyddog Enwebu'r Blaid (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu, os ydych wedi cael copi o'r penodiad ysgrifenedig hwnnw)³². Os bydd y disgrifiad ar y ffurflen enwebu yn cyfateb i ddisgrifiad ar ein cofrestr o bleidiau gwleidyddol neu os yw'n enw plaid gofrestrdig, rhaid cyflwyno tystysgrif awdurdodi, a lofnodwyd gan swyddog enwebu'r blaid (neu rywun a benodwyd ganddo), cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno papurau enwebu³³.

2.88 Caiff ymgeiswyr etholaethol sy'n sefyll ar ran dwy blaid gofrestrdig neu fwy ond ddefnyddio disgrifiad ar y cyd sydd wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn. Os bydd ymgeisydd yn sefyll ar ran dwy blaid neu fwy, rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno tystysgrif awdurdodi gan Swyddogion Enwebu pob un o'r Pleidiau (neu unigolion a benodwyd yn ysgrifenedig gan bob Swyddog Enwebu, ar yr amod eich bod wedi cael copi o'r hysbysiad ysgrifenedig hwnnw) erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.³⁴

2016. 21 Mawrth yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf.

2.89 Rhestrir disgrifiadau ar y cyd ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol ar y dudalen gofrestru ar gyfer y pleidiau perthnasol yn yr adran disgrifiadau, ac ym mhob achos caiff y disgrifiad ei ddilyn gan y geiriau '(Disgrifiad ar y Cyd gyda'r blaid xx)'. Enghraifft o hyn fyddai 'Ymgeisydd y Blaid Sgwâr a'r Blaid Gron (Disgrifiad ar y Cyd gyda'r Blaid Gron)', a gaiff ei restru ar dudalen y Blaid Sgwâr. Noder bod y geiriau mewn cromfachau at ddibenion esboniadol yn unig ac nad ydynt yn ffurfio rhan o'r disgrifiad.

2.90 Gallwch weld pwy yw Swyddog Enwebu plaid benodol drwy gyfeirio at gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol.

2.91 Gall Swyddog Enwebu sefyll fel ymgeisydd. Os digwydd hyn, gall yr ymgeisydd, fel Swyddog Enwebu, awdurdodi ei ddisgrifiad ei hun. Gall unigolyn a awdurdodwyd gan y Swyddog Enwebu i lofnodi tystysgrif awdurdodi hefyd fod yn ymgeisydd a llofnodi tystysgrif ar gyfer ei enwebiad ei hun.

Ymgeiswyr rhanbarthol unigol sy'n sefyll etholiad fel aelodau rhanbarthol

2.92 Dim ond y disgrifiad 'Annibynnol' a/neu 'Independent' y gall ymgeiswyr rhanbarthol unigol ei ddefnyddio, neu gallant adael y disgrifiad yn wag.³⁵

Rhestr plaid ranbarthol

2.93 **Rhaid** i ffurflen enwebu pob plaid gynnwys³⁶:

- enw (neu enwau) cofrestredig plaid wleidyddol gofrestredig, neu
- un o'r disgrifiadau y mae'r blaid wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn.

2.94 Caiff ymgeiswyr ddefnyddio fersiwn Gymraeg, fersiwn Saesneg neu'r ddwy fersiwn o enw'r blaid neu ddisgrifiad, cyhyd â'u bod wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn.

2.95 Rhaid i Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu, os yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi cael copi o'r penodiad ysgrifenedig hwnnw)³⁷ awdurdodi unrhyw ddefnydd o enw'r blaid neu'r disgrifiad. Os bydd y disgrifiad ar y ffurflen enwebu yn cyfateb i ddisgrifiad ar ein cofrestr o bleidiau gwleidyddol neu os yw'n enw plaid gofrestredig, rhaid cyflwyno tystysgrif awdurdodi, a roddwyd gan Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu, ar yr amod bod y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi cael copi o'r penodiad ysgrifenedig hwnnw), cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.³⁸

2.96 Gallwch weld pwy yw Swyddog Enwebu plaid benodol drwy gyfeirio at gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol.

2.97 Mae'r dystysgrif awdurdodi ar gyfer rhestr plaid yn yr etholiad rhanbarthol wedi'i rhagnodi a rhaid ei chyfuno â ffurflen enwebu'r blaid.³⁹

Ceisiadau am arwyddlun plaid

2.98 Gall ymgeisydd etholaethol plaid gofrestredig ddewis cael arwyddlun cofrestredig o'r plaid y mae'n ei chynrychioli ar y papur pleidleisio. Er mwyn bod yn gymwys, mae'n rhaid bod ymgeisydd wedi'i awdurdodi i ddefnyddio enw plaid neu ddisgrifiad heblaw am 'Annibynnol' a/neu 'Independent'⁴⁰. Os dymunir bod arwyddlun cofrestredig y plaid yn ymddangos ar y papur pleidleisio wrth ymyl enw'r ymgeisydd⁴¹, rhaid gwneud cais am hynny ar y dystysgrif awdurdodi.

2.99 Os bydd ymgeisydd etholaethol yn sefyll ar ran mwy nag un plaid, gall y dystysgrif awdurdodi gynnwys cais gan Swyddogion Enwebu'r pleidiau hynny i arwyddlun cofrestredig un o'r pleidiau ymddangos wrth ymyl enw'r ymgeisydd.

2.100 Os dymunir bod arwyddlun cofrestredig y plaid yn ymddangos ar y papur pleidleisio wrth ymyl enw'r plaid yn achos rhestr plaid⁴², rhaid gwneud cais am hynny ar y dystysgrif awdurdodi.

2.101 Os oes gan plaid fwy nag un arwyddlun cofrestredig, dylai unrhyw gais am arwyddlun nodi pa un y dymunir ei ddefnyddio. Os na nodir yr arwyddlun, neu os bydd y plaid gofrestredig yn newid neu'n tynnu'r arwyddlun o'r gofrestr o bleidiau gwleidyddol ar ôl i'r papurau enwebu gael eu cyflwyno ond cyn i'r enwebiadau gau, dylech geisio cysylltu â'r ymgeisydd neu'r Swyddog Enwebu (neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran) fel sy'n briodol a gofyn iddo ddewis arwyddlun. Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylech hefyd ddweud wrtho os na fydd yn dewis arwyddlun penodol cyn i'r enwebiadau gau, na fyddwch yn gallu argraffu arwyddlun wrth ymyl ei enw neu enw'r plaid (fel sy'n briodol) ar y papur pleidleisio.

2.102 Efallai y cewch gopi eglurder uchel o'r arwyddlun i'w ddefnyddio wrth argraffu papurau pleidleisio, neu efallai y bydd yr ymgeisydd neu'r plaid yn gofyn i chi lawrlwytho'r arwyddlun o wefan y Comisiwn. Rhaid i chi sicrhau bod pa gopi bynnag a ddefnyddir ar yr un ffurf â'r arwyddlun cofrestredig.

2.103 Mae'r cyfarwyddiadau argraffu yn y rheolau etholiadol yn nodi'r maint mwyaf ar gyfer arwyddluniau ar y papur pleidleisio. Wrth ychwanegu arwyddlun plaid at bapur pleidleisio, ni ddylid newid siâp yr arwyddlun. Rhaid i chi sicrhau bod yr arwyddlun ar yr un ffurf â'r arwyddlun cofrestredig - er enghraifft, peidiwch ag ymestyn arwyddluniau yn siapiau sgwâr os nad ydynt wedi'u cofrestru fel delweddau sgwâr ar ein gwefan, oherwydd byddai hyn yn newid eu hymddangosiad.

Cydsyniad ymgeisydd i enwebu

2.104 Rhaid i'r holl ymgeiswyr (boed yn ymgeiswyr etholaethol, ymgeiswyr rhanbarthol unigol neu'n ymgeiswyr ar restr plaid) hefyd gydsynio'n ffurfiol i'w henwebiad a chyflwyno eu cydsyniad erbyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.⁴³ Rhaid ei gyflwyno â llaw ac ni ellir ei bostio, ffacsio, e-bostio na defnyddio unrhyw gyfrwng electronig arall⁴⁴. Nid yw'r ffurflen

cydsynio i'r enwebu wedi'i rhagnodi, ond mae'r cynnwys gofynnol wedi'i nodi mewn cyfraith.

2.105 Rhaid i gydsyniad yr ymgeisydd gynnwys⁴⁵:

- dyddiad geni'r ymgeisydd
- ar gyfer ymgeiswyr etholaethol, cyfeiriad yn yr etholaeth, etholaeth gydffiniol neu mewn sir neu fwrdeistref sirol sy'n rhannol o fewn yr etholaeth neu sy'n ffinio â'r etholaeth
- ar gyfer ymgeiswyr rhanbarthol unigol neu'r rhai ar restr plaid ranbarthol, cyfeiriad yng Nghymru
- datganiad ei fod yn ymwybodol o ddarpariaethau Adrannau 12 i 15 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (fel y'u diwygiwyd) ac unrhyw orchymyn yn y Cyngor o dan adran 12(1)(b) o'r Ddeddf honno
- datganiad nad ydyw, hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred, wedi'i anghymhwysu rhag bod yn aelod o'r Cynulliad neu ei fod ond wedi'i anghymhwysu o dan adran 16(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006
- yn achos ymgeisydd etholaethol, datganiad nad yw'n ymgeisydd mewn unrhyw etholiad etholaethol arall
- yn achos ymgeisydd ar restr ranbarthol plaid gofrestredig, datganiad nad ydyw, ar gyfer etholiad Cynulliad a gynhelir ar yr un diwrnod: yn ymgeisydd unigol nac yn ymgeisydd ar unrhyw restr plaid arall ar gyfer yr un rhanbarth etholiadol; nac yn ymgeisydd unigol nac yn ymgeisydd rhestr plaid ar gyfer unrhyw ranbarth arall; nac yn ymgeisydd etholaethol ar gyfer etholaeth nad yw wedi'i chynnwys yn yr un rhanbarth etholiadol; nac yn ymgeisydd etholaethol ar gyfer etholaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr un rhanbarth etholiadol heblaw fel ymgeisydd ar ran yr un blaid.
- yn achos ymgeisydd rhanbarthol unigol, datganiad nad ydyw, ar gyfer etholiad Cynulliad a gynhelir ar yr un diwrnod: yn ymgeisydd rhestr plaid ar gyfer yr un rhanbarth; nac yn ymgeisydd unigol nac yn ymgeisydd rhestr plaid ar gyfer unrhyw ranbarth arall; nac yn ymgeisydd yn yr etholiad etholaethol ar gyfer etholaeth nad yw wedi'i chynnwys yn yr un rhanbarth etholiadol; nac yn ymgeisydd ar ran unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig yn yr etholiad etholaethol ar gyfer etholaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr un rhanbarth etholiadol.

2.106 Ni chaiff ymgeiswyr lofnodi eu ffurflenni cydsynio yn gynharach nag un mis calendr cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno eu papurau enwebu (h.y. nid cyn 8 Mawrth 2016).

2.107 Mae'n rhaid i'r cydsyniad hefyd gael ei dystio gan unigolyn arall. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all dystio'r cydsyniad i'r enwebiad⁴⁶.

2.108 Mae eithriad i'r gofyniad bod yn rhaid i'r cydsyniad gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig ac â llaw. Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, os byddwch yn fodlon nad yw'n rhesymol ymarferol i ymgeisydd roi cydsyniad yn ysgrifenedig, am nad yw yn y DU, gallwch drin cydsyniad a gyflwynir gan ymgeisydd drwy delegram neu ddull cyfathrebu tebyg fel e-bost, ffacs neu ddogfen wedi'i sganio a anfonir yn electronig, fel

cydsyniad ysgrifenedig. Tybir bod y cydsyniad wedi'i roi ar y dyddiad y caiff ei anfon, ac nid oes angen i neb ei dystio.

2.109 Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, os na fyddwch yn cael ffurflen gydsynio ar gyfer ymgeisydd penodol ar restr plaid erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad (erbyn 4pm ar 7 Ebrill 2016), rhaid i chi dynnu enw'r unigolyn hwnnw oddi ar y rhestr, ond ni fydd enwebiad rhestr y blaid yn annilys⁴⁷.

Ernes

2.110 Er mwyn cael ei enwebu'n ddilys (boed fel ymgeisydd etholaethol, ymgeisydd rhanbarthol unigol neu restr plaid ranbarthol), rhaid rhoi ernes o £500 i chi, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, cyn i'r enwebiadau gau.⁴⁸

2.111 Mae gennych rywfaint o ddisgresiwn ynghylch sut y byddwch yn derbyn taliad yr ernes. Rhaid i'r taliad gael ei dderbyn pan gaiff ei wneud gan dendr cyfreithiol (arian parod mewn punnoedd Prydeinig yn unig) neu ddrafft bancwr y DU⁴⁹. Gallwch wrthod derbyn drafft bancwr os nad ydych yn gwybod p'un a yw'r tynnwr yn cynnal busnes fel bancwr yn y Deyrnas Unedig.

2.112 Gallwch ddewis derbyn cyllid drwy siec cymdeithas adeiladu, cerdyn debyd neu gredyd neu drosglwyddo cyllid yn electronig os oes cyfleusterau ar gael i chi, er nad yw'n ofynnol i chi wneud hynny. Dylech dderbyn sieciau cymdeithas adeiladu os yw'n cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig. Dylech hefyd dderbyn taliadau bancwr sef gorchmynion a gyhoeddir gan fanc, sy'n gwarantu taliad i'r derbynnydd. Os byddwch yn penderfynu derbyn unrhyw rai o'r dulliau hyn dylech eu rhestru ar yr hysbysiad etholiad ac egluro unrhyw ofynion sydd gennych yn y pecyn enwebu.

2.113 Os oes ffi ynghlwm wrth ddull o dalu, gallwch ei throsglwyddo i'r ymgeisydd. Os felly, dylech nodi hyn yn glir ar yr hysbysiad etholiad a'r pecyn enwebu.

Ymgeiswyr etholaethol

2.114 Rhaid i'r ernes gael ei chyflwyno gan yr ymgeisydd (neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd)⁵⁰. Os caiff yr ernes ei chyflwyno gan rywun arall heblaw am yr ymgeisydd, rhaid i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r ernes roi ei enw a'i gyfeiriad i chi, oni fydd wedi darparu'r wybodaeth hon eisoes fel rhan o'i hysbysiad o benodiad fel asiant etholiad yr ymgeisydd⁵¹.

Ymgeiswyr rhanbarthol unigol

2.115 Rhaid i'r ernes gael ei chyflwyno gan yr ymgeisydd (neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd)⁵². Os caiff yr ernes ei chyflwyno gan rywun arall heblaw am yr ymgeisydd, rhaid i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r ernes roi ei enw a'i gyfeiriad i chi, oni fydd wedi darparu'r wybodaeth hon eisoes fel rhan o'i hysbysiad o benodiad fel asiant etholiad yr ymgeisydd⁵³.

Enwebiadau plaid / rhestr plaid ranbarthol

2.116 Rhaid i'r ernes gael ei chyflwyno gan Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu, ar yr amod bod y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi cael copi o'r penodiad ysgrifenedig hwnnw), neu un o'r ymgeiswyr ar y rhestr, neu unigolyn ar ran un o'r ymgeiswyr ar y rhestr⁵⁴. Os caiff yr ernes ei chyflwyno gan y Swyddog Enwebu, rhaid iddo hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol am hynny pan fydd yn ei chyflwyno. Rhaid i unrhyw un arall sy'n talu'r ernes roi ei enw a'i gyfeiriad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar adeg ei thalu (oni bai mai'r unigolyn hwnnw yw asiant etholiad rhestr y blaid a bod ei enw a'i gyfeiriad wedi cael eu rhoi i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn flaenorol)⁵⁵.

Penderfynu ar ffurflenni enwebu

2.117 Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, os na fyddwch wedi cael yr ernes o £500 neu unrhyw bapurau enwebu gofynnol erbyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno papurau enwebu, ni fydd yr ymgeisydd neu'r blaid wedi'u henwebu'n ddilys. Yna ni fydd angen gwneud penderfyniad ffurfiol, ac ni ddylai eu henw ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd neu'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau a enwebwyd (fel sy'n briodol).

2.118 Ceir cyfraith achosion sy'n egluro na ddylai Swyddogion Canlyniadau archwilio nac ymchwilio i unrhyw ymgeisydd ac nad yw eu dyletswydd yn mynd y tu hwnt i sicrhau bod y ffurflen enwebu yn gywir yn ôl pob golwg. Er enghraifft, ni ddylech archwilio p'un a yw enw a roddwyd ar ffurflen enwebu yn ddilys. Bydd hefyd angen i chi ddiystyru unrhyw wybodaeth bersonol a all fod gennych eisoes am yr ymgeisydd. Bydd angen gwneud unrhyw benderfyniadau ar sail y ffurflen ei hun. Awgrymir y dylid cymhwyso'r un egwyddorion i enwebiadau a rhestrau plaid.

2.119 Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i bob ffurflen enwebu gael ei chyflwyno'n ffurfiol, rhaid i chi benderfynu a yw'r ymgeisydd neu'r blaid (a'r ymgeiswyr ar restr plaid) wedi'u henwebu'n ddilys.⁵⁶ Gorau po gyntaf y gwnewch y penderfyniad ffurfiol, oherwydd bydd mwy o siawns y bydd unrhyw ymgeiswyr neu bleidiau sydd wedi gwneud camgymeriad ac y mae eu henwebiad wedi'i wrthod yn gallu cyflwyno ffurflenni newydd cyn i'r enwebiadau gau.

Ymgeiswyr etholaethol

2.120 Tybir bod ymgeisydd sy'n cyflwyno papurau enwebu sydd wedi'u cwblhau a'r ernes erbyn y terfyn amser gofynnol wedi'i enwebu oni phenderfynwch fod y ffurflen enwebu yn annilys (neu fod yr ymgeisydd yn marw neu'n tynnu'n ôl).

2.121 Yn ôl y gyfraith, yr unig sail sydd gennych dros benderfynu bod ffurflen enwebu etholaethol yn annilys yw:

- nid yw manylion yr ymgeisydd yn unol â'r gyfraith, neu
- ni lofnodwyd y ffurflen fel sy'n ofynnol, neu
- mae'r ymgeisydd wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy, neu
- mae'r ymgeisyddiaeth yn groes i a7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006

2.122 Mae unrhyw ddisgrifiad a roddir ar y ffurflen enwebu yn rhan o 'fanylion yr ymgeisydd'. Felly, os nad yw'r blaid ac unrhyw ddisgrifiad a roddir yn ymddangos ar gofrestr y [Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) a all sefyll etholiadau yng Nghymru neu os na roddwyd awdurdod i'w defnyddio drwy gyflwyno tystysgrif awdurdodi ragnodedig, rhaid pennu bod yr enwebiad yn annilys⁵⁷. Yn eich barn chi, os nad yw'r ffurflen enwebu yn cydymffurfio â'r rheolau ar gyfer disgrifiadau, rhaid i chi wneud penderfyniad i'r perwyl hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r ffurflen enwebu gael ei chyflwyno ac, mewn unrhyw achos, heb fod yn hwyrach na 24 awr ar ôl cau'r enwebiadau⁵⁸.

Ymgeiswyr rhanbarthol unigol yn yr etholiad rhanbarthol

2.123 Tybir bod ymgeisydd sy'n cyflwyno papurau enwebu sydd wedi'u cwblhau a'r ernes erbyn y terfyn amser gofynnol wedi'i enwebu oni phenderfynwch fod y ffurflen enwebu yn annilys (neu fod yr ymgeisydd yn marw neu'n tynnu'n ôl).

2.124 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, yn ôl y gyfraith, yr unig sail sydd gennych dros benderfynu bod ffurflen enwebu yn annilys yw:

- nid yw manylion yr ymgeisydd yn unol â'r gyfraith
- ni lofnodwyd y ffurflen fel sy'n ofynnol
- mae'r ymgeisydd wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy
- mae'r unigolyn, yn yr un etholiad, yn ymgeisydd ar restr plaid ar gyfer yr un rhanbarth; yn ymgeisydd unigol neu'n ymgeisydd rhestr plaid ar gyfer rhanbarth arall; yn ymgeisydd yn yr etholiad etholaethol ar gyfer etholaeth nad yw wedi'i chynnwys yn yr un rhanbarth etholiadol; yn ymgeisydd ar ran unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig yn yr etholiad etholaethol ar gyfer etholaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr un rhanbarth etholiadol.

Ffurflenni enwebu pleidiau / rhestrau plaid

2.125 Tybir bod plaid a phob ymgeisydd ar ei rhestr sy'n cyflwyno papurau enwebu sydd wedi'u cwblhau a'r ernes erbyn y terfyn amser gofynnol wedi'u henwebu oni phenderfynwch fod y ffurflen enwebu yn annilys.

2.126 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, yn ôl y gyfraith, yr unig sail sydd gennych dros benderfynu bod ffurflen enwebu plaid yn annilys yw:

- ni lofnodwyd y ffurflen fel sy'n ofynnol
- nid yw'r ffurflen enwebu yn cynnwys rhestr plaid neu mae mwy na 12 o ymgeiswyr wedi'u cynnwys ar y rhestr

- nid oes gan un o'r ymgeiswyr sydd wedi'u cynnwys ar restr y blaid enwebiad mwyach ⁵⁹
- nid yw'r blaid neu'r enw neu'r disgrifiad a roddwyd ar gyfer y blaid wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn neu ni roddwyd awdurdod i'w defnyddio drwy gyflwyno tystysgrif awdurdodi ragnodedig. Yn eich barn chi, os nad yw ffurflen enwebu'r blaid yn cydymffurfio â'r rheolau ar gyfer disgrifiadau, rhaid i chi wneud penderfyniad i'r perwyl hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i enwebiad y blaid gael ei gyflwyno ac, mewn unrhyw achos, heb fod yn hwyrach na 24 awr ar ôl cau'r enwebiadau ⁶⁰.

2.127 Yn ogystal, yr unig sail sydd gennych dros benderfynu na ddylai ymgeisydd ar restr plaid fod ag enwebiad mwyach yw:

- nid yw manylion yr ymgeisydd ar y rhestr honno yn unol â'r gyfraith
- mae'r ymgeisydd wedi'i anghymhwysu am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy
- mae'r ymgeisydd ar y rhestr honno, yn yr un etholiad, yn ymgeisydd unigol neu'n ymgeisydd ar unrhyw restr plaid arall ar gyfer yr un rhanbarth etholiadol; yn ymgeisydd unigol neu'n ymgeisydd rhestr plaid ar gyfer rhanbarth arall; yn ymgeisydd etholaethol ar gyfer etholaeth nad yw wedi'i chynnwys yn yr un rhanbarth etholiadol; yn ymgeisydd etholaethol ar gyfer etholaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr un rhanbarth etholiadol heblaw fel ymgeisydd ar ran yr un blaid.



Rydym wedi llunio rhestr wirio ar gyfer yr [etholiad etholaethol](#) a rhestr wirio ar gyfer yr [etholiad rhanbarthol](#) (ar gyfer enwebiadau ymgeiswyr rhanbarthol unigol ac enwebiadau pleidiau) sy'n nodi'r hyn y bydd angen i chi, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, ei ystyried a phethau penodol i'w cadw mewn cof wrth benderfynu ar enwebiad etholaethol neu enwebiad rhanbarthol gan blaid.

Beth i'w wneud ar ôl gwneud penderfyniad ffurfiol

2.128 Os penderfynir bod ffurflen enwebu neu ffurflen enwebu plaid yn annilys, mae'n bwysig cymryd camau i gysylltu â'r ymgeisydd, yr asiant neu'r Swyddog Enwebu (fel sy'n briodol) cyn gynted â phosibl fel y gall gael y cyfle, pan fo hynny'n bosibl, i gyflwyno ffurflen enwebu neu ffurflen enwebu plaid arall (fel sy'n briodol) cyn i'r enwebiadau gau.

Ymgeiswyr etholaethol

2.129 Pan fyddwch wedi penderfynu bod ffurflen enwebu yn ddilys, mae'r penderfyniad hwnnw'n derfynol ac ni ellir ei gwestiynu mewn unrhyw weithrediadau (er y gellir ei herio ar ôl yr etholiad ar ffurf deiseb etholiadol. ⁶¹)

2.130 Os byddwch yn penderfynu bod y ffurflen enwebu yn annilys, mae'n rhaid i chi nodi hynny ar y ffurflen enwebu, ynghyd â'r rhesymau dros eich penderfyniad, a'i llofnodi. ⁶²

Ymgeiswyr rhanbarthol unigol

2.131 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, pan fyddwch wedi penderfynu bod ffurflen enwebu yn ddilys, mae'r penderfyniad hwnnw'n derfynol ac ni ellir ei gwestiynu mewn unrhyw weithrediadau (er y gellir ei herio ar ôl yr etholiad ar ffurf deiseb etholiadol).⁶³

2.132 Os byddwch yn penderfynu bod y ffurflen enwebu yn annilys, mae'n rhaid i chi nodi hynny ar y ffurflen enwebu, ynghyd â'r rhesymau dros eich penderfyniad, a'i llofnodi.⁶⁴

Ffurflenni enwebu pleidiau

2.133 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, pan fyddwch wedi penderfynu bod ffurflen enwebu plaid yn ddilys neu wedi penderfynu na ddylai enw a chyfeiriad ymgeisydd gael eu tynnu oddi ar restr plaid, mae'r penderfyniad hwnnw'n derfynol ac ni ellir ei gwestiynu mewn unrhyw weithrediadau (er y gellir ei herio ar ôl yr etholiad ar ffurf deiseb etholiadol).⁶⁵

2.134 Os byddwch yn penderfynu bod enwebiad rhanbarthol plaid yn annilys neu'n penderfynu y dylid dileu enw a chyfeiriad unrhyw ymgeisydd o restr y blaid, rhaid i chi nodi'r ffaith honno ar enwebiad y blaid neu'r rhestr ranbarthol (fel sy'n briodol), ysgrifennu'r rhesymau dros wneud hynny a llofnodi'r ddogfen.⁶⁶

Cywiro mân wallau

2.135 Mae hawl gennych, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, i gywiro mân wallau ar ffurflenni enwebu a rhestrau plaid rhanbarthol unrhyw adeg cyn i chi gyhoeddi'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd neu'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd (fel sy'n briodol). Mae hyn yn cynnwys gwallau sillafu amlwg ym manylion ymgeisydd. Dylech geisio cysylltu â'r ymgeisydd, yr asiant neu'r Swyddog Enwebu (fel sy'n briodol) cyn diwygio unrhyw fân wallau.⁶⁷

2.136 Rhaid i chi ystyried canllawiau'r Comisiwn ar gywiro mân wallau.⁶⁸

Gwallau sillafu ym manylion ymgeiswyr

2.137 Gall fod yn anoddach delio â gwallau sillafu 'amlwg', oherwydd efallai na fydd rhywbeth sy'n amlwg i un person yn amlwg i rywun arall. Dylid bod yn ofalus wrth arfer y pŵer hwn.

Gwallau mewn cyfeiriad cartref

2.138 Pan na fydd cyfeiriad cartref yn hollol gywir efallai na fydd angen ei gywiro. Yn ôl y gyfraith, nid yw gwallau mewn cyfeiriad cartref yn effeithio ar weithrediad llawn ffurflen enwebu, cyhyd ag y gellir deall y cyfeiriad yn gyffredin.

Gwrthwynebiadau i ffurflenni enwebu

2.139 Gall rhai pobl wrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu etholaethol, ffurflen enwebu ymgeisydd rhanbarthol unigol neu ffurflen enwebu plaid (gweler paragraffau **2.142** i **2.149**).⁶⁹

2.140 Dim ond ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno ffurflenni enwebu (h.y. 7 Ebrill 2016)⁷⁰ y gellir gwneud gwrthwynebiadau.

Amserlen ar gyfer gwrthwynebiadau

2.141 Bydd y cyfnod a ganiateir i wrthwynebu yn dibynnu ar pryd y cyflwynwyd y ffurflen enwebu:

Enwebiadau a gyflwynir hyd at ac yn cynnwys 4pm ar 6 Ebrill 2016

2.142 Rhaid gwrthwynebu unrhyw ffurflen enwebu a gyflwynir hyd at ac yn cynnwys 4pm ar 6 Ebrill 2016 **rhwng 10am a chanol dydd ar 7 Ebrill 2016**⁷¹.

Enwebiadau a gyflwynir ar ôl 4pm ar 6 Ebrill 2016

2.143 Rhaid gwrthwynebu unrhyw ffurflen enwebu a gyflwynir ar ôl 4pm ar 6 Ebrill 2016 **rhwng 10am a 5pm ar 7 Ebrill 2016**⁷². Rhaid gwrthwynebu ar adeg cyflwyno'r enwebiad neu'n syth wedyn.

Gwrthwynebu ar sail y ffaith bod ymgeisydd yn y carchar am flwyddyn neu fwy

2.144 Lle bo'r gwrthwynebiad yn cael ei wneud am fod ymgeisydd wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy, gellir cyflwyno gwrthwynebiadau rhwng 10am a 4pm ar y deunawfed diwrnod gwaith cyn yr etholiad (**h.y. rhwng 10am a 4pm ar 8 Ebrill 2016**).⁷³

2.145 Os ymddengys i chi, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, y gall fod ymgeisydd (sydd i'w ethol fel aelod etholaethol neu aelod rhanbarthol) wedi'i anghymhwyso rhag sefyll am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r enwebiadau gau, rhaid i chi gyhoeddi **drafft** o'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd neu'r datganiad rhanbarthol ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd (fel sy'n briodol)⁷⁴.

2.146 Mae'r teitl a roddir i unrhyw ddatganiad drafft wedi'i ragnodi yn y rheolau. Yn ogystal, rhaid i'r datganiad drafft gynnwys hysbysiad sy'n nodi y caiff unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu enwebiad ymgeisydd ar y sail ei fod wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy, wneud hynny rhwng 10am a 4pm ar 8 Ebrill 2016 yn y man a nodir gennych yn yr hysbysiad⁷⁵.

Penderfyniadau ynglŷn â gwrthwynebiadau

2.147 Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylech ystyried unrhyw wrthwynebiad sy'n dod i law yn ystod y cyfnod a ganiateir ar gyfer gwrthwynebu. Ni ddylech gynnal unrhyw ymchwiliad na chlywed unrhyw sylwadau sy'n cefnogi neu'n herio unrhyw ffaith neu ddatganiad a roddir ar y ffurflen enwebu neu'r rhestr plaid. Cewch ond ddatgan bod ffurflen enwebu neu restr plaid yn annilys ar y seiliau cyfyngedig a nodir ym mharagraff **2.139** a pharagraff **2.149** uchod.

2.148 Rhaid i chi, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, benderfynu ar unrhyw wrthwynebiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei wneud ac, ym mhob achos, rhaid i chi wneud hynny o fewn 24 awr i'r enwebiadau gau (h.y. cyn 4pm ar 8 Ebrill 2016).⁷⁶

2.149 Dylech gyfyngu'r broses wrthwynebu i'r ffurflenni enwebu a'r ymgeiswyr ar y rhestr plaid. Pan fyddwch, o ganlyniad i wrthwynebiad, yn penderfynu y dylai ffurflen enwebu neu restr plaid ranbarthol rydych eisoes wedi penderfynu arnynt fod wedi'u pennu'n annilys, rhaid i chi ddangos ar y datganiad etholaethol ynghylch y personau a enwebwyd neu'r datganiad rhanbarthol ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd (fel sy'n briodol) unrhyw ymgeisydd neu blaid nad ydynt wedi'u henwebu'n ddilys mwyach ynghyd â'r rheswm dros hynny, a dylech hysbysu'r ymgeisydd a/neu'r blaid fel sy'n briodol⁷⁷.

Tynnu enwau yn ôl

2.150 Mae'n bosibl i ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys (boed yn ymgeisydd etholaethol, ymgeisydd rhanbarthol unigol neu'n ymgeisydd ar restr plaid) dynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl. Mae hefyd yn bosibl i'r blaid gofrestredig dynnu ymgeisyddiaeth rhai o'r ymgeiswyr neu'r holl ymgeiswyr ar restr plaid ranbarthol yn ôl.

Ymgeiswyr

2.151 Rhaid i ymgeisydd sy'n dymuno tynnu ei enw yn ôl (boed yn ymgeisydd etholaethol, ymgeisydd rhanbarthol unigol neu'n ymgeisydd ar restr plaid) gyflwyno hysbysiad wedi'i lofnodi i chi, fel y Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, a dystiwyd gan un tyst, erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 7 Ebrill 2016).⁷⁸

2.152 Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyflwyno â llaw i'r man cyflwyno papurau enwebu. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r hysbysiad tynnu enw yn ôl.

2.153 Ni ragnodir yr hysbysiad tynnu enw yn ôl mewn deddfwriaeth. Rydym wedi llunio templedi o hysbysiadau tynnu enwau yn ôl ar gyfer [ymgeisydd](#)

[etholaethol](#), [ymgeisydd rhanbarthol unigol](#) ac [ymgeisydd ar restr plaid](#) y gallech eu rhoi i unrhyw ymgeisydd sy'n gofyn am un.

2.154 Pan nad yw'r ymgeisydd yn y DU, mae hysbysiad tynnu enw yn ôl wedi'i lofnodi gan unigolyn ac a gaiff ei gyflwyno ar y cyd â:

- datganiad ysgrifenedig sydd hefyd wedi'i lofnodi gan yr unigolyn hwnnw i gadarnhau bod yr ymgeisydd yn absennol o'r DU, a
- datganiad ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan yr ymgeisydd bod yr unigolyn sy'n rhoi'r hysbysiad wedi'i awdurdodi i wneud hynny, yn gyfystyr â hysbysiad tynnu enw yn ôl wedi'i lofnodi gan yr ymgeisydd.

2.155 Yn achos ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol, rhaid i fanylion unrhyw ymgeiswyr sy'n parhau i fod wedi'u henwebu'n ddilys erbyn diwedd y cyfnod ar gyfer tynnu enwau yn ôl gael eu hargraffu ar y papurau pleidleisio⁷⁹. Os nad yw ymgeisydd wedi tynnu ei enw yn ôl erbyn y terfyn amser, bydd yn rhaid i'w enw gael ei gynnwys ar y papur pleidleisio⁸⁰.

2.156 Yn achos ymgeiswyr ar restr plaid, rhaid i fanylion unrhyw ymgeiswyr sy'n parhau i fod wedi'u henwebu'n ddilys erbyn diwedd y cyfnod ar gyfer tynnu enwau yn ôl gael eu hargraffu ar y datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd⁸¹. Rhaid dileu enw a chyfeiriad yr ymgeisydd o'r rhestr plaid os bydd yn tynnu ei enw yn ôl cyn y terfyn amser⁸².

Rhestr plaid

2.157 Mae hefyd yn bosibl i'r blaid gofrestredig dynnu ymgeisyddiaeth rhai o'r ymgeiswyr neu'r holl ymgeiswyr ar restr ranbarthol yn ôl. Pan fydd plaid gofrestredig yn dymuno tynnu ymgeisyddiaeth ymgeisydd neu ymgeiswyr ar y rhestr ranbarthol yn ôl, rhaid i Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu, ar yr amod bod y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi cael copi o'r penodiad ysgrifenedig hwnnw) gyflwyno hysbysiad tynnu enw yn ôl i chi, os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 7 Ebrill 2016)⁸³.

2.158 Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyflwyno â llaw i'r man cyflwyno papurau enwebu. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r hysbysiad tynnu enw yn ôl.

2.159 Ni ragnodir yr hysbysiad tynnu enw yn ôl mewn deddfwriaeth. Rydym wedi llunio [templed o hysbysiad tynnu enw yn ôl](#) y gallech ei roi i unrhyw blaid sy'n gofyn am un.

2.160 Rhaid i fanylion unrhyw ymgeiswyr sy'n parhau i fod wedi'u henwebu'n ddilys erbyn diwedd y cyfnod ar gyfer tynnu enwau yn ôl gael eu hargraffu ar y datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd⁸⁴. Os cewch hysbysiad tynnu enw yn ôl, rhaid i chi ddileu enw a chyfeiriad yr ymgeisydd neu'r ymgeiswyr o'r rhestr plaid⁸⁵.

Ar ôl i'r enwebiadau gau

2.161 Ar ôl i'r enwebiadau gau, rhaid i chi, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, gyhoeddi (fel sy'n briodol)⁸⁶:

- yn achos etholiad etholaethol, datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a hysbysiad etholiad
- yn achos yr etholiad rhanbarthol, datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd a hysbysiad etholiad.

2.162 Am fanylion yr hyn y dylai'r hysbysiaid hyn ei gynnwys, gweler Pennod 4.

Enwebiad mewn mwy nag un etholiad

2.163 Ni chaiff ymgeisydd sefyll etholiad mewn mwy nag un etholaeth neu fwy nag un rhanbarth. Fodd bynnag, caiff ymgeisydd sefyll etholiad mewn etholaeth a rhanbarth, ar yr amod bod yr etholaeth o fewn y rhanbarth a'i fod naill ai'n sefyll ar ran yr un blaid wleidyddol gofrestredig yn y ddau etholiad neu nad yw'n sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig yn y ddau etholiad. Os caiff ymgeisydd ei ethol yn yr etholiad etholaethol, caiff ei enw ei anwybyddu wrth ddyrannu seddau rhanbarthol.

Dychwelyd ernes

Ymgeiswyr etholaethol

2.164 Rhaid i chi ddychwelyd ernes unrhyw ymgeisydd na ddangosir fod ganddo enwebiad yn y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd⁸⁷. Rhaid i'r ernes gael ei dychwelyd i'r person a'i cyflwynodd neu'i gynrychiolwyr personol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd gael ei gyhoeddi neu ar ôl marwolaeth yr ymgeisydd (fel sy'n briodol).⁸⁸

Ymgeiswyr rhanbarthol unigol

2.165 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, rhaid i chi ddychwelyd ernes unrhyw ymgeisydd rhanbarthol unigol na ddangosir fod ganddo enwebiad yn y datganiad ynghylch pleidiau a phersonau a enwebwyd⁸⁹. Rhaid i'r ernes gael ei dychwelyd i'r person a'i cyflwynodd neu'i gynrychiolwyr personol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau a enwebwyd gael ei gyhoeddi⁹⁰.

Enwebiadau plaid

2.166 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, rhaid i chi ddychwelyd ernes unrhyw blaid na ddangosir bod ganddi enwebiad yn y datganiad ynghylch pleidiau a phersonau a enwebwyd⁹¹. Rhaid dychwelyd yr ernes i'r Swyddog Enwebu (neu'r person a awdurdodwyd yn ysgrifenedig i weithredu ar ei ran) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau a enwebwyd gael ei gyhoeddi⁹².



Am ganllawiau ar ddychwelyd ernesau ar ôl etholiad, gweler [Rhan F - Ar ôl datgan y canlyniadau](#).

Etholiad diwrthwynebiad

Etholiad etholaethol

2.167 Os mai dim ond un enwebiad dilys sy'n dod i law, neu fod pob enwebiad dilys namyn un wedi'i dynnu'n ôl yn gywir erbyn y dyddiad cau, ystyrir bod yr etholiad yn ddiwrthwynebiad. Os bydd yr etholiad yn ddiwrthwynebiad, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, rhaid i chi gyhoeddi'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd. Rhaid iddo gynnwys datganiad yn nodi'r un ymgeisydd etholedig a enwebwyd yn ddilys.⁹³

2.168 Rhaid i chi (os nad chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd) hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol pwy sydd wedi'i ethol a pha blaid y mae'n sefyll drosti (os o gwbl). Rhaid i chi hefyd lenwi tystysgrif ragnodedig a'i chyflwyno i Glerc y Cynulliad.⁹⁴

Etholiad rhanbarthol

2.169 Pan fo nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad rhanbarthol (boed ar restr ranbarthol plaid gofrestredig neu fel ymgeiswyr rhanbarthol unigol) yn cyfateb i nifer y seddau ar gyfer rhanbarth etholaethol y Cynulliad neu'n llai na hynny, neu pan fo'r holl ymgeiswyr a ddangosir ar y datganiad ynghylch pleidiau a phersonau a enwebwyd wedi'u cynnwys ar restr ranbarthol yr un blaid wleidyddol gofrestredig, nid oes angen cynnal etholiad ar gyfer y rhanbarth. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol (ar ôl iddo gael datganiad o ganlyniad yr aelodau etholaethol) ddyrannu'r seddau rhanbarthol yn unol â'r rheolau.⁹⁵

2.170 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gyhoeddi'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd. Rhaid iddo gynnwys datganiad yn nodi'r ymgeiswyr unigol a'r ymgeiswyr rhestr plaid a etholwyd. Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd lenwi tystysgrif ragnodedig a'i chyflwyno i Glerc y Cynulliad⁹⁶.

Marwolaeth ymgeisydd

2.171 Mae'n bosibl y gallai ymgeisydd farw yn ystod ymgyrch etholiadol y Cynulliad. Mae'r weithdrefn a ddilynnir yn dibynnu ar pryd y cewch chi (ac os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd) brawf rydych yn fodlon arno o farwolaeth yr ymgeisydd. Yr adeg y cewch eich hysbysu am brawf o'r farwolaeth sy'n bwysig, nid union amser y farwolaeth.

2.172 Mae effaith marwolaeth ymgeisydd yn dibynnu ar p'un a oedd yr ymgeisydd yn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig a ph'un a oedd yn ymgeisydd ar gyfer etholiad etholaethol neu etholiad rhanbarthol.

Marwolaeth ymgeisydd etholaethol annibynnol

2.173 Os bydd ymgeisydd etholaethol annibynnol (h.y. ymgeisydd sy'n defnyddio'r disgrifiad 'Annibynnol' neu 'Independent' neu'r ddau neu ddim un ohonynt) yn marw, bydd yr etholiad yn parhau yn ôl y drefn.⁹⁷

2.174 Os nad yr ymgeisydd annibynnol a fu farw a gafodd y nifer fwyaf o bleidleisiau yn y bleidlais wreiddiol, yr ymgeisydd a gafodd y nifer fwyaf a gaiff ei ethol, ac nid effeithir ar yr etholiad.

2.175 Os bydd yr ymgeisydd a fu farw yn cael y nifer fwyaf o bleidleisiau, ni chaiff ei ethol a chaiff yr etholiad ei ailgynnal. Rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus o gyfanswm pleidleisiau pob ymgeisydd⁹⁸. Rhaid i chi hefyd gyhoeddi hysbysiad etholiad newydd ar y seithfed diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod pleidleisio gwreiddiol⁹⁹. Ni fydd angen unrhyw enwebiadau newydd: bydd yr holl ymgeiswyr gwreiddiol wedi'u henwebu o hyd ar gyfer yr etholiad newydd a chanlyniad yr etholiad hwnnw fydd yn pennu p'un a gaiff yr ernes ei cholli neu'i had-dalu. Ni chaniateir unrhyw enwebiadau newydd ar gyfer etholiad a gaiff ei ailgynnal, ond caiff ymgeiswyr dynnu eu henw yn ôl. Rhaid cyhoeddi'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd cyn gynted â phosibl ar ôl y terfyn amser ar gyfer tynnu enwau yn ôl.¹⁰⁰

2.176 Os daeth yr ymgeisydd a fu farw yn gydradd gyntaf gyda'r un nifer o bleidleisiau ag unrhyw ymgeisydd arall, caiff yr ymgeisydd arall ei ethol.¹⁰¹

2.177 Fodd bynnag, os daw prawf o farwolaeth i law cyn datgan y canlyniad, ac os mai dim ond dau unigolyn a ddangosir ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, rhaid dirymu'r hysbysiad etholiad os nad yw'r bleidlais wedi dechrau neu roi'r gorau i'r bleidlais os yw wedi dechrau¹⁰². Rhaid trin yr etholiad fel etholiad diwrthwynebiad.¹⁰³

2.178 Ym mhob achos, rhaid dychwelyd ernes yr ymgeisydd a fu farw¹⁰⁴.

Marwolaeth ymgeisydd etholaethol sy'n sefyll dros blaid

2.179 Os cewch brawf a'ch bod yn fodlon bod ymgeisydd sy'n sefyll mewn etholaeth ar ran plaid neu bleidiau gwleidyddol cofrestredig wedi marw cyn datgan y canlyniad, rhaid rhoi'r gorau i'r etholiad¹⁰⁵. Os nad yw'r bleidlais wedi dechrau eto, dylid dirymu'r hysbysiad etholiad¹⁰⁶. Os bydd y bleidlais wedi dechrau neu os bydd y cyfrif yn mynd rhagddo, dylid rhoi'r gorau i'r bleidlais¹⁰⁷. Bydd angen ailgynnal yr etholiad.¹⁰⁸

2.180 Rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad etholiad newydd ar y seithfed diwrnod gwaith ar ôl i chi gael prawf o'r farwolaeth¹⁰⁹.

2.181 Bydd ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys ar gyfer yr etholiad cyntaf, heblaw am yr ymgeisydd a fu farw, wedi'u henwebu'n ddilys o hyd oni bai eu bod yn tynnu eu henw yn ôl erbyn y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny. Caiff

unrhyw ymgeisydd dynnu ei enw yn ôl pan gaiff etholiad ei ailgynnal, erbyn y terfyn amser ar gyfer tynnu enwau yn ôl.

2.182 Ni chaniateir unrhyw enwebiadau newydd ar gyfer yr etholiad newydd ond gall plaid yr ymgeisydd a fu farw enwebu ymgeisydd yn ei le¹¹⁰. Rhaid i'r ymgeisydd newydd gyflwyno set o bapurau enwebu, a rhaid i'r plaid gyflwyno tystysgrif awdurdodi newydd yn caniatáu i'r ymgeisydd sefyll ar ei rhan.

2.183 Rhaid i unrhyw blaid sydd am gyflwyno ymgeisydd yn lle ymgeisydd a fu farw wneud hynny erbyn diwedd y cyfnod enwebu, sef y seithfed diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad newydd¹¹¹.

Effaith marwolaeth ymgeisydd etholaethol sy'n sefyll ar ran plaid ar yr etholiad rhanbarthol

2.184 Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, rhaid i chi hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar unwaith os caiff etholiad etholaethol ei ddirymu neu os rhoddir y gorau i etholiad etholaethol o ganlyniad i farwolaeth ymgeisydd plaid, neu os yw ymgeisydd etholaethol annibynnol a fu farw wedi cael y nifer fwyaf o bleidleisiau.

2.185 Ar ôl i Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gael y fath hysbysiad, bydd yn mynd ati i ddyrannu aelodau rhanbarthol yn ôl y drefn ond ni fydd yn cynnwys canlyniad yr etholaeth dan sylw yn y cyfrifiad. Fodd bynnag, caiff pleidleisiau rhanbarthol yr etholaeth honno eu cynnwys yn y ffigur rhanbarthol ar gyfer pob plaid a phob ymgeisydd rhanbarthol unigol.¹¹²

2.186 Ni fydd yr etholiad etholaethol a ailgynhelir yn effeithio ar y broses o ddyrannu seddau rhanbarthol ac ni fydd yn effeithio ar ddilysrwydd yr aelodau rhanbarthol a etholwyd i'r Cynulliad.

Etholiad etholaethol newydd

2.187 Rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad etholiad newydd ar y diwrnod a ddisgrifir uchod yn dibynnu p'un ai ymgeisydd annibynnol neu ymgeisydd plaid a fu farw. Rhaid i'r diwrnod pleidleisio newydd fod rhwng 15 a 19 o ddiwrnodau gwaith ar ôl i'r hysbysiad etholiad newydd gael ei gyhoeddi.¹¹³

2.188 Bydd yr amserlen yn dilyn y drefn arferol wedyn, heblaw am y ffaith mai'r terfyn amser ar gyfer tynnu enwau yn ôl ac enwebu ymgeisydd newydd yn lle'r ymgeisydd plaid a fu farw fydd 4pm ar y seithfed diwrnod gwaith ar ôl i'r hysbysiad etholiad newydd gael ei gyhoeddi¹¹⁴.

Marwolaeth ymgeisydd rhanbarthol

2.189 Os bydd ymgeisydd ar restr plaid ranbarthol neu unrhyw ymgeisydd rhanbarthol unigol yn marw ond bod ymgeiswyr ar gael i ymladd yr etholiad rhanbarthol o hyd, bydd yr etholiad yn parhau yn ôl y drefn. Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gymryd camau rhesymol i gyhoeddi enw'r ymgeisydd, y ffaith ei fod wedi marw, p'un a oedd yn ymgeisydd rhanbarthol

unigol neu'n ymgeisydd rhestr plaid ac, os oedd yn sefyll ar ran plaid gofrestredig, enw'r plaid.¹¹⁵

2.190 Dylai'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gyhoeddi'r farwolaeth drwy arddangos hysbysiadau y tu allan i orsafoedd pleidleisio yn y rhanbarth etholiadol.

2.191 Os bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cael prawf a'i fod yn fodlon cyn cyhoeddi'r canlyniad fod ymgeisydd ar restr ranbarthol neu ymgeisydd rhanbarthol unigol wedi marw a bod yr etholiad rhanbarthol yn ddiwrthwynebiad o ganlyniad i hynny, rhaid rhoi'r gorau i'r etholiad rhanbarthol¹¹⁶. Os bydd hyn yn digwydd cyn i'r bleidlais agor, rhaid i chi ddirymu'r hysbysiad etholiad¹¹⁷. Os bydd y bleidlais wedi agor neu os bydd y cyfrif yn mynd rhagddo, rhaid rhoi'r gorau i'r bleidlais neu'r cyfrif¹¹⁸. Yn y naill achos neu'r llall, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hysbysu pob Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn y rhanbarth ar unwaith am y camau y mae wedi'u cymryd. Ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio etholaethol, bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn datgan y caiff yr ymgeiswyr sy'n weddill eu hethol yn ddiwrthwynebiad fel aelodau rhanbarthol.

Marwolaeth ymgeisydd yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd¹¹⁹

2.192 Os bydd ymgeisydd yn marw yn ystod cyfnod yr etholiad, mae'r weithdrefn y dylid ei dilyn mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn dibynnu pryd y caiff Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu brawf o farwolaeth yr ymgeisydd. Yr adeg y caiff y Swyddog brawf o farwolaeth yr ymgeisydd yw'r ffactor perthnasol, nid union amser y farwolaeth.

Prawf o farwolaeth a geir cyn i'r bleidlais agor

2.193 Os ceir prawf o farwolaeth ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys mewn etholiad a ymleddir cyn i'r bleidlais agor, caiff yr hysbysiad etholiad ei ddirymu ac ni chynhelir y bleidlais. Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu gynnal etholiad newydd¹²⁰.

Prawf o farwolaeth a geir ar ôl i'r bleidlais agor a chyn i'r canlyniad gael ei ddatgan

2.194 Os ceir prawf o farwolaeth ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys mewn etholiad a ymleddir ar ôl agor y bleidlais ond cyn datgan y canlyniad, rhoddir y gorau i'r bleidlais a rhaid cynnal etholiad newydd¹²¹. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, oherwydd bydd y bleidlais wedi dechrau, rhaid i'r ddogfennaeth (h.y. papurau pleidleisio a gyflwynwyd a phapurau nas cyflwynwyd ac ati) gael ei dychwelyd i chi a'i selio yn y ffordd arferol¹²².

2.195 Rhaid selio unrhyw bleidleisiau post a ddychwelir mewn pecynnau ac mae'n rhaid selio unrhyw amlenni nas agorwyd ar adeg yr hysbysiad o'r farwolaeth mewn pecynnau heb eu hagar¹²³.

Etholiad newydd

2.196 Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn pennu dyddiad yr etholiad newydd.

3 Asiantiaid yn yr etholiadau

Asiantiaid yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr asiant etholiad

3.1 Rhaid i bob ymgeisydd etholaethol gael asiant etholiad, a rhaid i chi gael hysbysiad o'i benodiad cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno hysbysiadau tynnu enwau yn ôl, sef 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 7 Ebrill 2016).¹²⁴

3.2 Rhaid i bob ymgeisydd rhanbarthol unigol a phlaid gofrestredig sy'n cyflwyno rhestr plaid ranbarthol gael asiant etholiad hefyd, a rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gael hysbysiad o'i benodiad cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno hysbysiadau tynnu enwau yn ôl, sef 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 7 Ebrill 2016)¹²⁵.

3.3 Rydym wedi llunio ffurflenni ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiant etholiad. Mae'r rhain wedi'u cynnwys fel rhan o'r set o bapurau enwebu rydym wedi'i llunio ar gyfer yr [etholiad etholaethol](#), [pleidiau gwleidyddol sy'n sefyll yn yr etholiad rhanbarthol](#), ac [ymgeiswyr yn yr etholiad rhanbarthol nad ydynt yn sefyll ar ran plaid wleidyddol](#).

3.4 Gall ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol benodi eu hunain i weithredu fel asiantiaid etholiad. Gall ymgeisydd ar restr plaid gael ei benodi'n asiant etholiad ar gyfer rhestr y blaid honno.

3.5 Os na chaiff asiant ei benodi erbyn yr amser uchod, yn achos ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol, tybir y bydd yr ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant etholiad ei hun. Yn achos plaid gofrestredig sy'n cyflwyno rhestr ranbarthol, tybir mai'r ymgeisydd sydd ar frig rhestr y blaid yw'r asiant etholiad ar gyfer rhestr y blaid honno.¹²⁶

3.6 Tybir y bydd ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol yn gweithredu fel eu hasiantiaid eu hunain os byddant yn dirymu penodiad eu hasiant, neu os bydd eu hasiant yn marw, ac na chaiff asiant newydd ei benodi ar ddiwrnod y farwolaeth neu'r diwrnod canlynol. Yn achos plaid gofrestredig sy'n cyflwyno rhestr plaid ranbarthol, tybir mai'r ymgeisydd sydd ar frig rhestr y blaid fydd asiant etholiad y rhestr honno os caiff yr asiant ei ddirymu neu os bydd yr asiant yn marw, ac na chaiff asiant newydd ei benodi ar ddiwrnod y farwolaeth neu'r diwrnod canlynol.

3.7 Os bydd ymgeisydd etholaethol neu ymgeisydd rhanbarthol unigol yn gweithredu fel ei asiant etholiad ei hun, p'un a ddaeth yn asiant am na wnaeth benodi un neu am ei fod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i chi o'i benodiad ei hun, gall hefyd ddirymu ei benodiad ei hun a phenodi asiant newydd. Rhaid i ymgeiswyr etholaethol eich hysbysu yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau o'r fath, a rhaid i ymgeiswyr rhanbarthol unigol hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau o'r fath¹²⁷.

3.8 Yn yr un modd, yn achos plaid gofrestredig sy'n cyflwyno rhestr plaid, os mai'r ymgeisydd sydd ar frig rhestr y blaid yw asiant etholiad y rhestr plaid honno, gall yr asiant hwnnw hefyd ddirymu ei benodiad ei hun a phenodi asiant newydd. Gall wneud hyn p'un a ddaeth yn asiant am nad oedd y blaid wedi penodi un neu am ei fod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i benodiad ei hun. Rhaid iddo hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau o'r fath.

3.9 Rhaid i'r asiant etholiad gael swyddfa, a rhaid i unrhyw hysbysiad o benodiad asiant etholiad nodi cyfeiriad y swyddfa y gellir anfon pob cais, hysbysiad, proses gyfreithiol a dogfen arall iddi.¹²⁸ Rhaid i gyfeiriad y swyddfa fod yn gyfeiriad y gellir anfon unrhyw hysbysiadau cyfreithiol iddo, ac felly rhaid iddo fod yn gyfeiriad ffisegol – ni ellir defnyddio blychau Swyddfa'r Post nac unrhyw flychau post tebyg.

3.10 Rhaid i leoliad y swyddfa ar gyfer yr etholiad etholaethol fod¹²⁹:

- yn yr etholaeth Cynulliad y cynhelir yr etholiad ar ei chyfer neu mewn etholaeth Cynulliad gydffiniol, neu
- mewn sir neu fwrdeistref sirol sy'n rhannol o fewn yr etholaeth Cynulliad y cynhelir yr etholiad ar ei chyfer neu sy'n ffinio â'r etholaeth honno

3.11 Rhaid i leoliad y swyddfa ar gyfer yr etholiad rhanbarthol fod yng Nghymru¹³⁰.

3.12 Yn aml, cyfeiriad cartref yr asiant etholiad fydd cyfeiriad ei swyddfa, ond gallai hefyd fod yn gyfeiriad swyddfa leol y blaid wleidyddol neu swyddfa a sefydlwyd yn arbennig ar gyfer yr etholiad.

3.13 Pan fydd ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant etholiad ei hun am nad yw wedi penodi rhywun arall, neu pan dybir mai'r ymgeisydd cyntaf ar restr plaid yw asiant etholiad y rhestr honno am nad oes neb arall wedi'i benodi, tybir mai cyfeiriad y swyddfa yw'r cyfeiriad a roddwyd ar gydsyniad yr ymgeisydd i'r enwebiad.

3.14 Os nad yw'r cyfeiriad yn yr ardal gymwys berthnasol a nodir uchod, dylech gysylltu â'r ymgeisydd gan ofyn iddo roi cyfeiriad arall yn yr ardal gymwys berthnasol.

3.15 Pan gewch eich hysbysu o enw a chyfeiriad asiant etholiad ymgeisydd etholaethol, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad yn nodi'r manylion hynny ac enw'r ymgeisydd cyn gynted â phosibl¹³¹. Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, pan gewch eich hysbysu o enw a chyfeiriad asiant

etholiad ar gyfer yr etholiad rhanbarthol, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad yn nodi'r manylion hynny ac enw'r ymgeisydd rhanbarthol unigol neu'r blaid (fel sy'n briodol) cyn gynted â phosibl¹³². Ym mhob achos, rhaid i'r hysbysiad gael ei ddiweddarau os caiff penodiad asiant ei ddirymu, neu os bydd asiant yn marw, a rhaid nodi manylion yr asiant newydd ar y fersiwn ddiwygiedig.

3.16 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, rhaid i chi roi hysbysiad i'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn eich rhanbarth sy'n nodi manylion yr asiantiaid etholiad cyn gynted â phosibl. Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, dylech gyhoeddi unrhyw hysbysiad o'r fath yn eich etholaeth.

Is-asiantiaid

3.17 Gall asiantiaid etholiad benodi is-asiantiaid i weithredu ar eu rhan.

3.18 Gall asiantiaid etholiad benodi is-asiantiaid ar gyfer rhannau penodol o'r etholaeth neu'r rhanbarth (fel sy'n briodol), ar yr amod nad yw'r rhannau hynny yn gorgyffwrdd. Gall yr asiant benderfynu sut i rannu'r etholaeth neu'r rhanbarth (fel sy'n briodol), a gall yr is-rannau hyn groesi ffiniau ardaloedd etholiadol.¹³³

3.19 Rhaid i gyfeiriad swyddfa'r is-asiant fod yn yr ardal y mae wedi'i benodi i weithredu ynddi.¹³⁴

3.20 Caiff is-asiant wneud unrhyw beth y caiff yr asiant etholiad ei wneud yn yr ardal lle y'i penodwyd. Fodd bynnag, caiff is-asiantiaid fod yn bresennol yn ystod y broses ddilysu, cyfrif a/neu gyfrifo'r canlyniad rhanbarthol ond dim ond yn yr ardal y'u penodwyd i weithredu ynddi ac ar yr amod eu bod yn gweithredu yn lle'r asiant etholiad. Caiff is-asiantiaid fod yn bresennol pan gaiff pleidleisiau post eu hagor, ar yr amod bod hynny'n digwydd yn yr ardal y'u penodwyd i weithredu ynddi.

3.21 Rhaid i'r asiant etholiad roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol (fel sy'n briodol) o enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa pob is-asiant a benodwyd ganddo a'r ardal lle y caiff weithredu erbyn y pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. erbyn 27 Ebrill 2016)¹³⁵. Dylech gynnwys ffurflenni hysbysu ynghylch penodi is-asiantiaid yn eich pecynnau enwebu. Rydym wedi llunio ffurflenni ar gyfer is-asiantiaid fel rhan o'r set o bapurau enwebu a luniwyd ar gyfer yr [etholiad etholaethol](#), [pleidiau gwleidyddol sy'n sefyll yn yr etholiad rhanbarthol](#), ac [ymgeiswyr yn yr etholiad rhanbarthol nad ydynt yn sefyll ar ran plaid wleidyddol](#).

3.22 Caiff yr asiant etholiad ddirymu penodiad is-asiant ar unrhyw adeg. Os bydd is-asiant yn marw neu os caiff ei benodiad ei ddirymu, gall yr asiant etholiad benodi is-asiant newydd drwy roi datganiad ysgrifenedig sy'n nodi enw, cyfeiriad, cyfeiriad swyddfa ac ardal penodi'r is-asiant newydd i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol (fel sy'n briodol).

3.23 Pan fydd enw, cyfeiriad, cyfeiriad swyddfa ac ardal penodi is-asiant wedi'u datgan, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol (fel sy'n briodol) gyhoeddi hysbysiad o'r manylion hyn¹³⁶. Yn achos yr etholiad rhanbarthol, os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, rhaid i chi roi hysbysiad i'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn eich rhanbarth sy'n nodi manylion yr is-asiantiaid cyn gynted â phosibl. Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, dylech gyhoeddi unrhyw hysbysiad o'r fath yn lleol.

Asiantiaid eraill

3.24 Gall ymgeiswyr etholaethol, ymgeiswyr rhanbarthol unigol ac asiant etholiad pob plaid gofrestredig sydd wedi'i henwebu ar gyfer etholiad rhanbarthol y Cynulliad benodi asiantiaid i arsylwi'r broses o agor pleidleisiau post, y bleidlais a'r broses ddilysu a chyfrif.

3.25 Chi sy'n gyfrifol am dderbyn yr hysbysiadau o benodiad ar gyfer yr asiantiaid hyn.



I gael rhagor o fanylion am rôl yr asiantiaid hyn, gweler [Rhan 5: Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol](#) yn ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.26 Rhaid i chi sicrhau y caiff pob asiant penodedig gopi o'r gofynion perthnasol ynglŷn â chyfrinachedd ar gyfer agor [pleidleisiau post](#), [y bleidlais](#) a'r [cyfrif](#), sydd ar gael ar ein gwefan¹³⁷.

Agor pleidleisiau post

3.27 Yn ôl y gyfraith, caniateir i asiantiaid pleidleisio drwy'r post arsylwi ar y broses o agor blwch pleidleisio pleidleiswyr post, agor pleidleisiau post a ddychwelwyd a chadarnhau llofnodion a dyddiadau geni a nodwyd ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd. Rhaid i chi gael hysbysiad ysgrifenedig o enw a chyfeiriad unrhyw asiantiaid pleidleisio drwy'r post cyn dechrau unrhyw sesiwn benodol y mae'r asiantiaid yn dymuno bod yn bresennol ynddi¹³⁸. Mae'r Comisiwn wedi datblygu [ffurflen ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiant pleidleisio drwy'r post](#) i'w defnyddio yn etholiadau'r Cynulliad.

3.28 Rhaid i chi roi o leiaf 48 awr o rybudd o amser a lleoliad unrhyw sesiwn agor pleidleisiau post a nifer yr asiantiaid y gellir eu penodi i fod yn bresennol ym mhob sesiwn agor¹³⁹. Rhaid rhoi'r rhybudd hwn i ymgeiswyr etholaethol, ymgeiswyr rhanbarthol unigol ac asiant etholiad pob plaid gofrestredig sydd wedi'i henwebu ar gyfer etholiad rhanbarthol y Cynulliad.

Y bleidlais

3.29 Yn ôl y gyfraith, mae gan asiantiaid pleidleisio yr hawl i gael mynediad i orsafoedd pleidleisio er mwyn canfod achosion o gambersonadu. Gallant hefyd arsylwi ar y gweithdrefnau i'w dilyn y tu mewn i orsaf pleidleisio.

3.30 Rhaid i chi gael eich hysbysu yn ysgrifenedig o unrhyw asiantiaid pleidleisio a benodwyd o fewn pum niwrnod gwaith fan bellaf cyn yr etholiad (h.y. erbyn 27 Ebrill 2016) er mwyn i'w penodiad fod yn weithredol ar gyfer yr etholiad¹⁴⁰. Mae'r Comisiwn wedi datblygu [ffurflen ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiant pleidleisio](#) i'w defnyddio yn etholiadau'r Cynulliad.¹⁴¹

3.31 Gall asiant pleidleisio gael ei benodi i orsaf bleidleisio neu orsafoedd pleidleisio penodol, neu bob gorsaf bleidleisio o fewn yr etholaeth. Nid oes cyfyngiad ar nifer yr asiantiaid pleidleisio a all fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio. Fodd bynnag, dim ond un asiant pleidleisio ar gyfer pob ymgeisydd etholaethol, ymgeisydd rhanbarthol unigol neu restr plaid a all fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio ar unrhyw adeg. Gellir penodi'r un asiantiaid pleidleisio i fod yn bresennol mewn mwy nag un orsaf bleidleisio.¹⁴²

Y cyfrif

3.32 Gall asiantiaid cyfrif gael eu penodi i arsylwi ar y prosesau dilysu a chyfrif sy'n ymwneud â'r etholiad y cawsant eu penodi ar ei gyfer.

3.33 Rhaid i chi gael eich hysbysu yn ysgrifenedig o benodiad asiantiaid cyfrif o fewn pum niwrnod gwaith fan bellaf cyn yr etholiad (h.y. erbyn 27 Ebrill 2016) er mwyn i'w penodiad fod yn weithredol ar gyfer y dilysu a'r cyfrif¹⁴³. Mae'r Comisiwn wedi datblygu [ffurflen ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiant cyfrif](#) i'w defnyddio yn etholiadau'r Cynulliad.

3.34 Rhaid i chi roi hysbysiad ysgrifenedig i asiantiaid cyfrif a benodwyd o'r amser a'r lleoliad lle y bydd y prosesau dilysu a chyfrif yn dechrau cael eu cynnal.¹⁴⁴

3.35 Yn ôl y gyfraith, caniateir i chi gyfyngu ar nifer yr asiantiaid cyfrif¹⁴⁵. Rhaid i nifer yr asiantiaid y caiff pob ymgeisydd etholaethol eu penodi fod yr un faint¹⁴⁶. Rhaid i nifer yr asiantiaid y caiff pob ymgeisydd rhanbarthol unigol eu penodi a nifer yr asiantiaid y caiff asiant etholiad pob plaid gofrestredig sydd wedi'i henwebu ar gyfer yr etholiad rhanbarthol eu penodi, fod yr un faint¹⁴⁷. Oni bai bod amgylchiadau arbennig, ni ddylai'r nifer fod yn llai na'r nifer a geir drwy rannu nifer y cynorthwywyr cyfrif (h.y. y staff sy'n cyfrif y papurau pleidleisio) â nifer yr ymgeiswyr yn achos etholiad etholaethol a chyfanswm nifer yr ymgeiswyr rhanbarthol unigol a phleidiau gwleidyddol cofrestredig sydd wedi'u henwebu yn achos yr etholiad rhanbarthol¹⁴⁸.

3.36 Wrth benderfynu ar uchafswm yr asiantiaid cyfrif, dylai pob ymgeisydd ac asiant, hyd y gellir, gael caniatâd i benodi digon o asiantiaid cyfrif fel y gellir craffu'n llawn ac yn briodol ar y prosesau dilysu a chyfrif. Fodd bynnag, dylech ystyried unrhyw oblygiadau o ran iechyd a diogelwch, gan gynnwys rheoliadau tân ar gyfer y lleoliad dilysu a chyfrif pleidleisiau, wrth benderfynu ar uchafswm yr asiantiaid cyfrif.

3.37 Wrth benderfynu ar uchafswm yr asiantiaid cyfrif, dylech hefyd gofio bod hawl gan asiantiaid cyfrif yr holl etholiadau sy'n cael eu dilysu fod yn bresennol yn ystod y rhan ddilysu o'r broses gyfrif.



I gael manylion ynglŷn â phwy a all fod yn bresennol yn ystod prosesau dilysu a chyfrif, gweler [Rhan E: Dilysu a chyfrif y pleidleisiau](#).

Cyfrifo'r canlyniad rhanbarthol a dyrannu seddau

3.38 Gall asiantiaid etholiad a chyfrif ymgeiswyr rhanbarthol unigol a rhestrau plaid fod yn bresennol wrth ddyrannu seddau rhanbarthol. Gall rhywun sy'n bresennol yn lle'r asiant etholiad hefyd fynychu (gallai hyn fod yn is-asiant).

3.39 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hysbysu ymgeiswyr rhanbarthol unigol ac asiant etholiad pob rhestr plaid yn ysgrifenedig o'r amser a'r lleoliad lle y caiff y seddau rhanbarthol eu dyrannu¹⁴⁹.



I gael manylion ynglŷn â phwy a all fod yn bresennol wrth gyfrifo'r canlyniad rhanbarthol a dyrannu seddau, gweler [Rhan E: Dilysu a chyfrif y pleidleisiau](#).

Asiantiaid yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Yr asiant etholiad

3.40 Rhaid i bob ymgeisydd gael asiant etholiad a rhaid i'r hysbysiad o'i benodiad gael ei gyflwyno i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno hysbysiadau tynnu enwau yn ôl, sef 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad (h.y. 4pm ar 7 Ebrill 2016).¹⁵⁰

3.41 Pan gaiff ei hysbysu o enw a chyfeiriad asiant etholiad, rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu gyhoeddi hysbysiad yn nodi'r manylion hynny ac enw'r ymgeisydd cyn gynted â phosibl. Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn rhoi copi o'r hysbysiad i chi, fel Swyddog Canlyniadau Lleol, a rhaid i chi ei gyhoeddi yn eich ardal bleidleisio¹⁵¹. Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ddiweddarau'r hysbysiad os diddymir penodiad asiant, neu os bydd asiant yn marw, gan nodi manylion yr asiant newydd ar y fersiwn ddiwygiedig. Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu roi copi o unrhyw hysbysiad sydd wedi'i ddiweddarau i chi, fel Swyddog Canlyniadau Lleol, y mae'n rhaid i chi ei gyhoeddi yn eich ardal bleidleisio¹⁵².

Is-asiantiaid


3.42 Gall asiantiaid etholiad benodi is-asiantiaid i weithredu ar eu rhan mewn unrhyw ran o ardal yr heddlu. Rhaid hysbysu Swyddog Canlyniadau

Ardal yr Heddlu o benodiad unrhyw is-asiant erbyn y pumed niwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. erbyn 27 Ebrill 2016).¹⁵³

3.43 Ar ôl cael hysbysiad o enw a chyfeiriad is-asiant, rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu gyhoeddi hysbysiad yn nodi'r manylion hynny, enw'r ymgeisydd, a'r rhan o ardal yr heddlu y penodwyd yr is-asiant i weithredu ynddi, cyn gynted â phosibl. Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn rhoi copi o'r hysbysiad i chi, fel Swyddog Canlyniadau Lleol, a rhaid i chi ei gyhoeddi yn eich ardal bleidleisio. Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ddiweddarau'r hysbysiad os diddymir penodiad unrhyw is-asiant, neu os bydd is-asiant yn marw, gan nodi manylion yr asiant newydd ar y fersiwn ddiwygiedig. Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu roi copi o unrhyw hysbysiad sydd wedi'i ddiweddarau i chi, fel Swyddog Canlyniadau Lleol, y mae'n rhaid i chi ei gyhoeddi yn eich ardal bleidleisio¹⁵⁴.

Asiantiaid eraill

3.44 Gall ymgeiswyr mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau benodi asiantiaid i arsylwi ar y broses o agor pleidleisiau post, y bleidlais a'r broses ddilysu a chyfrif.¹⁵⁵ Chi sy'n gyfrifol am dderbyn yr hysbysiadau o benodiad ar gyfer yr asiantiaid hyn.



I gael rhagor o fanylion am rôl yr asiantiaid hyn, gweler [Rhan 5: Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol](#) yn ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.

3.45 Rhaid i chi sicrhau y caiff pob asiant penodedig gopi o ofynion cyfrinachedd etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ar gyfer agor [pleidleisiau post](#), [y bleidlais](#) a'r [cyfrif](#), sydd ar gael ar ein gwefan¹⁵⁶.

Agor pleidleisiau post

3.46 Yn ôl y gyfraith, caniateir i asiantiaid pleidleisio drwy'r post arsylwi ar y broses o agor blwch pleidleisio pleidleiswyr post, agor pleidleisiau post a ddychwelwyd a chadarnhau llofnodion a dyddiadau geni a nodwyd ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd. Rhaid i chi gael hysbysiad ysgrifenedig o enw a chyfeiriad unrhyw asiantiaid pleidleisio drwy'r post cyn dechrau unrhyw sesiwn benodol y mae'r asiantiaid yn dymuno bod yn bresennol ynddi¹⁵⁷. Mae'r Comisiwn wedi datblygu [ffurflen ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiant pleidleisio drwy'r post](#) i'w defnyddio yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.

3.47 Rhaid i chi roi o leiaf 48 awr o rybudd i ymgeiswyr o amser a lleoliad unrhyw sesiwn agor pleidleisiau post a nifer yr asiantiaid y gellir eu penodi i fod yn bresennol ym mhob sesiwn agor¹⁵⁸.

Y bleidlais

3.48 Yn ôl y gyfraith, mae gan asiantiaid pleidleisio yr hawl i gael mynediad i orsafoedd pleidleisio er mwyn canfod achosion o gambersonadu. Gallant hefyd arsylwi ar y gweithdrefnau i'w dilyn y tu mewn i orsaf bleidleisio.

3.49 Rhaid i chi gael eich hysbysu yn ysgrifenedig o unrhyw asiantiaid pleidleisio a benodwyd o fewn pum niwrnod gwaith fan bellaf cyn yr etholiad (h.y. erbyn 27 Ebrill 2016) er mwyn i'w penodiad fod yn weithredol ar gyfer yr etholiad¹⁵⁹. Mae'r Comisiwn wedi datblygu [ffurflen ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiant pleidleisio](#) i'w defnyddio yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.¹⁶⁰

3.50 Gall asiant pleidleisio gael ei benodi i orsaf bleidleisio neu orsafoedd pleidleisio penodol, neu bob gorsaf bleidleisio o fewn yr ardal bleidleisio. Gellir penodi'r un asiantiaid pleidleisio i fod yn bresennol mewn mwy nag un orsaf bleidleisio.¹⁶¹

3.51 Yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, caniateir i gyfanswm o bedwar asiant pleidleisio fod yn bresennol mewn unrhyw orsaf bleidleisio benodol, neu gallwch benderfynu caniatáu i fwy o asiantiaid fod yn bresennol.¹⁶² Mae'r terfyn yn gymwys i bob gorsaf bleidleisio unigol, hyd yn oed os oes mwy nag un orsaf bleidleisio yn yr un adeilad neu ystafell. Os byddwch yn penderfynu caniatáu i fwy na phedwar asiant pleidleisio fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio, rhaid i chi roi hysbysiad o'r ffigur uwch hwnnw¹⁶³. Dylid cyhoeddi'r hysbysiad hwn ar eich gwefan a rhoi copi ohono i'r ymgeiswyr a'u hasiantiaid etholiad. Dylid rhoi copi o'r hysbysiad i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu hefyd. Gallwch benderfynu pennu uchafsymiau gwahanol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio gwahanol ac, os felly, dylech nodi hynny'n glir ar yr hysbysiad a gyhoeddir gennych.

3.52 Os bydd yr holl ymgeiswyr gyda'i gilydd yn penodi mwy nag uchafswm yr asiantiaid pleidleisio a all fod yn bresennol mewn unrhyw orsaf bleidleisio, rhaid i chi benderfynu pa asiantiaid pleidleisio all fod yn bresennol drwy eu dewis ar hap ar gyfer pob gorsaf bleidleisio¹⁶⁴. Ni chaiff y rhai na chânt eu dewis ar hap eu penodi yn asiantiaid pleidleisio ar gyfer yr orsaf bleidleisio honno.¹⁶⁵

3.53 Dim ond un asiant pleidleisio ar gyfer pob ymgeisydd a all fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio ar unrhyw adeg.

Y cyfrif

3.54 Gellir penodi asiantiaid cyfrif i arsylwi ar y prosesau dilysu a chyfrif sy'n ymwneud ag etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.

3.55 Rhaid i chi gael eich hysbysu yn ysgrifenedig o benodiad asiantiaid cyfrif o fewn pum niwrnod gwaith fan bellaf cyn yr etholiad (h.y. erbyn 27 Ebrill 2016) er mwyn i'w penodiad fod yn weithredol ar gyfer y dilysu a'r cyfrif¹⁶⁶.

Mae'r Comisiwn wedi datblygu [ffurflen ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiant cyfrif](#) i'w defnyddio yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

3.56 Rhaid i chi roi hysbysiad ysgrifenedig i asiantiaid cyfrif a benodwyd o'r amser a'r lleoliad lle y bydd y prosesau dilysu a chyfrif yn dechrau cael eu cynnal.¹⁶⁷ Rhaid i chi hefyd roi hysbysiad i asiantiaid cyfrif a benodwyd o'r amser a'r lleoliad lle y bydd y broses o gyfrif y pleidleisiau ail ffafriaeth yn dechrau cael ei chynnal¹⁶⁸. Rhaid i'r hysbysiad hwn nodi amser dechrau'r ail broses gyfrif, a all ddigwydd mor gynnar ag y bo'n ymarferol ar ôl y broses gyfrif gyntaf yn hytrach nag ar unrhyw amser penodol neu gallai ddigwydd ar amser penodol yn nes ymlaen.

3.57 Yn ôl y gyfraith, caniateir i chi gyfyngu ar nifer yr asiantiaid cyfrif. Rhaid i'r nifer y caiff pob ymgeisydd eu penodi fod yr un peth ac, oni bai bod amgylchiadau arbennig, ni chânt fod yn llai na'r nifer a geir drwy rannu nifer y cynorthwywyr cyfrif (h.y. y staff hynny a gyflogir i gyfrif y papurau pleidleisio) â nifer yr ymgeiswyr.

3.58 Wrth benderfynu ar uchafswm yr asiantiaid cyfrif, dylai pob ymgeisydd, hyd y gellir, gael caniatâd i benodi digon o asiantiaid cyfrif fel y gellir craffu'n llawn ac yn briodol ar y prosesau dilysu a chyfrif. Fodd bynnag, dylech ystyried unrhyw oblygiadau o ran iechyd a diogelwch, gan gynnwys rheoliadau tân ar gyfer y lleoliad dilysu a chyfrif pleidleisiau, wrth benderfynu ar uchafswm yr asiantiaid cyfrif.

3.59 Wrth benderfynu ar uchafswm yr asiantiaid cyfrif, dylech hefyd gofio bod hawl gan asiantiaid cyfrif yr holl etholiadau sy'n cael eu dilysu fod yn bresennol yn ystod y rhan ddilysu o'r broses gyfrif.



I gael manylion ynglŷn â phwy a all fod yn bresennol yn ystod prosesau dilysu a chyfrif, gweler [Rhan E: Dilysu a chyfrif y pleidleisiau](#).

3.60 Dim ond un o'r asiantiaid cyfrif ar gyfer pob ymgeisydd y gellir ei ddynodi i ofyn am ailgyfrif y pleidleisiau ar ddiwedd y broses gyfrif neu unrhyw broses ailgyfrif. Rhaid i ddynodiadau o'r fath gael eu gwneud ar yr adeg y cewch eich hysbysu am benodiad yr asiant cyfrif.¹⁶⁹ Mae ffurflen hysbysiad o benodiad asiantiaid cyfrif y Comisiwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer nodi unrhyw ddynodiad o'r fath ar y ffurflen.

4 Paratoi hysbysiadau, cardiau pleidleisio a phapurau pleidleisio

Paratoi a chyhoeddi hysbysiadau

4.1 Rhaid i chi gyhoeddi hysbysiadau drwy eu gosod mewn man amlwg yn yr ardal etholiadol berthnasol¹⁷⁰. Dylai hyn gynnwys swyddfeydd yr awdurdod lleol, hysbysfyrddau, llyfrgelloedd ac adeiladau cyhoeddus eraill. Gellir rhoi'r hysbysiad mewn unrhyw ffordd arall sy'n addas yn eich barn chi.

4.2 Er mwyn sicrhau y gall pleidleiswyr gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat hygyrch ac mewn pryd er mwyn iddynt bleidleisio, dylech sicrhau bod gwybodaeth am yr etholiadau, gan gynnwys yr hysbysiadau etholiad a'r hysbysiadau pleidleisio, ar gael yn hawdd i bleidleiswyr, megis drwy wefan yr awdurdod lleol.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am yr etholiadau, gan gynnwys yr hysbysiad etholiad, ar gael yn hawdd i bleidleiswyr, megis ar wefan yr awdurdod lleol. Er mwyn dangos y gellir cyflawni'r canlyniad, bydd angen i chi sicrhau y gellir cael gafael ar wybodaeth am bleidleisio yn hawdd drwy wefan yr awdurdod lleol.



Gweler [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#) i gael canllawiau mwy cyffredinol ar gyfleu gwybodaeth i etholwyr.

4.3 Dylai prosesau gwirio cadarn fod ar waith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau yn yr hysbysiadau y mae'n ofynnol i chi eu cyhoeddi.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod prosesau cadarn ar waith gennych er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar yr hysbysiad etholiad. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi gael prosesau ar waith i brawfddarlennu yr hysbysiad.

Cyfieithu a fformatau hysbysiadau

4.4 Mae'n ofynnol i chi sicrhau y caiff hysbysiadau eu cyfieithu neu eu darparu mewn fformat arall, lle y credwch ei bod yn briodol gwneud hynny. Cewch eu paratoi:

- mewn Braille
- mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg
- drwy ddefnyddio lluniau
- mewn fformat sain
- drwy ddefnyddio unrhyw ffordd arall o wneud y wybodaeth yn hygyrch¹⁷¹

4.5 Ni ellir cynhyrchu'r papurau pleidleisio mewn unrhyw iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg, neu heblaw am yn y fformat rhagnodedig. Fodd bynnag, rhaid i'r copi wedi'i chwyddo o'r papurau pleidleisio sydd i'w harddangos mewn gorsafoedd pleidleisio gynnwys y cyfarwyddiadau i bleidleiswyr wedi'u hargraffu ar frig y papur¹⁷², a gellir cyfieithu'r geiriau hyn i ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg.

Hysbysiad etholiad

Etholiad etholaethol y Cynulliad

4.6 Rhaid i chi gyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer yr etholaeth o fewn 25 diwrnod gwaith i'r diwrnod pleidleisio fan bellaf (h.y. erbyn 30 Mawrth 2016).¹⁷³

4.7 Mae'n **rhaidd** i'r hysbysiad nodi'r canlynol¹⁷⁴:

- ble a phryd y gellir cyflwyno'r papurau enwebu, a ble y gellir cael gafael ar bapurau enwebu
- os byddwch wedi penderfynu derbyn taliadau electronig, y trefniadau ar gyfer talu ernesau yn electronig
- dyddiad y bleidlais os caiff yr etholiad ei ymladd
- y dyddiad y mae'n rhaid i'r ceisiadau ar gyfer pleidleisiau absennol (yn cynnwys pleidleisiau argyfwng drwy ddirprwy) gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn weithredol ar gyfer yr etholiad.

4.8 Dylai'r hysbysiad hefyd gynnwys y dyddiad y mae'n rhaid i'r ceisiadau ar gyfer cofrestru gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn weithredol ar gyfer etholiad.

4.9 Dylai'r cyfeiriad a roddir ar gyfer cyflwyno papurau enwebu fod yn union gywir, a dylai gynnwys unrhyw rif ystafell. Bydd hyn yn osgoi unrhyw amheuaeth os caiff enwebiadau eu cyflwyno'n agos at y terfyn amser. Dylid hysbysu holl aelodau staff derbynfa'r adeilad ac adeiladau cysylltiedig eraill na ddylent dderbyn papurau enwebu.

4.10 Mae'r Comisiwn wedi datblygu [templod o hysbysiad etholiad](#) y gallwch ei ddefnyddio ar gyfer Etholiad etholaethol y Cynulliad.

Etholiad rhanbarthol y Cynulliad

4.11 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, rhaid i chi gyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer yr etholiad rhanbarthol o fewn 25 diwrnod gwaith i'r diwrnod pleidleisio fan bellaf (h.y. erbyn 30 Mawrth 2016).¹⁷⁵

4.12 Mae'n **rhaid** i'r hysbysiad nodi'r canlynol:

- ble a phryd y gellir cyflwyno'r papurau enwebu, a ble y gellir cael gafael ar bapurau enwebu
- os byddwch wedi penderfynu derbyn taliadau electronig, y trefniadau ar gyfer talu ernesau yn electronig
- dyddiad y bleidlais os caiff yr etholiad ei ymladd
- y dyddiad y mae'n rhaid i'r ceisiadau ar gyfer pleidleisiau absennol (yn cynnwys pleidleisiau argyfwng drwy ddirprwy) gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn weithredol ar gyfer yr etholiad.

4.13 Dylai'r hysbysiad hefyd gynnwys y dyddiad y mae'n rhaid i'r ceisiadau ar gyfer cofrestru gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn weithredol ar gyfer etholiad.

4.14 Dylai'r cyfeiriad a roddir ar gyfer cyflwyno papurau enwebu fod yn union gywir, a dylai gynnwys unrhyw rif ystafell. Bydd hyn yn osgoi unrhyw amheuaeth os caiff enwebiadau eu cyflwyno'n agos at y terfyn amser. Dylid hysbysu holl aelodau staff derbynfa'r adeilad ac adeiladau cysylltiedig eraill na ddylent dderbyn papurau enwebu.

4.15 Mae'r Comisiwn wedi datblygu [templed o hysbysiad etholiad](#) y gallwch ei ddefnyddio ar gyfer etholiad rhanbarthol y Cynulliad.

4.16 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol roi copi o'r hysbysiad etholiad ar gyfer etholiad rhanbarthol y Cynulliad i Swyddog Canlyniadau Etholaethol pob etholaeth yn ei ranbarth er mwyn iddo ei gyhoeddi'n lleol.

Etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd

4.17 Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu gyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd o fewn 25 diwrnod gwaith i'r diwrnod pleidleisio fan bellaf (h.y. erbyn 30 Mawrth 2016)¹⁷⁶. Rhaid i'r swyddog hwn baratoi ac anfon copi o'r hysbysiad etholiad atoch chi fel Swyddog Canlyniadau Lleol, ac mae'n rhaid i chi ei gyhoeddi'n lleol yn yr ardal bleidleisio.¹⁷⁷

Datganiadau ynghylch y personau a'r pleidiau a enwebwyd

4.18 Mae'n ofynnol i chi gyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd ar gyfer etholiad etholaethol y Cynulliad. Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, mae'n ofynnol i chi gyhoeddi datganiad ynghylch y pleidiau a'r personau eraill a enwebwyd ar gyfer etholiad rhanbarthol y Cynulliad.

4.19 Rhaid i'r datganiadau gael eu hargraffu mewn llythrennau amlwg a'u harddangos y tu mewn a'r tu allan i bob gorsaf bleidleisio.¹⁷⁸

Etholiad etholaethol y Cynulliad

4.20 Mae'n ofynnol i chi gyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd erbyn 4pm ar y deunawfed diwrnod gwaith cyn yr etholiad fan bellaf (h.y. erbyn 4pm ar 8 Ebrill 2016)¹⁷⁹.

4.21 Rhaid i'r datganiad o bersonau a enwebwyd ddangos, ar gyfer pob ymgeisydd a enwebir yn ddilys, yn ogystal â'r sawl sydd wedi tynnu ei enw yn ôl neu rydych wedi gwrthod ei enwebiad¹⁸⁰:

- eu henw
- eu cyfeiriad
- eu disgrifiad (os o gwbl)
- yn achos y sawl nad ydynt wedi'u henwebu mwyach, y rheswm dros hynny¹⁸¹

4.22 Rhaid i enwau'r ymgeiswyr ar y datganiad gael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor ar gyfer eu cyfenw; dyma sut y byddant hefyd yn ymddangos ar y papur pleidleisio. Pan fydd gan ddau neu fwy o ymgeiswyr yr un cyfenw, trefn yr wyddor yr enwau eraill fydd yn penderfynu pa ymgeisydd a gaiff ei restru yn gyntaf.¹⁸²

4.23 Os bydd unigolyn wedi gofyn am i enw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddefnyddio ar ei ffurflen enwebu, rhaid i'r enw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddangos ar y datganiad yn hytrach na'i enw gwirioneddol¹⁸³. Pan fydd ymgeisydd wedi gofyn am gael defnyddio cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin, rhaid i safle'r ymgeisydd o ran trefn yr wyddor ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd ac ar y papur pleidleisio gyfeirio at ei gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin.¹⁸⁴

4.24 Fodd bynnag, os ydych wedi gwrthod y defnydd o unrhyw enw a ddefnyddir yn gyffredin gan eich bod o'r farn ei fod yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu ei fod yn anwedus neu'n sarhaus, rhaid i'r enw gwirioneddol gael ei gyhoeddi ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd yn lle'r enw a ddefnyddir yn gyffredin.¹⁸⁵

4.25 Rhaid i'r datganiad ynghylch personau a enwebwyd gynnwys yr hysbysiad etholiad os ymleddir yr etholiad etholaethol.¹⁸⁶

4.26 Rhaid i chi anfon copi o'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd i'r Comisiwn ynghyd â chopi o dystysgrif awdurdodi ar gyfer ymgeisydd, os

ydych wedi cael un.¹⁸⁷ Dylid e-bostio copiâu i gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Etholiad rhanbarthol y Cynulliad

4.27 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, rhaid i chi gyhoeddi'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd erbyn 4pm ar y deunawfed diwrnod gwaith cyn yr etholiad fan bellaf (h.y. erbyn 4pm ar 8 Ebrill 2016)¹⁸⁸.

4.28 Rhaid i'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd gynnwys¹⁸⁹:

- enwau, cyfeiriadau a disgrifiadau (os o gwbl) y personau a enwebwyd ac sydd ag enwebiad fel ymgeiswyr rhanbarthol unigol.
- enwau'r pleidiau gwleidyddol cofrestredig hynny a enwebwyd ac sydd ag enwebiad. Ar gyfer pob plaid o'r fath, rhaid dangos hefyd enw'r plaid neu'r disgrifiad cofrestredig a roddwyd ar enwebiad y plaid ac enwau a chyfeiriadau'r ymgeiswyr a enwebwyd ar y rhestr plaid.
- yn achos yr unigolion hynny (boed yn ymgeiswyr rhanbarthol unigol neu'n ymgeiswyr ar restr plaid), neu'r pleidiau hynny nad oes ganddynt enwebiad mwyach, y rheswm dros hynny¹⁹⁰

4.29 Rhaid i enwau'r pleidiau ar y datganiad gael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor wedi eu dilyn gan enwau'r ymgeiswyr rhanbarthol unigol y mae'n rhaid eu rhestru yn nhrefn yr wyddor o ran eu cyfenw. Pan fydd gan ddau neu fwy o ymgeiswyr rhanbarthol unigol yr un cyfenw, trefn yr wyddor yr enwau eraill fydd yn penderfynu pa ymgeisydd a gaiff ei restru yn gyntaf. Yn union ar ôl pob plaid rhaid rhestru enwau pob ymgeisydd ar y rhestr plaid honno ar y datganiad yn y drefn y maent yn ymddangos ar y rhestr plaid.¹⁹¹

4.30 Os bydd ymgeisydd rhanbarthol unigol neu ymgeisydd ar restr plaid wedi gofyn am i enw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddefnyddio, rhaid i'r enw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddangos ar y datganiad yn hytrach na'i enw gwirioneddol. Pan fydd ymgeisydd rhanbarthol unigol wedi gofyn am i gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddefnyddio, rhaid pennu safle'r ymgeisydd yn nhrefn yr wyddor ar y datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd ar y papur pleidleisio drwy gyfeirio at eu cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin.¹⁹²

4.31 Fodd bynnag, os ydych, fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, wedi gwrthod y defnydd o unrhyw enw a ddefnyddir yn gyffredin gan eich bod o'r farn ei fod yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu ei fod yn anwedus neu'n sarhaus, rhaid i'r enw gwirioneddol gael ei gyhoeddi ar y datganiad yn lle'r enw a ddefnyddir yn gyffredin.¹⁹³

4.32 Rhaid i'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd gynnwys yr hysbysiad etholiad os ymleddir yr etholiad rhanbarthol.¹⁹⁴

4.33 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, rhaid i chi roi copi o'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd i bob

Swyddog Canlyniadau Etholaethol cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi er mwyn i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol ei gyhoeddi'n lleol.¹⁹⁵

4.34 Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, rhaid i chi anfon copi o'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd i'r Comisiwn.¹⁹⁶ Dylid e-bostio'r copi i gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau

4.35 Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn cyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd ar gyfer ardal yr heddlu erbyn 4pm, 18 diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 8 Ebrill 2016)¹⁹⁷. Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu baratoi ac anfon atoch, fel Swyddog Canlyniadau Lleol, gopi o'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi, ac mae'n rhaid i chi ei gyhoeddi yn yr ardal bleidleisio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei dderbyn.¹⁹⁸

Hysbysiad etholiad

Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

4.36 Os ymleddir yr etholiad etholaethol, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad etholiad ar gyfer yr etholaeth, gan nodi dyddiad ac oriau'r etholiad.¹⁹⁹ Rhaid i'r hysbysiad etholiad gael ei gynnwys gyda'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, y mae'n rhaid ei gyhoeddi erbyn 4pm fan bellaf ar y deunawfed diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 8 Ebrill 2016)²⁰⁰.

4.37 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd ac ymleddir yr etholiad rhanbarthol, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad etholiad ar gyfer y rhanbarth, gan nodi dyddiad ac oriau'r etholiad. Rhaid i'r hysbysiad etholiad gael ei gynnwys gyda'r datganiad rhanbarthol ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd, y mae'n rhaid ei gyhoeddi erbyn 4pm fan bellaf ar y deunawfed diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 8 Ebrill 2016).²⁰¹

4.38 Ym mhob achos, dylech roi copi o'r datganiad a'r hysbysiad etholiad i ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu cyhoeddi. Dylech hefyd fod yn barod i roi copïau i unrhyw arsylwyr achrededig ar gais.

Etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau

4.39 Os ymleddir yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu gyhoeddi hysbysiad etholiad ar gyfer ardal yr heddlu erbyn y chweched diwrnod gwaith cyn yr etholiad fan bellaf (h.y. erbyn 26 Ebrill 2016).²⁰² Dylai Swyddog Canlyniadau Ardal yr

Heddlu roi copi o'r hysbysiad i chi y gallwch ei gyhoeddi wedyn yn lleol yn eich ardal bleidleisio. Dylech hefyd ddarparu dolen o'ch gwefan chi i wefan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu hefyd lle y cyhoeddir yr hysbysiad neu ddarparu copi yn uniongyrchol ar eich gwefan fel y gall etholwyr yn yr ardal bleidleisio gael gafael arno'n hawdd.

Hysbysiad ynghylch lleoliad gorsafodd pleidleisio

4.40 Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad ynghylch lleoliad gorsafodd pleidleisio ar gyfer eich etholaeth ar gyfer yr etholiad etholaethol, yr etholiad rhanbarthol a'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd²⁰³.

4.41 Ym mhob achos, rhaid i'r hysbysiad ynghylch lleoliad gorsafodd pleidleisio nodi:

- lleoliad pob gorsaf bleidleisio
- disgrifiad o'r pleidleiswyr sydd â'r hawl i bleidleisio yno.
- y cynhelir y bleidlais yn etholiadau'r Cynulliad gyda'r bleidlais yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd a nodi ardal berthnasol yr heddlu.²⁰⁴

4.42 Gall hysbysiadau ynghylch lleoliad gorsafodd pleidleisio gael eu cyfuno.

4.43 Gall yr hysbysiad ynghylch lleoliad gorsafodd pleidleisio mewn perthynas â'r etholiad etholaethol gael ei gyfuno â'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r hysbysiad etholiad.

4.44 Gall yr hysbysiad ynghylch lleoliad gorsafodd pleidleisio mewn perthynas â'r etholiad rhanbarthol gael ei gyfuno â'r datganiad ynghylch y pleidiau a'r personau eraill a enwebwyd a'r hysbysiad etholiad. Os nad chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, dylech gysylltu â hwy, er mwyn pennu a gaiff y priod hysbysiad a'r datganiad eu cyfuno, ble maent yn awr, a sut y caiff y wybodaeth sy'n ofynnol ei darparu.

4.45 Rhaid i chi roi copi o'r hysbysiad ynghylch lleoliad gorsafodd pleidleisio a disgrifiadau o bleidleiswyr sydd â'r hawl i bleidleisio yno i bob asiant etholiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad, a dylech hefyd roi copi o'r hysbysiad perthnasol i bob ymgeisydd²⁰⁵. Dylech hefyd fod yn barod i sicrhau bod yr hysbysiadau hyn ar gael i unrhyw arsylwyr achrededig ar gais.

4.46 Rhaid i chi, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, roi copi o'r hysbysiad rhanbarthol ynghylch lleoliad gorsafodd pleidleisio i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol²⁰⁶.

Croesi ffiniau

Dylech gysylltu â'r Swyddog(ion) Canlyniadau Lleol yn yr awdurdodau lleol yn eich etholaeth/ardal bleidleisio er mwyn sicrhau bod gennych y wybodaeth berthnasol i'ch galluogi i lunio'r hysbysiad ynghylch lleoliad gorsafoedd pleidleisio.

4.47 Yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, dylech gysylltu â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ynghylch sut y dylai'r gwaith o ddarparu'r hysbysiad ynghylch lleoliad gorsafoedd pleidleisio i asiantiaid gael ei reoli yn ymarferol, gan gynnwys p'un a gaiff yr hysbysiadau ar gyfer pob ardal bleidleisio yn ardal yr heddlu eu dosbarthu'n ganolog gan y Swyddog hwnnw. Os na chaiff, dylech roi copi o'r hysbysiad ynghylch lleoliad gorsafoedd pleidleisio i'r Swyddog cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Paratoi cardiau pleidleisio

4.48 Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol chi sy'n gyfrifol am anfon cerdyn pleidleisio swyddogol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad at etholwyr a'u dirprwyon ac fel Swyddog Canlyniadau Lleol mae gennych yr un cyfrifoldeb am yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd. Gallwch gyfuno'r cardiau pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd. Rhaid i'r cardiau pleidleisio ddilyn y ffurf benodedig, ond gallwch wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol wrth eu cyfuno.²⁰⁷

4.49 Rhaid i chi sicrhau, ar bob cerdyn pleidleisio neu ar y cerdyn pleidleisio cyfunol, bod yr holl elfennau a nodir yn y rheolau etholiadol perthnasol ac a ddangosir ar flaen ac ar gefn y cardiau pleidleisio yn yr atodiad i reolau etholiadau yn cael eu cynnwys²⁰⁸.

4.50 Bydd angen i chi anfon data'ch cerdyn pleidleisio at eich argraffwyr.

4.51 Os ydych yn gosod y gwaith o baratoi'r cardiau pleidleisio ar gontract allanol, dylech sicrhau bod eich meddalwedd yn gallu llunio ffeil data y gall eich argraffwyr ei defnyddio i baratoi'r deunyddiau yn unol â'r fanyleb sydd ei hangen. Ar gam cynnar yn eich trafodaethau â chyflenwyr dylech nodi ym mha fformat y byddwch yn cyflenwi'r data ac ym mha fformat y byddant yn anfon unrhyw broflenni atoch, a dylai hyn gael ei nodi yn eich manyleb a'ch contract.

4.52 Dylech brofi'r broses drwy anfon data enghreifftiol i'r argraffwyr cyn i'r data 'go iawn' gael eu cyflwyno. Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i fersiwn cyn proflen gael ei datblygu, fel y bydd yn amlwg ble y dylai pob rhan o'r data ymddangos ar y cerdyn pleidleisio.

4.53 Dylech hefyd gydgyssylltu â'ch enw cyswllt yn y Post Brenhinol (neu gwmni dosbarthu masnachol) ar gam cynnar er mwyn sicrhau bod gennych drwyddedau priodol ar waith a bod y cerdyn pleidleisio yn bodloni gofynion dosbarthu penodol.

4.54 Waeth p'un a ydych wedi gosod y gwaith o baratoi cardiau pleidleisio ar gontract allanol ai peidio, chi sy'n parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael eu paratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth. Felly, dylech sicrhau bod gennych drefniadau ar waith sy'n eich galluogi i sicrhau ansawdd y broses gyfan.

4.55 Er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, dylech roi proses ar gyfer prawfddarllen cardiau pleidleisio yn fyw ar waith, yn cynnwys cardiau ar gyfer pleidleiswyr absennol, yn ogystal â threfniadau ar gyfer cadarnhau'r deunydd sy'n cael ei baratoi mewn gwirionedd er mwyn sicrhau bod y manylion cywir yn ymddangos, a fydd yn tynnu sylw at unrhyw broflenni a gymeradwywyd sydd wedi cael eu newid drwy gamgymeriad. Gellid hefyd gynnal hapwiriadau o fewn dosbarthiadau pleidleisio er mwyn gallu gwirio trawstoriad cynrychioliadol.

4.56 Rydym wedi llunio [taflen ffeithiau prawfddarllen](#) y gallwch ei defnyddio i'ch helpu i sicrhau ansawdd y broses gyfan.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod prosesau cadarn ar waith gennych er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar gardiau pleidleisio. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi prosesau ar waith i brawfddarllen y cardiau pleidleisio.

4.57 Rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyhoeddi dau hysbysiad interim o newid etholiad cyn cyhoeddi'r hysbysiad terfynol o newid etholiad ar y pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. ar 27 Ebrill 2016)²⁰⁹. Mae'r hysbysiadau hyn yn helpu i sicrhau bod cardiau pleidleisio yn cael eu dosbarthu'n brydlon i'r etholwyr hynny sydd wedi gwneud cais i gofrestru yn agos i'r dyddiad cau cofrestru.

4.58 Rhaid i'r hysbysiad interim cyntaf o newid gael ei gyhoeddi ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais (h.y. 7 Ebrill 2016)²¹⁰. Rhaid i'r ail hysbysiad interim gael ei gyhoeddi rhwng y deunawfed a'r chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais (h.y. rhwng 8 Ebrill 2016 a 26 Ebrill 2016 (cynhwysol))²¹¹.

4.59 Dylai diweddariad o'r data cofrestru sy'n deillio o bob un o'r hysbysiadau o newid gael ei anfon at eich argraffwyr cyn gynted â phosibl er mwyn ei gwneud yn bosibl i gardiau pleidleisio gael eu paratoi ar gyfer etholwyr newydd.

Croesi ffiniau

Os ydych, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, yn gyfrifol am etholaeth sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol, efallai y bydd angen i chi weithio gyda mwy nag un Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn sicrhau y gallwch ddarparu'r data i'r argraffwyr. Dylech hefyd gysylltu â hwy i gael y wybodaeth am etholwyr newydd cyn gynted â phosibl ar ôl i'r hysbysiadau interim o newid a'r hysbysiad etholiadol terfynol o newid gael eu cyhoeddi.



Ceir rhagor o wybodaeth am hysbysiadau interim yn [Rhan 4 – cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#) o ganllawiau'r Comisiwn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.



Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â rheoli contractwyr a chyflenwyr yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

4.60 Dylai data cofrestru etholiadol a ddelir gan gontractwyr gael eu dinistrio mor fuan â phosibl ar ôl y diwrnod pleidleisio. Os nad yw wedi'i gynnwys yn y contract, dylid paratoi ymgymriad ysgrifenedig i gontractwyr ei lofnodi yn cadarnhau hyn. Dylai nodi bod y contractwr yn deall na ellir datgelu gwybodaeth o'r gofrestr etholiadol lawn ar unrhyw adeg, gan gadarnhau na fydd yn datgelu data i unrhyw un heb awdurdod ac y bydd, ar ôl yr etholiadau, yn dychwelyd unrhyw ddisgiau a chofnodion papur a roddwyd iddo gan ddinistrio unrhyw gopiâu electronig neu bapur o'r data yn ddiogel.

Dosbarthu cardiau pleidleisio

4.61 Rhaid i chi anfon cardiau pleidleisio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad²¹². Lle y cyfunir cardiau pleidleisio, dim ond ar ôl i'r hysbysiad etholiad ar gyfer pob etholiad gael ei gyhoeddi y gellir eu dosbarthu.

4.62 Er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt ac o fewn amser iddynt fwrw eu pleidlais, dylech sicrhau y gall cardiau pleidleisio gael eu derbyn gan bleidleiswyr cyn gynted â phosibl, fel bod ganddynt gymaint o amser â phosibl i newid eu manylion cofrestru neu wneud cais am bleidlais absennol.

4.63 Bydd angen i chi gynnal asesiad o'r dyddiad dosbarthu gorau ar gyfer cardiau pleidleisio a dylech ganolbwyntio ar ba bryd y gall etholwyr ddisgwyl cael cardiau pleidleisio.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod pleidleiswyr yn cael cardiau pleidleisio cyn gynted â phosibl fel bod ganddynt gymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi nodi'r ffordd y dosberthir cardiau pleidleisio, gan gynnwys amcangyfrif o ba bryd y dosberthir cardiau pleidleisio.

4.64 Gellir dosbarthu cardiau pleidleisio â llaw, drwy'r post neu drwy ryw ddull arall a bennir gennych fel y dull mwyaf priodol.

Dosbarthu â llaw

4.65 Os penderfynwch ddosbarthu cardiau pleidleisio â llaw dylech gynllunio sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol. Dylech benodi digon o staff i sicrhau bod cardiau pleidleisio yn cael eu derbyn gan bleidleiswyr cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr post yn cael cymaint o amser â phosibl i newid eu manylion cofrestru neu wneud cais am bleidlais absennol. Dylech nodi'n glir yn eich cyfarwyddiadau y diwrnod olaf y byddech yn disgwyl i bob cerdyn pleidleisio gael ei ddosbarthu.

4.66 Dylech hefyd roi trefniadau ar waith i fonitro'r broses ddosbarthu, gyda'r nod o sicrhau bod cardiau pleidleisio wedi cael eu dosbarthu drwy'r etholaeth/ardal bleidleisio gyfan ac yn unol â'r amserlen. Gall hyn gynnwys ei gwneud yn ofynnol i staff dosbarthu lenwi taflenni cofnodi a threfnu i oruchwylwyr gynnal hapwiriadau.

Dosbarthu drwy'r post

4.67 Gallwch ddefnyddio'r Post Brenhinol neu unrhyw gwmni dosbarthu masnachol arall i ddosbarthu'r cardiau pleidleisio. Os ydych yn dosbarthu cardiau pleidleisio drwy'r post, dylech gydgysylltu â'ch darparwr gwasanaethau post i gytuno ar amserlen ar gyfer dosbarthu a chael unrhyw brawf postio a ddarperir gan y cwmni.

4.68 Dylech hefyd roi trefniadau ar waith i fonitro'r broses o ddosbarthu cardiau pleidleisio, gyda'r nod o sicrhau eu bod wedi cael eu dosbarthu drwy'r etholaeth/ardal bleidleisio gyfan ac yn unol â'r amserlen. Os oes modd, dylech roi trefniadau ar waith i olrhain y broses ddosbarthu er mwyn helpu i ymateb i unrhyw ymholiadau gan etholwyr.

4.69 Dylai'ch gwaith cynllunio wrth gefn ymdrin â sut y byddech yn dosbarthu unrhyw gardiau pleidleisio pe na bai'r Post Brenhinol neu'r cwmni dosbarthu masnachol a gontractiwyd gennych yn gallu dosbarthu'r cardiau pleidleisio, er enghraifft, oherwydd gweithredu diwydiannol.

4.70 Rhaid i gerdyn pleidleisio gael ei anfon i gyfeiriad cymwys yr etholwr neu, yn achos dirprwy, i gyfeiriad y dirprwy fel y'i dangosir yn y rhestr o ddirprwyon²¹³.

4.71 Rhaid i gerdyn pleidleisio etholwr dienw gael ei anfon mewn prif amlen²¹⁴ i gyfeiriad cymwys yr etholwr neu, lle mae cyfeiriad gwahanol wedi'i nodi ar ei gais i gofrestru, rhaid i'r cerdyn pleidleisio gael ei anfon i'r cyfeiriad arall hwnnw²¹⁵.

Paratoi papurau pleidleisio

4.72 Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, chi sy'n gyfrifol am y broses o baratoi'r papurau pleidleisio ar gyfer etholiad etholaethol y Cynulliad a'r rhan honno o'r etholiad rhanbarthol yn eich etholaeth. Os nad chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, dylech gydgysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gam cynnar er mwyn sicrhau eglurder ar ffurf y papurau pleidleisio rhanbarthol.

4.73 Fel Swyddog Canlyniadau Lleol, chi sy'n gyfrifol am argraffu'r papurau pleidleisio ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ar gyfer eich ardal pleidleisio, oni fydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn eich hysbysu y bydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn.²¹⁶ Dylech gydgyssylltu â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ynghylch paratoi papurau pleidleisio'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ar gam cynnar.

4.74 Rhagnodir ffurf papurau pleidleisio yn y rheolau perthnasol ar gyfer etholiadau a rhaid dilyn y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus.²¹⁷ Rhaid i bapurau pleidleisio ar gyfer pleidleiswyr post ac at ddefnydd gorsafodded pleidleisio ar gyfer pob etholiad fod ar yr un ffurf, ond gall y marc swyddogol fod yn wahanol os dymunir.

4.75 Er nad oes modd cadarnhau cynnwys terfynol y papurau pleidleisio nes bod y broses enwebu wedi cau, bydd angen i chi fod yn glir ynghylch elfennau canlynol y papurau pleidleisio ar gam cynnar:

- lliw'r papurau pleidleisio
- y 'marc swyddogol'
- rhifau'r papur pleidleisio
- marc adnabod unigryw

Lliw'r papur pleidleisio

4.76 Nid yw'r gyfraith yn rhagnodi lliw'r papurau pleidleisio, ond rhaid i liw papur pleidleisio etholaethol y Cynulliad fod yn wahanol i bapur pleidleisio rhanbarthol y Cynulliad, a rhaid i'r ddau ohonynt fod yn wahanol i liw papur pleidleisio'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.²¹⁸

4.77 Dylech gydgyssylltu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ar gam cynnar ynghylch lliwiau'r papurau pleidleisio i'w defnyddio yn yr etholiadau. Gall Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu eich gorchymyn i ddefnyddio lliw penodol ar gyfer papurau pleidleisio'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.

4.78 Mae'n rhaid i liw papurau pleidleisio a gyflwynwyd fod yn wahanol i liw papurau pleidleisio cyffredin.²¹⁹

4.79 Wrth benderfynu ar liw'r papurau pleidleisio dylech ystyried materion hygrychedd o ran lliw a chyferbyniad. Mae adran 6 o ganllawiau dylunio arfer da y Comisiwn [Making your mark](#) yn cynnwys cyngor ar ddewis lliwiau ar gyfer papurau pleidleisio.

Y 'marc swyddogol'

4.80 Mae'n rhaid ychwanegu marc diogelwch priodol – y 'marc swyddogol' – at y papurau pleidleisio.²²⁰ Dylai'r marc fod yn unigryw ac nid oes rhaid iddo gynnwys tyllu wedi'i ychwanegu ar adeg dosbarthu'r papur pleidleisio, ond gellir defnyddio offer stampio o hyd er mwyn creu marciau swyddogol wedi'i dyllu. Gallai fod yn arwyddlun wedi'i argraffu neu farc neu ddyfais argraffu

arbennig megis dyfrnod. Dylai fod modd ei weld ar flaen y papur pleidleisio fel y gellir ei weld heb orfod troi'r papur pleidleisio drosodd.

4.81 Mewn perthynas â phapurau pleidleisio'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, gall Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu eich cynghori neu eich gorchymyn i ddefnyddio marc swyddogol penodol, neu ei gwneud yn ofynnol iddo gynnwys nodweddion penodol.

4.82 Yn ôl y gyfraith, gall y marc swyddogol fod yr un fath ar gyfer pob papur pleidleisio mewn etholiad neu gellir defnyddio marciau swyddogol gwahanol at ddibenion gwahanol yn yr un etholiad, er enghraifft, un ar gyfer pleidleisiau post a'r llall ar gyfer papurau pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio. Ni all y marc swyddogol ar y papurau pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad gael eu hailddefnyddio am 7 mlynedd mewn etholiadau ar gyfer yr un etholaeth neu mewn etholiadau ar gyfer yr un rhanbarth. Ni all y marc swyddogol a ddefnyddir ar gyfer etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gael eu hailddefnyddio am bum mlynedd ar gyfer etholiadau i'r un ardal yr heddlu.

Rhifau papurau pleidleisio a'r marc adnabod unigryw

4.83 Dylai rhifau papurau pleidleisio redeg yn olynol, ond nid oes rhaid iddynt ddechrau yn '1'.

4.84 Gall y marc adnabod unigryw gynnwys llythrennau a rhifau a gall ailadrodd rhif y papur pleidleisio gyda rhagddodiad neu ôl-ddodiad. Hefyd, gall marc adnabod unigryw fod yn god bar ond nid oes rhaid iddo fod. Nid yw'r un peth â'r marc swyddogol.

4.85 Mewn perthynas â'r papurau pleidleisio ar gyfer etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, gall Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu eich cynghori neu eich gorchymyn ynghylch ffurf y marc adnabod unigryw.

4.86 O ran y marc adnabod:

- dylai fod yn unigryw i bob papur pleidleisio
- gellir ei aildefnyddio ar gyfer yr etholiad nesaf
- rhaid iddo gael ei argraffu ar gefn y papur pleidleisio²²¹

Manylion ymgeiswyr a phleidiau

4.87 Ar gyfer etholiad etholaethol y Cynulliad, rhaid i ymgeiswyr ymddangos ar y papur pleidleisio yn y drefn y cânt eu rhestru yn y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a rhaid i'w henwau a'u manylion perthnasol gael eu hargraffu yn unol â'r cyfarwyddiadau ar gyfer argraffu.²²²

4.88 Ar gyfer etholiad rhanbarthol y Cynulliad, rhaid i'r pleidiau cofrestredig a'r ymgeiswyr rhanbarthol unigol ymddangos ar y papur pleidleisio yn y drefn y cânt eu rhestru yn y datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd a rhaid i'w henwau a'u manylion gael eu hargraffu yn unol â'r

cyfarwyddiadau ar gyfer argraffu.²²³ Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn gallu cadarnhau manylion y pleidiau a'r ymgeiswyr a fydd yn ymddangos ar y papurau pleidleisio rhanbarthol ar ôl i'r broses enwebu gau.

4.89 Ar gyfer etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, rhaid i enwau ymgeiswyr ymddangos ar y papur pleidleisio yn y drefn y cânt eu rhestru yn y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a rhaid i'w henwau a'u manylion perthnasol gael eu hargraffu yn unol â'r cyfarwyddiadau ar gyfer argraffu.²²⁴ Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn gallu cadarnhau manylion yr ymgeiswyr a fydd yn ymddangos ar y papur pleidleisio ar ôl i'r broses enwebu gau.

4.90 Ym mhob achos, dylech ddefnyddio'r maint ffont mwyaf posibl. Er mwyn sicrhau cysondeb, dylid defnyddio'r un maint ffont ar gyfer pob ymgeisydd neu blaid ar gyfer pob llinell gyfatebol.

4.91 Gallwch ddarparu copi eglurder uchel o'r arwyddlun i'w ddefnyddio wrth argraffu papurau pleidleisio, neu gall yr ymgeisydd neu'r blaid ofyn i chi lawrlwytho'r arwyddlun o wefan y Comisiwn. Dylech sicrhau bod pa gopi bynnag a ddefnyddir ar yr un ffurf â'r arwyddlun cofrestredig.

4.92 Dau gentimetr sgwâr yw'r maint mwyaf y gellir ei gael ar gyfer arwyddlun ar y papur pleidleisio. Wrth ychwanegu arwyddlun plaid ar bapur pleidleisio, ni ddylid newid siâp yr arwyddlun. Dylech sicrhau bod yr arwyddlun ar yr un ffurf â'r arwyddlun cofrestredig - er enghraifft, peidiwch ag ymestyn arwyddluniau yn siapiau sgwâr os nad ydynt wedi'u cofrestru fel delweddu sgwâr ar ein gwefan, oherwydd byddai hyn yn newid eu hymddangosiad.

Y ffurf ar gyfer cefn y papur pleidleisio

4.93 Rhagnodir y ffurf ar gyfer cefn y papur pleidleisio a rhaid i chi sicrhau bod y wybodaeth ofynnol yn cael ei chynnwys ar gefn y papur pleidleisio yn y fformat a nodwyd²²⁵. Nid oes darpariaeth ar gyfer rhoi unrhyw linellau neu farciau eraill ar gefn y papurau pleidleisio.

Argraffu papurau pleidleisio

4.94 Rhaid i'r papurau pleidleisio gael eu hargraffu yn unol â'r cyfarwyddiadau ar gyfer argraffu yn yr atodiad i reolau perthnasol etholiadau. Dylech sicrhau eich bod yn cysylltu â'ch cyflenwr argraffu ar gam cynnar i gadarnhau maint mwyaf y papur pleidleisio y gallant ei argraffu a sicrhau, os bydd angen, fod ganddynt drefniadau wrth gefn os bydd angen papurau pleidleisio mwy o faint.

4.95 Dylech ddechrau argraffu papurau pleidleisio cyn gynted â phosibl ar ôl i'r broses enwebu gael ei chwblhau, ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwau yn ôl, ac ar ôl i'r profleuni terfynol gael eu cymeradwyo.

4.96 Dylech roi prosesau prawffdarllen cadarn ar waith, yn ogystal â threfniadau ar gyfer cadarnhau'r papurau pleidleisio wrth iddynt gael eu

hargraffu, a fydd yn tynnu sylw at unrhyw broflenni a gymeradwywyd sydd wedi cael eu newid drwy gamgymeriad.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod prosesau cadarn ar waith gennych er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar yr hysbysiad etholiad. Er mwyn dangos y gellir cyflawni'r canlyniad, bydd angen i chi sicrhau bod gennych broses ar waith ar gyfer prawfddarllen papurau pleidleisio, yn ogystal â threfniadau ar gyfer gwirio'r papurau pleidleisio wrth iddynt gael eu hargraffu, a fydd yn tynnu sylw at unrhyw broflenni a gymeradwywyd sydd wedi cael eu newid drwy gamgymeriad.

4.97 Pan fyddwch yn prawfddarllen papurau pleidleisio, dylech gadarnhau'r canlynol:

- bod pob ymgeisydd/plaid wedi ei gynnwys/ei chynnwys ar y papur pleidleisio
- bod yr holl fanylion ar y papur pleidleisio wedi'u sillafu'n gywir
- bod pob arwyddlun y gofynnwyd yn ddilys amdano wedi ei gynnwys wrth ymyl enw'r ymgeisydd neu'r blaid gywir a'i fod yn cyfateb i gofnod y blaid yng nghofrestr y Comisiwn
- bod pob disgrifiad o ymgeisydd/plaid wedi cael ei argraffu yn y llinell ar gyfer yr ymgeisydd/plaid gywir
- bod y cyfarwyddiadau pleidleisio ar frig y papur pleidleisio yn cyfateb i'r gofynion deddfwriaethol
- bod y papurau pleidleisio wedi cael eu torri i'r maint cywir

4.98 Ar ôl i chi dderbyn y papurau pleidleisio wedi'u hargraffu, dylech gynnal gwiriad olaf cyn i unrhyw bapurau pleidleisio gael eu dosbarthu naill ai mewn sesiwn dosbarthu pleidleisiau post neu eu darparu mewn gorsaf pleidleisio. Dylid gwneud hyn drwy wirio'r papur pleidleisio cyntaf a'r un olaf o leiaf ym mhob llyfr a thrwy gadarnhau bod rhifau papurau pleidleisio ym mhob llyfr neu becyn yn rhedeg yn olynol.



Ceir canllawiau cyffredinol ar reoli contractwyr a chyflenwyr ac ar fonitro eu gwaith yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

4.99 Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i nifer y papurau pleidleisio y bydd angen eu hargraffu er mwyn caniatáu i chi ddyrannu nifer ddigonol o bapurau pleidleisio i orsafoedd pleidleisio a dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post. Fel gofyniad sylfaenol, dylech seilio nifer y papurau pleidleisio a gaiff eu hargraffu ar y nifer fwyaf o etholwyr cymwys fydd yn pleidleisio, sef 100%. Mae risgiau sylweddol ynghlwm wrth argraffu papurau pleidleisio yn seiliedig ar nifer lai o etholwyr yn pleidleisio. Er enghraifft, os bydd nifer y papurau pleidleisio yn dechrau mynd yn brin ar y diwrnod pleidleisio, bydd yn

anoddach ar y cam hwnnw i argraffu rhagor o bapurau pleidleisio a'u hanfon i'r gorsafoedd pleidleisio hynny lle mae prinder, mewn pryd.

4.100 Os penderfynwch, am unrhyw reswm, beidio ag argraffu, fel gofyniad sylfaenol, bapurau pleidleisio yn seiliedig ar y nifer fwyaf o etholwyr cymwys yn pleidleisio, dylech asesu'r risgiau yn ofalus.

4.101 Fel rhan o'ch asesiad risg dylech ystyried:

- cyd-destun penodol yr etholiadau hyn
- unrhyw amgylchiadau lleol penodol
- y nifer ragamcanol a fydd yn pleidleisio, gan ystyried y potensial ar gyfer ymgysylltu'n hwyr a diddordeb hwyr yn yr etholiadau. Fel gofyniad sylfaenol, dylech dybio na fydd y nifer sy'n pleidleisio yn llai na'r nifer a bleidleisiodd yn yr etholiad diweddaraf a drefnwyd
- unrhyw faterion lleol neu genedlaethol a all effeithio ar y nifer sy'n pleidleisio
- p'un a yw'n well cael stoc o bapurau pleidleisio ychwanegol sy'n barod i'w dosbarthu'n gyflym i orsafoedd pleidleisio, o ran eich gallu i ymateb i alw ychwanegol, ac yn fwy cost-effeithiol nag argraffu papurau pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio.

4.102 Dylech gymryd camau hefyd i sicrhau y gellir argraffu papurau pleidleisio ychwanegol ar fyr rybudd os bydd angen a phenderfynu sut y byddai staff gorsafoedd pleidleisio yn cael eu briffio pe bai'r sefyllfa hon yn codi. Ceir canllawiau ar ddyrannu papurau pleidleisio i orsafoedd pleidleisio ym Mhennod 5.

Diogelwch papurau pleidleisio

4.103 Ar ôl i'r marc swyddogol gael ei argraffu ar eich papurau pleidleisio, maent yn 'fyw' i bob diben. Ni waeth a ydych wedi gosod y gwaith argraffu ar gontract allanol neu a ydych yn argraffu'n fewnol, er mwyn sicrhau y gall fod gan bleidleiswyr hyder yn y broses, dylech sicrhau diogelwch papurau pleidleisio wrth iddynt gael eu paratoi a'u storio. Dylai eich trefniadau diogelwch atal pobl rhag gweld na defnyddio'r papurau pleidleisio heb awdurdod ar bob cam o'r broses baratoi a storio rhwng argraffu a'r bleidlais.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod papurau pleidleisio'n cael eu storio'n ddiogel bob amser. Er mwyn dangos y gellir cyflawni'r canlyniad, bydd angen i chi sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer storio papurau pleidleisio yn ddiogel sy'n atal pobl rhag gweld na defnyddio'r papurau pleidleisio heb awdurdod ar bob cam o'r broses baratoi a storio rhwng argraffu a'r bleidlais.

5 Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio

5.1 Rydym wedi paratoi [llawlyfr i orsafoedd pleidleisio](#) sy'n ymdrin â'r gweithdrefnau pleidleisio'n fanwl a'r hyn y dylech ei ddisgwyl ar y diwrnod pleidleisio.

5.2 Nid yw'r canllawiau a geir yn y llawlyfr i orsafoedd pleidleisio wedi cael eu hatgynhyrchu yma. Yn lle hynny, mae'r rhan hon o'n canllawiau'n canolbwyntio ar y gwaith paratoi y bydd angen i chi ei wneud cyn y diwrnod pleidleisio.

Diwedd y cyfnod pleidleisio

5.3 Caiff pleidleiswyr sydd yn yr orsaf bleidleisio am 10pm neu sy'n sefyll mewn ciw y tu allan i'w gorsaf bleidleisio, at ddiben pleidleisio, wneud cais i gael papur pleidleisio.²²⁶

5.4 Dylai gwaith cynllunio da a staffio hyblyg sicrhau bod cyn lleied o risg â phosibl y bydd ciwiau mewn gorsafoedd pleidleisio. Fel rhan o'ch gwaith cynllunio dylech ystyried lle y gall ciwiau godi a sicrhau bod trefniadau ar waith gennych i allu ymateb os bydd ciwiau yn ymffurfio. Dylech sicrhau bod staff gorsafoedd pleidleisio yn monitro'r nifer a bleidleisiodd drwy'r dydd a chyflwyno adroddiadau cynnydd i arolygwyr gorsafoedd pleidleisio, a'ch bod yn cael eich hysbysu os oes gwybodaeth sy'n awgrymu risg y bydd ciw ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio mewn unrhyw orsaf bleidleisio. Fodd bynnag, bydd angen o hyd i chi fod yn barod i ymdrin ag unrhyw giwiau pe baent yn codi. Dylech ystyried hefyd cynnwys eich Pwynt Cyswllt Unigol yn yr Heddlu mewn trefniadau cynllunio i ymdrin â chwiwiau posibl ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, fel y gall eich helpu i reoli ciwiau os bydd angen.



Ceir rhagor o ganllawiau ar drefniadau staffio mewn gorsafoedd pleidleisio a hyfforddiant perthnasol staff fel y gallant gynnal rolau ei gilydd i'r graddau ag y caniatâ'r gyfraith yn [Rhan B - Cynllunio a threfnu](#).

5.5 Bydd llawlyfr y Comisiwn i orsafoedd pleidleisio yn manylu ar y prosesau sydd i'w dilyn ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, gan gynnwys sut i ymdrin â phleidleiswyr sy'n sefyll mewn ciw am 10pm.

Tynnu 'hunlun' mewn gorsafoedd pleidleisio

5.6 Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â chael gwybodaeth mewn gorsafoedd pleidleisio a datgelu gwybodaeth o'r fath yn gymhleth. O ystyried y risg y bydd

rhywun sy'n tynnu llun y tu mewn i orsaf bleidleisio yn torri'r gyfraith o bosibl, boed hynny'n fwriadol ai peidio, ein cyngor yw na ddylech ganiatáu i neb dynnu llun y tu mewn i orsafoedd pleidleisio.

5.7 Dylech sicrhau bod staff ym mhob gorsaf bleidleisio yn ymwybodol o'r canllawiau hyn. Efallai y dylech hefyd ystyried arddangos hysbysiad y tu mewn i orsafoedd pleidleisio er mwyn nodi'n glir na chaniateir unrhyw fath o ffotograffiaeth (gan gynnwys tynnu lluniau ar ffonau symudol). Efallai y dylech hefyd ystyried a fyddwch yn caniatáu defnyddio ffonau symudol mewn gorsafoedd pleidleisio ac a ddylech osod arwyddion sy'n gwahardd yn benodol y defnydd o ffonau symudol y tu mewn i orsafoedd pleidleisio.

Trefnu gorsafoedd pleidleisio



Ceir canllawiau ar nodi gorsafoedd pleidleisio addas yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

5.8 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau y caiff gorsafoedd pleidleisio eu gosod gan ystyried y pleidleisiwr. Yn benodol, dylid ystyried anghenion pleidleiswyr sydd ag anableddau gwahanol. Dylid hefyd ystyried y ffordd y caiff yr holl ddodrefn a chyfarpar angenrheidiol eu gosod, yn ogystal â ble y dylid arddangos hysbysiadau, ynghyd â gosod arwyddion y tu mewn i'r orsaf bleidleisio ac arwyddion allanol.

5.9 Dylech ddatblygu cynlluniau ar gyfer diwyg pob un o'r gorsafoedd pleidleisio y gellir eu defnyddio i helpu'r rhai sy'n gosod y gorsafoedd pleidleisio. Dylech ystyried y llif, gan gynnwys sut y bydd y pleidleisiwr yn symud drwy'r broses bleidleisio o'r adeg y daw i mewn i'r orsaf bleidleisio i'r adeg y bydd yn ei gadael.

5.10 Dylai pwy bynnag sy'n gyfrifol am osod gorsafoedd pleidleisio gael cyfarwyddyd ynglŷn â sut i wneud hynny a'r hyn a allai'r diwyg ei gyflawni

5.11 Os na ddisgwylir i staff gorsafoedd pleidleisio osod gorsafoedd pleidleisio, dylent gael eu cyfarwyddo i gadarnhau bod yr orsaf bleidleisio wedi'i gosod yn gywir, a dylent gyfeirio at unrhyw gynlluniau diwyg a baratowyd gennych a rhestr wirio gosod gorsaf bleidleisio yn llawlyfr y Comisiwn i orsafoedd pleidleisio wrth wneud hynny. Mae'r [llawlyfr i orsafoedd pleidleisio](#) hefyd yn ymdrin â lleoli cyfarpar ac arddangos hysbysiadau, ac yn rhoi enghreifftiau o ddiwyg ar gyfer ystafell lle mae un orsaf bleidleisio ac ystafell lle mae mwy nag un orsaf bleidleisio.



Er mwyn gallu cyflawni'r canlyniad a nodir yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau yr ystyrir anghenion mynediad wrth gynllunio ar gyfer gorsafoedd pleidleisio a'u sefydlu a sicrhau bod staff gorsafoedd pleidleisio wedi'u hyfforddi i sefydlu gorsafoedd pleidleisio mewn ffordd sy'n ystyried anghenion pleidleiswyr. Er mwyn dangos y gellir cyflawni'r canlyniad,

bydd angen i chi asesu anghenion mynediad, nodi unrhyw broblemau a chamau gweithredu a gymerwyd i'w datrys a darparu canllawiau/hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio.



Ceir rhagor o ganllawiau ar hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

5.12 Gellir defnyddio ymweliadau arolygwyr gorsafoedd pleidleisio i gadarnhau diwyg gorsaf bleidleisio a sicrhau bod yr holl hysbysiadau yn parhau i gael eu harddangos yn gywir drwy'r diwrnod pleidleisio cyfan.



Ceir rhagor o fanylion am rôl arolygwyr gorsafoedd pleidleisio yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

Cyfarpar a deunyddiau gorsafoedd pleidleisio

5.13 Rhaid i chi ddarparu deunyddiau penodol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio²²⁷:

- blwch/blychau pleidleisio
- papurau pleidleisio (gan gynnwys papurau pleidleisio a gyflwynwyd)
- deunyddiau sy'n galluogi pleidleiswyr i farcio eu papurau pleidleisio (pensiliau neu bennau ysgrifennu yn ymarferol - efallai y dylech ddarparu llinyn er mwyn atodi'r pensiliau/pennau ysgrifennu i'r bythau pleidleisio)
- rhan berthnasol o'r gofrestr
- y rhestrau o bleidleiswyr absennol - rhestrau o bleidleiswyr drwy'r post, dirprwyon pleidleiswyr a dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post
- ffurflen i gofnodi manylion etholwyr sydd wedi cael papurau pleidleisio ar ôl i wall clercaidd gael ei gywiro (y gellir ei hatodi i gofrestr yr orsaf bleidleisio)
- y rhestr neu'r rhestrau rhifau cyfatebol
- fersiwn print mawr o'r papur pleidleisio
- copi llaw enghreifftiol wedi'i chwyddo o'r papur pleidleisio
- dyfais bleidleisio at ddefnydd pobl ddall neu bobl â golwg rhannol
- cyfrifon papurau pleidleisio
- datganiad gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau
- rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd
- rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- datganiad o nifer y pleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion

- hysbysiad Canllawiau i bleidleiswyr ('Sut i bleidleisio yn yr etholiadau hyn') (i'w arddangos y tu mewn a'r tu allan i bob gorsaf bleidleisio)
- hysbysiad cyfarwyddiadau i bleidleiswyr (i'w arddangos y tu mewn i'r bwth pleidleisio)
- sgriniau pleidleisio
- y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r datganiad ynghylch pleidiau a phersonau eraill a enwebwyd ar gyfer etholiadau'r Cynulliad (i'w hargraffu mewn llythrennau amlwg a'u harddangos y tu mewn a'r tu allan i bob gorsaf bleidleisio)
- pecynnau, gyda seliau, i osod ynddynt yr eitemau a gaiff eu dychwelyd atoch, megis papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelir i'r orsaf bleidleisio, a deunydd pecynnu ar gyfer dogfennaeth yr etholiad ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio.

5.14 At hynny dylech ddarparu'r canlynol:

- copi o'r gofynion o ran cyfrinachedd ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd
- amlenni, gyda seliau, i osod ynddynt unrhyw bapurau pleidleisio a ddsbarthwyd ond nad yw'r etholwr wedi'u gosod yn y blwch/blychau pleidleisio
- ffurflen neu restr i gofnodi etholwyr a farciwyd yn bleidleiswyr drwy'r post ond sy'n honni nad ydynt wedi gwneud cais am bleidlais drwy'r post
- papur nodiadau at ddefnydd staff yr orsaf bleidleisio
- eitemau deunydd ysgrifennu fel sy'n ofynnol, e.e. clipiau papur, pinnau bawd, tac glynu, tâp selio
- sachau plastig ar gyfer dychwelyd deunydd ysgrifennu ac offer i'r lleoliad dilysu
- amlenni ar gyfer creu pecynnau

5.15 Dylech gadarnhau bod cyfarpar pob gorsaf bleidleisio yn addas at y diben a bod gennyh ddigon ohono, yn enwedig os bydd niferoedd mawr yn pleidleisio.

5.16 Er enghraifft, bydd angen i chi ystyried sawl blwch pleidleisio i'w ddefnyddio - gallech ddewis cael: un blwch ar gyfer y tri etholiad; un ar gyfer etholiad y Cynulliad ac un ar gyfer etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd; neu dri blwch pleidleisio ar wahân - un yr un ar gyfer etholiadau etholaethol a rhanbarthol y Cynulliad a'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

5.17 Pan ddefnyddir blychau pleidleisio ar wahân, caiff pob blwch ei farcio'n glir gyda'r etholiad(au) y mae'n ymwneud ag ef/â hwy a'r geiriau 'rhowch y papur(au) pleidleisio [nodwch liw'r papurau pleidleisio dan sylw, 'place the [specify colour(s) of the ballot papers in question] ballot paper(s) here] yma'

5.18 Os ydych yn defnyddio'r un blwch pleidleisio ar gyfer mwy nag un etholiad, dylech ystyried darparu blychau ychwanegol i Swyddogion Llywyddu gan na fydd un blwch yn ddigon efallai os bydd nifer fawr o bobl yn dewis pleidleisio. Rhaid i bob blwch pleidleisio i'w ddefnyddio mewn gorsafoedd

pleidleisio gael ei selio gan staff gorsafoedd pleidleisio ar ddechrau'r bleidlais.²²⁸



I gael canllawiau pellach ar ddefnyddio un blwch pleidleisio neu flychau pleidleisio ar wahân mewn etholiadau cyfunol, gweler ein [hadnodd dilysu a chyfrif](#).

5.19 Dylech fod wedi paratoi cyfarpar a deunyddiau'ch gorsafoedd pleidleisio mewn da bryd cyn y diwrnod pleidleisio, naill ai i'w dosbarthu i orsafoedd pleidleisio neu i'w casglu gan Swyddogion Llywyddu.

5.20 Fel rhan o'ch gwerthusiad o addasrwydd eich gorsafoedd pleidleisio byddwch eisoes wedi ystyried materion hygyrchedd y tu mewn a'r tu allan i bob un o'ch gorsafoedd pleidleisio. Dylech sicrhau y caiff unrhyw gyfarpar ychwanegol yr ydych wedi'i nodi sy'n ofynnol er mwyn gwneud yr orsaf pleidleisio yn hygyrch ei ddsbarthu a'i osod mewn da bryd cyn i'r bleidlais agor.

5.21 Os oes dolen sain wedi'i gosod mewn gorsaf pleidleisio, dylid ei defnyddio lle bynnag y bo modd er mwyn gwneud y broses etholiadol yn hygyrch i bleidleiswyr sydd â cholled clyw. Byddai angen rhoi hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio ynglŷn â sut i ddefnyddio'r rhain yn y sesiwn frifio.

5.22 Rhaid i chi roi copi o'r [gofynion cyfrinachedd](#) perthnasol i bob aelod o staff gorsafoedd pleidleisio.²²⁹

Dyrannu papurau pleidleisio

5.23 Rhaid i chi roi'r cyfryw nifer o bapurau pleidleisio ag sydd ei hangen, yn eich barn chi, i bob gorsaf pleidleisio. Os nad ydych yn dyrannu papurau pleidleisio ar gyfer 100% o'r etholwyr sydd â hawl i bleidleisio yn bersonol yn y gorsafoedd pleidleisio, bydd angen ystyried yn ofalus y nifer a fydd yn ofynnol ym mhob achos.

5.24 Fel rhan o'ch ystyriaeth, dylech ystyried nifer y bobl y mae disgwyl iddynt bleidleisio. Dylech dybio na fydd y nifer a fydd yn pleidleisio yn llai na'r nifer a bleidleisiodd yn yr etholiadau diweddaraf a drefnwyd, a dylech ystyried y potensial ar gyfer ymgysylltu'n hwyr a diddordeb hwyr yn yr etholiad, ac unrhyw faterion lleol neu genedlaethol a all effeithio ar y nifer a fydd yn pleidleisio.

5.25 Os penderfynwch, am unrhyw reswm, beidio â dyrannu papurau pleidleisio i orsafoedd pleidleisio yn seiliedig ar 100% o'r etholwyr cymwys yn pleidleisio, dylech sicrhau bod gennych gynlluniau ar waith i wneud yn siŵr y gellir rhoi papurau pleidleisio ychwanegol i unrhyw orsaf pleidleisio y bydd eu hangen arni mewn pryd a rhoi cyngor clir i Swyddogion Llywyddu ynghylch sut i gwblhau'r cyfrifon papurau pleidleisio er mwyn ystyried y dyraniad ychwanegol.

5.26 Wrth ddyrannu papurau pleidleisio i orsafoedd pleidleisio, sicrhewch fod y rhifau ar y papurau pleidleisio a ddyrennir i bob gorsaf bleidleisio yn rhedeg yn olynol er mwyn osgoi unrhyw broblemau wrth gwblhau'r rhestr(au) rhif cyfatebol neu'r cyfrifon papurau pleidleisio.

5.27 Rhaid i bapurau pleidleisio a gyflwynwyd hefyd gael eu darparu i Swyddogion Llywyddu²³⁰. Dylai papurau pleidleisio a gyflwynwyd gael eu darparu i orsafoedd pleidleisio mewn amlen wedi'i seilio gyda chyfarwyddiadau sy'n nodi mai dim ond o dan amgylchiadau a ragnodir y dylid agor yr amlen a dosbarthu'r papurau pleidleisio ynnddi, a dylid rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau hynny. Gall hyn helpu i osgoi rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd ar gam.

5.28 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod staff pob gorsaf bleidleisio yn deall bod amgylchiadau cyfyngedig lle y gellir dosbarthu papurau pleidleisio a gyflwynwyd, a'u bod yn ymwybodol o'r amgylchiadau hyn a pha brosesau y bydd yn ofynnol iddynt eu dilyn wrth eu dosbarthu. Ymdrinnir â'r amgylchiadau lle y gellir dosbarthu papurau pleidleisio a gyflwynwyd a'r prosesau ar gyfer gwneud hynny yn [llawlyfr y Comisiwn i orsafoedd pleidleisio](#).



Ceir rhagor o ganllawiau ar hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

Cofrestrau gorsafoedd pleidleisio a rhestrau pleidleiswyr absennol

5.29 Rhaid i chi ddarparu'r rhan briodol o'r gofrestr i bob Swyddog Llywyddu ar gyfer ei orsaf bleidleisio a'r rhestrau pleidleisio absennol priodol²³¹. Dylai staff gorsafoedd pleidleisio fod wedi cael hyfforddiant ar y marcwyr etholfraint amrywiol a fydd yn ymddangos ar y gofrestr.

5.30 Gall cofrestrau gorsafoedd pleidleisio gael eu hargraffu unwaith y bydd yr hysbysiad terfynol o newid etholiad wedi cael ei gyhoeddi, sef pum niwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio (27 Ebrill 2016).

5.31 Dylai gweithdrefnau gael eu rhoi ar waith i ymdrin ag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i gofrestrau gorsafoedd pleidleisio a rhestrau o ddirprwyon ar ôl y cyfnod hwnnw sy'n deillio o newidiadau o ganlyniad i gywiro gwallau clercaidd neu benderfyniadau'r llys ar apeliadau cofrestru a chymeradwyo ceisiadau i benodi dirprwyon mewn argyfwng.

5.32 P'un a gaiff penderfyniadau o'r fath eu gwneud cyn y diwrnod pleidleisio neu ar y diwrnod pleidleisio ei hun, dylech fod wedi pennu dull o gyfleu'r wybodaeth berthnasol i Swyddogion Llywyddu, a gallwch wneud hynny naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Croesi ffiniau

Dylech gytuno â'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn eich etholaeth ar ddull o gyfleu newidiadau i'r gofrestr i Swyddogion Llywyddu o ganlyniad i wall clercaidd, penderfyniadau'r llys neu gymeradwyo dirprwy mewn argyfwng.

5.33 Lle mae gwall clercaidd wedi cael ei gywiro a bod yr etholwr perthnasol yn cyrraedd yr orsaf bleidleisio ac yn gwneud cais am bapur pleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu ddsbarthu papur pleidleisio yn y ffordd arferol²³². Rhaid i'r Swyddog Llywyddu hefyd wneud cofnod ysgrifenedig o'r etholwr y rhoddwyd papur pleidleisio iddo ar ôl newid y gofrestr oherwydd gwall clercaidd.²³³ Dylai'r cofnod hwn gynnwys enw a rhif yr etholwr. Er mwyn cynorthwyo Swyddogion Llywyddu, dylech atodi dalen ychwanegol at gofrestrau gorsafodd pleidleisio er mwyn rhoi lle iddynt gofnodi newidiadau o'r fath.

5.34 Dylai prosesau tebyg hefyd gael eu datblygu i gyfleu ychwanegiadau at y rhestr o ddirprwyon pleidleiswyr o ganlyniad i geisiadau i benodi dirprwyon mewn argyfwng.

5.35 Lle bydd rhywun yn gwneud cwyn i staff gorsaf bleidleisio sy'n awgrymu y dylai fod ar y gofrestr etholwyr, rhaid i'r Swyddog Llywyddu hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol am hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Er mwyn i hyn weithio'n effeithiol bydd angen rhoi systemau cyfathrebu addas ar waith rhwng Swyddogion Llywyddu a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Rhestrau rhifau cyfatebol

5.36 Mae dau fath o restr rhif cyfatebol: mae'r naill restr, a ddefnyddir yn ystod sesiynau dosbarthu pleidleisiau post, yn cynnwys rhif a marciau adnabod unigryw pob papur pleidleisio a baratoir, yn ogystal â rhifau etholwr pleidleiswyr drwy'r post; ac mae'r llall, a ddefnyddir mewn gorsafodd pleidleisio, yn cynnwys rhifau papurau pleidleisio a cholofn i ychwanegu rhifau etholwr pleidleiswyr y dosbarthwyd y papurau pleidleisio hynny iddynt.

5.37 Rhaid i chi baratoi a darparu rhestr rhif cyfatebol gyfunol ar gyfer pob gorsaf bleidleisio. Os cyfunwyd y gwaith o ddsbarthu pleidleisiau post, rhaid defnyddio rhestr rhif cyfatebol gyfunol wrth ddsbarthu pleidleisiau post.²³⁴



Ceir rhagor o fanylion am ddsbarthu pleidleisiau post yn [Rhan D: Pleidleisio absennol](#).

5.38 Rhagnodir y rhestrau rhifau cyfatebol yn yr atodiad i reolau etholiadau.²³⁵

Pecynnau ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post a ddsberthir i orsafoedd pleidleisio

5.39 Gall pleidleiswyr drwy'r post ddychwelyd eu pleidlais bost â llaw i unrhyw orsaf bleidleisio yn eu hardal etholiadol.

5.40 Lle cyfunwyd y gwaith o anfon papurau pleidleisio drwy'r post, gellir ond dychwelyd pleidleisiau post i'r rhan honno o'r ardal etholiadol sy'n gyffredin i'r holl etholiadau cyfunol yr anfonwyd papurau pleidleisio drwy'r post mewn perthynas â hwy.

5.41 Dylai staff gorsafoedd pleidleisio gael eu briffio'n briodol er mwyn nodi pa bleidleisiau post a all gael eu dychwelyd i'w gorsaf bleidleisio.



Ceir rhagor o fanylion am hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

5.42 Dylech ddarparu pecynnau ar gyfer pleidleisiau post a dderbyniwyd i orsafoedd pleidleisio. Dylai nifer y pecynnau a'u math, fel gofyniad sylfaenol, fod yn seiliedig ar ffurflenni yn yr etholiadau diweddaraf a drefnwyd, gan ystyried y potensial ar gyfer ymgysylltu'n hwyr a diddordeb hwyr yn yr etholiad, ac unrhyw faterion lleol neu genedlaethol a all effeithio ar y nifer a fydd yn pleidleisio. Dylid cadw cofnod o'r holl becynnau o'r fath fel y bydd modd cyfrif am bob un ohonynt. Dylai'r pecynnau fod wedi'u labelu'n glir fel pecynnau sy'n cynnwys pleidleisiau post. Dylai'r labeli gynnwys enw a nod adnabod yr orsaf bleidleisio. Dylech sicrhau bod modd selio'r pecynnau'n ddiogel. Mae gan asiantiaid pleidleisio'r hawl i atodi eu sêl i becynnau wedi'u selio cyn iddynt gael eu symud o'r orsaf bleidleisio ac felly rhaid caniatáu iddynt wneud hynny²³⁶.

5.43 Dylech bwysleisio i Swyddogion Llywyddu pa mor bwysig yw cynnal diogelwch pleidleisiau post a ddychwelir i orsafoedd pleidleisio drwy eu cyfarwyddo i osod unrhyw bleidleisiau post a ddychwelwyd yn y pecynnau a ddarparwyd ar unwaith a sicrhau bod y pecynnau wedi'u storio'n ddiogel drwy gydol y dydd.

5.44 Dylech drefnu i bleidleisiau post gael eu casglu o orsafoedd pleidleisio drwy gydol y dydd gan y bydd hyn yn helpu i leihau'r nifer y bydd angen ymdrin â hwy ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio. Gall arolygwyr gorsafoedd pleidleisio gyflawni'r ddyletswydd hon. Dylech sicrhau bod prosesau ar waith i gynnal trywydd archwilio clir a sicrhau diogelwch pecynnau o bleidleisiau post a gasglwyd wrth iddynt gael eu cludo.

Cofnodlyfr gorsafoedd pleidleisio

5.45 Dylech baratoi cofnodlyfr gorsaf bleidleisio er mwyn i staff gorsafoedd pleidleisio ei ddefnyddio i gofnodi unrhyw broblemau neu anghysonderau. Yn benodol, dylid hysbysu staff gorsafoedd pleidleisio i ddefnyddio'r cofnodlyfr hwn i gofnodi unrhyw beth a all helpu i esbonio unrhyw broblemau ymddangosiadol gyda'r cyfrifon papurau pleidleisio ar adeg dilysu – er enghraifft, os gwelwyd pleidleisiwr yn gadael yr orsaf bleidleisio gyda phapur pleidleisio. Dylech ystyried cyfarwyddo Swyddogion Llywyddu i gadw'r cofnodlyfr a'r cyfrifon papurau pleidleisio gyda'i gilydd wrth drosglwyddo'r papurau pleidleisio i'r cyfrif.

Hysbysiadau gorsafoedd pleidleisio

5.46 Rhaid i chi lunio hysbysiad ar y ffurf a nodir yn yr atodiad i reolau etholiadau, yn Gymraeg a Saesneg, gan roi cyfarwyddiadau i arwain pleidleiswyr. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r hysbysiad 'Canllawiau i bleidleiswyr' gael ei argraffu mewn llythrennau amlwg a'i arddangos y tu mewn a'r tu allan i bob gorsaf bleidleisio.

5.47 Rhaid i chi hefyd lunio'r hysbysiad 'Cyfarwyddiadau i bleidleiswyr' ar y ffurf a nodir yn yr atodiad i reolau etholiadau, yn Gymraeg a Saesneg. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r hysbysiad 'Cyfarwyddiadau i bleidleiswyr' gael ei arddangos ym mhob bwth pleidleisio.

¹ OS 2007/236 At.5 para.4(6), 6(5), 7(7).

² OS 2007/236 At.5 para.4(6), 6(5), 7(7).

³ OS 2007/236 At.5 para. 4, 9 a 10.

⁴ OS 2007/236 At.5 para. 5.

⁵ OS 2007/236 At.5 para. 6, 9, 10.

⁶ OS 2007/236 At.5 para 1

⁷ OS 2007/236 At.5 para. 3(1)(a), 3(2)(a).

⁸ OS 2007/236 At.5 para. 3(1)(a), 3(2)(a).

⁹ OS 2007/236 At.5 para. 11(2).

¹⁰ OS 2007/236 At.5 para. 11(4)

¹¹ OS 2007/236 At.5 para. 4(1).

¹² OS 2007/236 At.5 para. 6(1).

¹³ OS 2007/236 At.5 para 7(1)

¹⁴ OS 2007/236 At.5 para. 9(3).

¹⁵ OS 2007/236 At.10 Ffurflen CJ

¹⁶ OS 2007/236 At.5 para. 18.

¹⁷ OS 2007/236 At.5 16(7), 17(12) a (13)

¹⁸ OS 2007/236 At.5 para. 12(5).

¹⁹ OS 2007/236 At.5 para. 12(1).

²⁰ OS 2007/236 At.5 para. 12(2).

²¹ OS 2007/236 At.5 para. 4(2), 6(2), 7(4).

²² OS 2007/236 At.5 para. 4(3), 6(3), 7(5).

²³ OS 2007/236 At.5 paras 4(3)9, 6(3), 7(5)

²⁴ OS 2007/236 At.5 para. 16(4), 17(6).

-
- 25 OS 2007/236 At.5 paras. 16(5) a 17(7)
26 OS 2007/236 At.5 paras. 4(2)(b), 6(2)(b), 7(4)(b)
27 OS 2007/236 At.5 para. 4(5) a 6(4).
28 OS 2007/236 At.5 para. 7(6).
29 OS 2007/236 At.5 paras. 5(2), 7(2)
30 OS 2007/236 At.5 paras. 13(2), 14(2)
31 OS 2007/236 At.5 para. 5(2).
32 OS 2007/236 At.5 paras. 5(1)(a)
33 OS 2007/236 At.5 paras. 13(6).
34 OS 2007/236 At.5 para. 5(3).
35 OS 2007/236 At.5 para. 6(2)(c).
36 OS 2007/236 At.5 paras. 7(2)
37 OS 2007/236 At.5 paras. 7(2), 8(1)
38 OS 2007/236 At.5 para. 7(1) a (2).
39 OS 2007/236 At.5 para. 8.
40 OS 2007/236 At.5 para 5(5)
41 OS 2007/236 At.5 para. 5(5), 8(2).
42 OS 2007/236 At.5 para. 5(5), 8(2).
43 OS 2007/236 At.5 para. 9.
44 OS 2007/236 At.5 para 9(1)(c), (2)(c) o fewn ystyr 'delivered'
45 OS 2007/236 At.5 para 9
46 OS 2007/236 At.5 para 9(1)(b), (2)(b)
47 OS 2007/236 At.5 para 14(4)(a)
48 OS 2007/236 At.5 para. 10.
49 OS 2007/236 At.5 para 10(4)
50 OS 2007/236 At.5 para 10(1)
51 OS 2007/236 At.5 para 10(5)
52 OS 2007/236 At.5 para 10(2)
53 OS 2007/236 At.5 para 10(5)
54 OS 2007/236 At.5 para 10(3)
55 OS 2007/236 At.5 para 10(6)
56 OS 2007/236 At.5 para. 13(3).
57 OS 2007/236 At.5 para 14(2)
58 OS 2007/236 At.5 para 14(6), (7)
59 OS 2007/236 At.5 para. 14(2).
60 OS 2007/236 At.5 para 14(6), (7)
61 OS 2007/236 At.5 para. 14(9) a (10).
62 OS 2007/236 At.5 para. 13(5).
63 OS 2007/236 At.5 para. 14(9) a (10).
64 OS 2007/236 At.5 para. 13(5).
65 OS 2007/236 At.5 para. 14(9) a (10).
66 OS 2007/236 At.5 para. 14(8).
67 OS 2007/236 At.5 para. 18.
68 OS 2007/236 At.5 para. 18(4).
69 OS 2007/236 At.5 para. 12(3) a (4).
70 OS 2007/236 At.5 para 1 Amserlen
71 OS 2007/236 At.5 para 1 Amserlen
72 OS 2007/236 At.5 para 1 Amserlen
73 OS 2007/236 At.5 para. 19.
74 OS 2007/236 At.5 para 19(1)
75 OS 2007/236 At.5 para 19(2)
76 OS 2007/236 At.5 para. 13(3) a 14(6).
77 OS 2007/236 At.5 para 16(1), 17(1)
78 OS 2007/236 At.5 para. 15
79 OS 2007/236 At.5 para 16, 17
80 OS 2007/236 At.5 para 15, 24
81 OS 2007/236 At.5 para 17
82 OS 2007/236 At.5 para 15, 25

-
- ⁸³ OS 2007/236 At.5 para 1 Amserlen a 15
⁸⁴ OS 2007/236 At.5 para 17
⁸⁵ OS 2007/236 At.5 para 17(1)(b)
⁸⁶ OS 2007/236 At.5 para. 16, 17 a 32.
⁸⁷ OS 2007/236 At.5 para 65(4)
⁸⁸ OS 2007/236 At.5 para 65(1)
⁸⁹ OS 2007/236 At.5 para 65(5)
⁹⁰ OS 2007/236 At.5 para 65(1)
⁹¹ OS 2007/236 At.5 para 65(5)
⁹² OS 2007/236 At.5 para 65(1)
⁹³ OS 2007/236 At.5 para. 21, 62(2).
⁹⁴ OS 2007/236 At.5 para. 62(3) a 4(6).
⁹⁵ OS 2007/236 At.5 para. 22, 64.
⁹⁶ OS 2007/236 At.5 para 64(2)
⁹⁷ OS 2007/236 At.5 para. 70.
⁹⁸ OS 2007/236 At.5 para 71(2)
⁹⁹ OS 2007/236 At.5 para 71(5)
¹⁰⁰ OS 2007/236 At.5 para. 71.
¹⁰¹ OS 2007/236 At.5 para. 72.
¹⁰² OS 2007/236 At.5 para 70(4)
¹⁰³ OS 2007/236 At.5 para. 70.
¹⁰⁴ OS 2007/236 At.5 para 65
¹⁰⁵ OS 2007/236 At.5 para 73(1) a (2)
¹⁰⁶ OS 2007/236 At.5 para 73(2)
¹⁰⁷ OS 2007/236 At.5 para 73(2)
¹⁰⁸ OS 2007/236 At.5 para. 73.
¹⁰⁹ OS 2007/236 At.5 para 7(5)
¹¹⁰ OS 2007/236 At.5 para 73(6) a (7)
¹¹¹ OS 2007/236 At.5 para 73(8)
¹¹² OS 2007/236 At.5 para. 74.
¹¹³ OS 2007/236 At.5 para. 71(9) a 73(10).
¹¹⁴ OS 2007/236 At.5 para 71(7)
¹¹⁵ OS 2007/236 At.5 para. 75.
¹¹⁶ OS 2007/236 At.5 para 75(1)
¹¹⁷ OS 2007/236 At.5 para 75(1)(a)
¹¹⁸ OS 2007/236 At.5 para 75(1)(b)
¹¹⁹ OS 2012/1917, At. 3, para 69.
¹²⁰ OS 2012/1917 At 3 para 69(1)(a)
¹²¹ OS 2012/1917 At 3 para 69(1)(b)
¹²² OS 2012/1917 At 3 para 69(5)
¹²³ OS 2012/1917 At 2 para 58
¹²⁴ OS 2007/236 Erth. 37,
¹²⁵ OS 2007/236 Erth. 37
¹²⁶ OS 2007/236 Erth. 40.
¹²⁷ OS 2007/236 Erth. 37(7), 40
¹²⁸ OS 2007/236 Erth. 39.
¹²⁹ OS 2007/236 Erth. 39(2)
¹³⁰ OS 2007/236 Erth. 39(2)(b)
¹³¹ OS 2007/236 Erth. 37(9)
¹³² OS 2007/236 Erth. 37(9)
¹³³ OS 2007/236 Erth. 38.
¹³⁴ 2007, OS 236/.39 Erth.86.
¹³⁵ OS 2007/236 Erth. 38(3) (fel diwygiwyd gan (Gorchymyn Dlwygio) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2016 (Gorchymyn CCC 2016) para 12)
¹³⁶ OS 2007/236 Erth. 38
¹³⁷ OS 2007/236 At 5 para 39
¹³⁸ OS 2007/236 At 3 para 6(3)
¹³⁹ OS 2007/236 At. 3 para 16

-
- 140 OS 2007/236 At 5 para 38(5) (fel diwygiwyd gan Orchymyn CCC 2016 para 18(3))
141 2007/236 At.5 para. 38 a 41; OS 2012/1917 At.3 para. 31.
142 OS 2007/236 At.5 para. 41(4).
143 OS 2007/236 At 5 para 38(5) (fel diwygiwyd gan Orchymyn CCC 2016 para 18(3))
144 OS 2007/236 At.5 para. 54; OS 2012/1917 At.3 para. 51.
145 OS 2007/236 At 5 para 38
146 OS 2007/236 At 5 para 38(2)
147 OS 2007/236 At 5 para 38(4)(a)
148 OS 2007/236 At 5 para 38(2)(b) a (4)(b)
149 OS 2007/236 At 5 para 63(2)
150 OS 2012/1917 Erth. 26.
151 OS 2012/1917 Erth. 26(7)
152 OS 2012/1917 Erth. 26(7)
153 OS 2012/1917 Erth. 27.
154 OS 2012/1917 Erth. 27(5)
155 OS 2007/236 At.5 para. 38; OS 2012/1917 At.3 para. 31.
156 OS 2012/1917, erth 22 a At 3, para 32
157 OS 2012/1917, At 2, para 33(2)
158 OS 2012/1917, At. 2, para 44
159 OS 2012/1917, At 3. Para 31
160 2007/236 At.5 para. 38 a 41; OS 2012/1917 At.3 para. 31.
161 OS 2012/1917 At.3 para. 34(3).
162 OS 2012/1917 At.3 para. 31(4).
163 OS 2012/1917, At 3. Para 31(5)
164 OS 2012/1917, At 3. Para 31(5)
165 OS 2012/1917 At.3 para. 33(5).
166 OS 2012/1917, At 3. Para 31(7)
167 OS 2007/236 At.5 para. 54; OS 2012/1917 At.3 para. 51.
168 OS 2006/3304 At. 3 Rheol 44; OS 2012/1917 At. 3 Rheol 51
169 OS 2012/1917 At.3 para. 31.
170 OS 2007/236 Erth. 143, OS 2012/1917 Erth.86.
171 OS 2007/236 Erth. 141.
172 OS 2007/236 At.5 para 37
173 OS 2007/236 At.5 para. 3.
174 OS 2007/236 At.5 para 3
175 OS 2007/236 At.5 para. 3.
176 OS 2012/1917, At 3, para 4(5).
177 OS 2012/1917 At.3 para. 4.
178 OS 2007/236 At. 5 para. 37(14) a (17).
179 OS 2007/236 At. 5 para. 1 Amserlen (fel a ddiwygiwyd gan Orchymyn CCC 2016 para 18(2))
180 OS 2007/236 At. 5 para. 16(1) a (2)
181 OS 2007/236 At. 5 para. 16(1) a (2).
182 OS 2007/236 At. 5 para. 16(6)
183 OS 2007/236 At. 5 para.16(6)
184 OS 2007/236 At. 5 para. 16(3).
185 OS 2007/236 At. 5 para. 16(4) a (5).
186 OS 2007/236 At. 5 para. 32(1).
187 OS 2007/236 At. 5 para. 16(8).
188 OS 2007/236 At. 5 para. 1 Amserlen OS 2007/236 At. 5 para. 1 Amserlen (fel a ddiwygiwyd gan Orchymyn CCC Order 2016 para 18(2))
189 OS 2007/236 At. 5 para. 17
190 OS 2007/236 At. 5 para. 17(1) a (3).
191 OS 2007/236 At. 5 para. 17(8), (9), (10), (11).
192 OS 2007/236 At. 5 para. 17(4) a (5).
193 OS 2007/236 At. 5 para. 17(6)
194 OS 2007/236 At. 5 para. 32(1).
195 OS 2007/236 At. 5 para. 17(1).

-
- ¹⁹⁶ OS 2007/236 At. 5 para. 17(14).
¹⁹⁷ OS 2012/1917, At. 3, para 4(5)
¹⁹⁸ OS 2012/1917 At.3 para. 26, 29, 40, 41, 43, 45, 47. 13 a 14.
¹⁹⁹ OS 2007/236 At. 5 para. 32.
²⁰⁰ OS 2007/236 At. 5 para. 1 Amserlen (fel a ddiwygiwyd gan Orchymyn CCC 2016 para 18(2))
²⁰¹ OS 2007/236 At. 5 para. 32.
²⁰² OS 2012/1917 At.3 para. 24.
²⁰³ OS 2012/1917 At.3 para. 24., OS 2007/236 At. 5 para 32
²⁰⁴ OS 2007/236 At. 5 para. 32.
²⁰⁵ OS 2007/236 At. 5 para. 32(2)
²⁰⁶ OS 2007/236 At. 5 para. 32(3)
²⁰⁷ OS 2007/236 At. 5 para. 36.
²⁰⁸ OS 2007/236 At. 5 para. 36
²⁰⁹ Adran 13AB a 13B Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983("RPA 1983")
²¹⁰ RPA 1983 Adran 13AB(5)
²¹¹ RPA 1983 Adran 13AB(6)
²¹² OS 2007/236 At.5 paras 36(1)
²¹³ OS 2007/236 At.5 paras 36(2)
²¹⁴ Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a.9B(8).
²¹⁵ Adran 9B(8), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
²¹⁶ OS 2012/1918 rheoliad 3(4).
²¹⁷ OS 2007/236 At.5 para. 24, 25; OS 2012/1917 At.3 para. 19.
²¹⁸ OS 2007/236 At. 5 para.28 (fel y'i diwygiwyd gan Atodlenni 4 a 4A).
²¹⁹ OS 2007/236 At. 5 para. 49(7); OS 2012/1917 At.3 para. 43(1).
²²⁰ OS 2007/236 At. 5 para. 29; OS 2012/1917 At.3 para. 21.
²²¹ OS 2007/236 At. 5 para. 24(3), 25(3); OS 2012/1917 At.3 para. 19).
²²² OS 2007/236 At. 5 para. 24(3).
²²³ OS 2007/236 At. 5 para. 25(3 a (4)).
²²⁴ OS 2012/1917 At. 3 Rheol 19
²²⁵ OS 2007/236 At. 5 para. 24 a 25, ffurflenni CK a CL; OS 2012/1917 At.3 para. 19, ffurflenni 8A ac 8B.
²²⁶ OS 2007/236 At. 5 para. 46(8); OS 2012/1917 At.3 para. 39).
²²⁷ OS 2007/236 At.5 para. 34, 37, 47, 48, 49, 51, 53; OS 2012/1917 At.3 para. 26, 29, 40, 41, 43, 45, 47,
²²⁸ OS 2007/236 At.5 para. 43; OS 2012/1917 At.3 para. 36.
²²⁹ OS 2007/236 At.5 para. 39; OS 2012/1917 At.3 para. 32
²³⁰ OS 2007/236 At.5 paras 37 a 49
²³¹ OS 2007/236 At.5 paras 37(5)
²³² OS 2007/236 At.5 paras 46(3) a 51
²³³ OS 2007/236 At.5 para. 51; OS 2012/1917 At.3 para. 45
²³⁴ OS 2007/236 At.5 para. 27 (fel y'i diwygiwyd gan Atodlenni 4 a 4A); OS 2012/1917 At.3 para. 30.
²³⁵ OS 2007/236 At.10, ffurflen CO1.
²³⁶ OS 2007/236 At.5 paras 53(1); OS 2012/1917 At 2 para 43(5)